# Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru

## Adroddiad Cyfnod Ymgysylltu 2023

Rhif yr adroddiad: 794

Enw'r awdur: Cyfoeth Naturiol Cymru

# Cynnwys

Cynnwys ... 2
Rhestr o ffigurau ... 2
Rhestr o dablau ... 3
Rhestr o dalfyriadau ... 3
1. Crynodeb gweithredol ... 4
2. Cefndir ... 5
3. Cyflwyniad ... 6
4. Sut y gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r cyhoedd ... 6
5. Crynodeb o’r ymatebion i’r holiadur ... 10
6. Themâu a nodwyd o’r ymatebion i'n holiadur ymgysylltu ... 56
7. Crynodeb ... 78
8. Y camau nesaf ... 79
9. Adnoddau eraill / cadw mewn cysylltiad ... 80
10. Cyfeiriadau ... 81
11. Atodiadau ... 85
11.1 Atodiad A: Map o’r Ardal Chwilio ... 85
11.2 Atodiad B: Holiadur ... 86

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Ym mha rhinwedd y nododd yr ymatebwyr eu bod yn ymateb i'r holiadur ... 10
Ffigur 2: Sut y disgrifiodd ymatebwyr eu hunain ... 11
Ffigur 3: Map o'r ymatebion i’r gweithgareddau ymgysylltu yn ôl cod post ... 12
Ffigur 4: Sut roedd yr ymatebwyr yn teimlo am y PC newydd arfaethedig ... 14
Ffigur 5: Yr ardaloedd yr oedd gan ymatebwyr ddiddordeb mewn ymateb yn eu cylch ... 21
Ffigur 6: Y buddion posibl y rhagwelir y byddant yn deillio o'r PC newydd arfaethedig hwn ... 39
*Ffigur 7: Pryderon neu faterion a ragwelwyd y mae angen rhoi sylw iddynt hystyried* ... 45
Ffigur 8: Mannau sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau – Lleoliad ail gyfeiriadau a ddefnyddir fel cartref gwyliau (yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, Cymru a Lloegr) (SYG 2024) ... 67
Ffigur 9: Amserlen Gwerthuso Cynigion PC Newydd i Gymru ... 80

# Rhestr o dablau

Tabl 1.Presenoldeb yn y digwyddiadau ymgysylltu galw heibio wyneb yn wyneb yn 2023..7
Tabl 2.Presenoldeb yn y digwyddiadau ymgysylltu ar-lein yn 2023....................................8
Tabl 3.Yn ogystal â'r prif themâu hyn a grybwyllwyd ar draws pob un o'r 11 ardal a restrir, dyma'r prif themâu fesul ardal:...........................................................................23
Tabl 4.Y prif themâu fesul meysydd 'eraill' a awgrymwyd:................................................30
Tabl 5.Yn ogystal â'r prif themâu hyn a grybwyllwyd ar draws pob un o'r 11 ardal a restrir, dyma'r prif themâu fesul ardal:...........................................................................34
Tabl 6.Y themâu a grybwyllwyd amlaf.........................................................................56

# Rhestr o dalfyriadau

1. PC - Parc Cenedlaethol
2. AHNE - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
3. ACA - Ardal Cadwraeth Arbennig
4. SoDdGA - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i asesu'r achos dros greu Parc Cenedlaethol newydd, yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n bodoli eisoes). Cafodd ofynion statudol a gweithdrefnol y broses hon eu hegluro a'u cychwyn yn 2022. *(Gweler Adran 8 'Y camau nesaf')*. Yn ogystal â'r gofynion statudol a'r gwaith asesu technegol, sy'n mynd rhagddo, fe wnaethom gynnal cyfnod ymgysylltu cynnar ychwanegol yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2023.

**Nid** ymgynghoriad oedd hwn. Ar y pryd, nid oedd gennym unrhyw gynnig i ymgynghori arno, ond roeddem am rannu ein map Ardal Chwilio cychwynnol a chasglu adborth a gwybodaeth, yn enwedig gan drigolion a rhanddeiliaid. Ein nod oedd deall yn well yr ystod o faterion a safbwyntiau sy'n ymwneud â chynnig y PC. Croesawyd tystiolaeth a allai ddylanwadu ar yr Ardal Chwilio. Roedd y cyfnod ymgysylltu hefyd yn gyfle i ni ddechrau codi ymwybyddiaeth ymhlith y boblogaeth leol, bod asesiad yn digwydd.

Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfnod ymgysylltu, fe wnaethom gynnal lansiad swyddogol prosiect a oedd yn cynnwys gwefan prosiect newydd, gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol amrywiol, datganiad i'r wasg, a chydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol megis yr awdurdodau lleol y byddai potensial i'r cynnig effeithio arnynt, yr AHNE bresennol, ac eraill. Roeddem hefyd yn falch bod y cyfnod ymgysylltu wedi'i gyhoeddi mewn erthyglau newyddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys segment newyddion cenedlaethol gyda'r nos ar ITV a'r BBC.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu saith-wythnos rhwng 9 Hydref a 27 Tachwedd 2023, gwnaethom gynnal 11 o ddigwyddiadau galw heibio ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mynychodd 619 o bobl ddigwyddiadau yn bersonol, mynychodd 105 ddigwyddiadau ar-lein, cawsom gannoedd o negeseuon e-bost, ac ymatebodd 966 o bobl yn ffurfiol i'r holiadur.

Nododd **51%** o'r ymatebwyr i'r holiadur eu bod yn cefnogi ac yn teimlo'n gadarnhaol iawn neu'n gadarnhaol i raddau / yn optimistaidd am y PC newydd arfaethedig.
Nododd **42%** o'r ymatebwyr eu bod yn ei erbyn ac yn teimlo'n negyddol iawn neu'n negyddol i raddau / yn bryderus am y PC newydd arfaethedig.
Nododd **6%** o'r ymatebwyr eu bod yn niwtral neu heb benderfynu.

Dywedodd yr ymatebwyr wrthym am eu cefnogaeth, eu pryderon a'u hawgrymiadau ar gyfer y cynnig PC newydd. *(Gweler Adran 5 'Crynodeb o'r ymatebion i'r holiadur')*

Rydym wedi archwilio'r holl ymatebion i'r holiadur yn ofalus a'u trefnu yn y rhestr ganlynol o'r themâu a grybwyllwyd amlaf (yn eu trefn o'r mwyaf i'r lleiaf):

1. Cadwraeth tirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, llonyddwch.
2. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd.
3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith.
4. Yr angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, ariannu, biwrocratiaeth.

5. Pobl a chymunedau lleol, yr economi leol.
6. Materion mynediad a hamdden awyr agored.
7. Tai.
8. Diwylliant a threftadaeth.
9. Goblygiadau cynllunio.
10. Ymholiadau ynghylch ffiniau.
11. Angen rhagor o wybodaeth.

Rhoddir ystyriaeth gychwynnol o bob un o'r themâu hyn yn *Adran 6 'Ymateb i'r prif themâu'*.

Yn dilyn eich adborth, ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac asesiadau pellach, rydym wedi gwneud nifer o ddiwygiadau i fap cychwynnol yr Ardal Chwilio. Mae rhai o'r meysydd yr awgrymwyd y dylid eu cynnwys bellach wedi'u hychwanegu a byddant yn mynd ymlaen i gael eu gwerthuso yn ystod cam nesaf y prosiect.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2024. Bryd hynny, bydd addasrwydd PC ac opsiynau eraill wedi cael eu gwerthuso, a bydd asesiad manwl o'r dirwedd wedi mireinio ardal yr astudiaeth yn ffin arfaethedig.

# 2. Cefndir

Yn ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bwriad i ddynodi PC newydd yng Nghymru.

CNC yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau) newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ein comisiynu i werthuso'r achos dros greu Parc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n bodoli eisoes.

Bydd yr achos dros greu Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ystyried o fewn tymor presennol y Senedd (2021-2026).

Rydym yn sefydliad annibynnol a byddwn felly'n gwneud argymhelliad annibynnol ar sail y dystiolaeth a gasglwyd a'r goblygiadau ar gyfer dinasyddion Cymru. Bydd y broses statudol a'r profion yn cael eu cymhwyso.

# 3. Cyflwyniad

Rydym wedi sefydlu tîm i arwain y gwaith hwn, a fydd yn cynnwys casglu data a thystiolaeth, ac ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023, cynhaliwyd y rownd ymgysylltu gyntaf gennym a oedd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau ar-lein a digwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb a gynigiwyd i'r cyhoedd ac i randdeiliaid wedi'u targedu.

Nod y cyfnod ymgysylltu hwn oedd cynnal ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, er mwyn rhannu'r map Ardal Chwilio cychwynnol â hwy o'r ardal sy'n cael ei hasesu a dechrau casglu adborth. Roeddem am ddeall yn well yr ystod o faterion a safbwyntiau sy'n ymwneud â chynnig y PC, gyda phwyslais arbennig ar drigolion yr ardal sy'n cael ei hystyried, neu drigolion sy'n lleol iddi. Nod y cyfnod ymgysylltu hefyd oedd codi ymwybyddiaeth o'r asesiad a'r weithdrefn, a rhoi cyfle i'r rhai a allai fod eisiau herio'r Ardal Chwilio gyflwyno tystiolaeth berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r cyfnod ymgysylltu ar y PC newydd arfaethedig yng Nghymru a gynhaliwyd gennym yn 2023 ac yn crynhoi'r adborth a gasglwyd o'r holiadur a'r digwyddiadau ymgysylltu.

# 4. Sut y gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd

## 4.1 Trosolwg

Cyn i'r prosiect gael ei lansio'n swyddogol ym mis Medi 2023, fe wnaethom gyflwyniadau ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ynghylch y map Ardal Chwilio cychwynnol yn ystod haf 2023.

Ar 11 Medi 2023, lansiwyd y prosiect yn swyddogol gennym gan gynnwys creu gwefan y prosiect, amryw weithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, a datganiad i'r wasg a gylchredwyd i'r cyfryngau lleol a pherthnasol. Nod y lansiad hwn oedd codi ymwybyddiaeth o'r cynnig a hyrwyddo'r cyfnod ymgysylltu 7-wythnos a oedd ar ddod.

Rhwng 9 Hydref a 27 Tachwedd 2023, gwnaethom gynnal cyfnod penodol o ymgysylltu â'r cyhoedd ar y map Ardal Chwilio cychwynnol. Yr Ardal Chwilio yw'r terfynau daearyddol y byddwn yn gwerthuso a yw'r meini prawf statudol ar gyfer PC yn cael eu bodloni oddi mewn iddynt. Mae'r ardal yn cynnwys amryw dirweddau sydd, ar y cyd ag AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, â'r potensial i fodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi tirwedd statudol. Nid y ffin i Barc Cenedlaethol arfaethedig yw'r Ardal Chwilio ac mae'n debygol y bydd angen mireinio ymhellach wrth i ni symud ymlaen drwy'r broses.

Cynhaliwyd 11 digwyddiad i gyd. Roedd pump ohonynt yn ddigwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb a chynhaliwyd chwech ar-lein. Cynigiwyd pob digwyddiad fel cyfle cynnar

i ddysgu mwy am y prosiect, gofyn cwestiynau i’r tîm, a rhannu adborth ar fap cynnar o’r ardal sy’n cael ei hasesu.

Hysbysebwyd yr holl ddigwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb a dau o’r digwyddiadau ar-lein ar wefan ein prosiect ac maent yn agored i’r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedwyd wrth bobl mai dim ond un digwyddiad oedd angen iddynt ei fynychu, boed hynny ar-lein neu wyneb yn wyneb, gan mai’r un wybodaeth a rannwyd ym mhob digwyddiad. Targedwyd y pedwar digwyddiad ar-lein arall at grwpiau penodol o randdeiliaid, sef aelodau etholedig, grwpiau amgylchedd a threftadaeth, grwpiau twristiaeth a hamdden, a'r sector ynni adnewyddadwy. Yn anffodus, cafodd y sesiwn ar-lein i berchnogion tir a dargedwyd ei dynnu’n ôl oherwydd diffyg diddordeb.

## 4.2 Digwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb

Cynhaliwyd y pum digwyddiad galw heibio wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Ceiriog Neuadd Bentref Llanbedr, Pwyllgor Sefydliad Cyhoeddus Llanfyllin, Neuadd y Dref Llangollen, ac yn Neuadd Goffa Trelawnyd. Cynhaliwyd digwyddiadau yn ystod yr wythnos (rhwng 1pm a 7pm) ac ar ddyddiau Sadwrn (rhwng 10am a 4pm) ac anogwyd pobl i alw heibio yn y digwyddiadau wyneb yn wyneb fel y mynnent, nid oedd angen archebu lle.

Cafodd mynychwyr y digwyddiadau hyn eu cyfrif i mewn ac allan, gofynnwyd iddynt lofnodi i mewn wrth gyrraedd, a rhoddwyd copïau printiedig o'r daflen ymgysylltu, y ffurflen gwerthuso digwyddiadau ymgysylltu, a'r holiadur iddynt (i gyd yn ddwyieithog). Roedd croeso iddynt weld y byrddau gwybodaeth, ffotograffau, baneri dros dro, a mapiau mawr yn dangos y map o’r Ardal Chwilio. Roedd llawer o staff wrth law - gyda siaradwyr Cymraeg ar gael yn eu plith bob amser - yr oedd modd eu hadnabod drwy eu dillad â brand CNC. Bu'r staff yn trafod y cynigion, yn esbonio'r Ardal Chwilio, ac yn cynnal trafodaethau cyffredinol gyda'r rhai a oedd yn bresennol er mwyn deall eu safbwyntiau, ateb eu cwestiynau pan oedd hynny’n bosibl, a’u hannog i gwblhau holiaduron fel mecanwaith ar gyfer casglu adborth.

*Tabl 1.Presenoldeb yn y digwyddiadau ymgysylltu galw heibio wyneb yn wyneb yn 2023*

| Dyddiad | Lleoliad | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 11 Hydref | Canolfan Ceiriog, Heol Newydd, Glyn Ceiriog, Llangollen LL20 7HE | 72 |
| Dydd Sadwrn 28 Hydref | Neuadd Bentref Llanbedr, Llanbedr-Dyffryn-Clwyd, Rhuthun LL15 1UP | 200 |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun 6 Tachwedd | Y Pwyllgor Sefydliadau Cyhoeddus, Park View/Stryd Fawr, Llanfyllin SY22 5AA | 142 |
| Dydd Sadwrn 18 Tachwedd | Neuadd y Dref Llangollen, Stryd y Castell, Llangollen LL20 8NU | 102 |
| Dydd Mercher 22 Tachwedd | Neuadd Goffa Trelawnyd, The Record Journal, Trelawnyd LL18 6DN | 103 |

Daeth cyfanswm o **619** o fynychwyr ar draws pob un o'r pum digwyddiad galw heibio wyneb yn wyneb.

## 4.3 Digwyddiadau ar-lein

Anogwyd y rhai oedd â diddordeb mewn cymryd rhan yn un o'r digwyddiadau ar-lein i anfon e-bost i dîm y prosiect yn cynnwys eu henw, eu budd (e.e. preswylydd, arweinydd cymunedol, perchennog tir, ffermwr, perchennog busnes, cynrychiolydd sefydliad, ac ati), a pha ddigwyddiad yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn dod iddo. Anfonodd tîm y prosiect ddolenni i'r cyfarfodydd cyn y digwyddiadau. Parodd pob digwyddiad awr a hanner ac roedd strwythur pob un yn cynnwys cyflwyniadau 30 munud gan y tîm ac yna awr o gwestiynau a thrafodaethau. Cynhaliwyd yr holl ddigwyddiadau ar-lein yn ddwyieithog drwy ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd, ac ar ddiwedd y digwyddiadau anogwyd pobl i roi eu hadborth drwy gwblhau'r holiadur.

*Tabl 2. Presenoldeb yn y digwyddiadau ymgysylltu ar-lein yn 2023*

| Dyddiad | Grŵp rhanddeiliaid | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| Dydd Llun 9 Hydref | Aelodau etholedig | 10 |
| Dydd Iau 19 Hydref | Y cyhoedd | 24 |
| Dydd Mercher 25 Hydref | Grwpiau amgylchedd a threftadaeth | 19 |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Iau 9 Tachwedd | Grwpiau twristiaeth a hamdden | 4 |
| Dydd Mawrth 14 Tachwedd | Y cyhoeddus | 38 |
| Dydd Gwener 24 Tachwedd | Y sector ynni adnewyddadwy | 10 |


Daeth cyfanswm o **105** o fynychwyr i'r chwe digwyddiad ar-lein.

# 5. Crynodeb o’r ymatebion i’r holiadur

Ymatebodd cyfanswm o **966** o bobl i'r holiadur ymgysylltu. Cafodd **952** eu cwblhau yn Saesneg ac **14** yn Gymraeg.

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgysylltu, sef rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023, aeth y tîm ati i godio a dadansoddi’r holl ymatebion i’r holiadur. Mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

## 5.1 Cwestiwn 1. A ydych yn ymateb i’r holiadur hwn fel unigolyn, ar ran sefydliad neu ar ran grŵp neu gymuned?





Ffigur 1*:* Ym mha rinwedd y nododd yr ymatebwyr eu bod yn ymateb i'r holiadur

O'r **966** o bobl a ymatebodd i'r holiadur, nododd **95%** ohonynt (920 o’r ymatebwyr) eu bod yn ymateb fel unigolion, **4%** (38 o’r ymatebwyr) ar ran sefydliad, ac **1%** (8 o’r ymatebwyr) ar ran grŵp neu gymuned.

Roedd y rhai a nododd eu bod yn ymateb a ran sefydliadau yn dod o sefydliadau amgylcheddol, ysgolion, cynrychiolwyr perchnogion tir, a busnesau amrywiol.

Roedd y rhai a nododd eu bod yn ymateb ar ran grŵp neu gymuned yn dod o grwpiau amgylcheddol a cherdded.

## 5.2 Cwestiwn 2. Pa un o’r canlynol sy’n eich disgrifio chi orau?




*Ffigur 1: Sut y disgrifiodd ymatebwyr eu hunain*

Ticiodd y rhai a ymatebodd fel unigolion gynifer o atebion ag a oedd yn berthnasol iddynt. Nododd **790** ymatebwyr eu bod yn *drigolion lleol*, **a nododd 215** ohonynt eu bod yn *ffermwyr / perchnogion tir*, **43** eu bod yn *ymwelwyr / twristiaid*, **91** eu bod yn *berchnogion busnes*, **33** eu bod yn *gynrychiolwyr sefydliad / grŵp*, a nododd **44** *arall* fel ateb.

Ychydig iawn o'r **44** o ymatebwyr a ddewisodd *arall* fel ateb a nododd beth roedden nhw'n ei olygu gan hyn. Fodd bynnag, ymhlith y rhai a nododd ragor o fanylion, roedd cynghorwyr lleol, cerddwyr a thrigolion a oedd yn byw y tu allan i fap yr Ardal Chwilio.


Ni nododd llawer o’r cynrychiolwyr sefydliadau / grwpiau eu rolau. Dim ond eu henw neu enw eu sefydliad a nodwyd gan y rhan fwyaf ohonynt. Roedd y rhai a nododd eu rolau yn tueddu i fod yn gadeiryddion, rheolwyr, a chyfarwyddwyr.

Casglwyd barn y bobl yr oedd y cynrychiolwyr sefydliadau / grwpiau yn eu cynrychioli ar lafar, y a thrwy gyfarfodydd, trafodaethau, cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost. Prin oedd sôn am faint o bobl a gyfrannodd eu barn, dim ond bod nifer y cyfranwyr a’r diddordeb yn cynyddu’n ddyddiol.

Defnyddiodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yr adran ‘unrhyw sylwadau pellach’ yn y cwestiwn hwn i ddechrau codi eu pryderon, a'u hymholiadau, a mynegi eu barn a'u buddiannau yn y cynnig.

## 5.3 Cwestiwn 3. Beth yw eich cod post?

Yn y cwestiwn hwn, gwnaethom ofyn i’r ymatebwyr ddarparu eu cod post yn llawn, neu’r tri digid cyntaf, er mwyn nodi faint o ymatebwyr â buddiant sy’n byw o fewn yr Ardal Chwilio neu’r tu allan iddi.





*Ffigur 2: Map o'r ymatebion i’r gweithgareddau ymgysylltu yn ôl cod post*

Mae'r map hwn yn dangos yr ymatebion a gafwyd yn yr holiadur ar gyfer pob tref neu ranbarth ar sail eu cod post allanol. Y cod post allanol yw'r rhan gyntaf o'r cod post sy'n dynodi'r ardal neu'r rhanbarth. Mae'r map yn darlunio canran y rhai a gymerodd ran yn yr holiadur a chynrychiolaeth pob tref neu ranbarth.

Ar sail yr ymatebion, mae’r gynrychiolaeth ar ei huchaf mewn codau post sydd o fewn yr Ardal Chwilio, a’r cod post mwyaf canolog, LL20, sydd â’r ganran uchaf. Gwelir hefyd gynrychiolaeth uchel yng ngogledd-ddwyrain, gorllewin, a de'r Ardal Chwilio. Mae’n bosibl bod y gynrychiolaeth isel a welir yn y gogledd-orllewin a'r dwyrain yn deillio o’r ffaith bod poblogaethau uwch mewn ardaloedd trefol.

Mae'r labeli ar y map yn nodi amlder yr ymatebion, sy'n uwch o fewn yr Ardal Chwilio ac yn lleihau wrth symud oddi wrthi. Y gogledd-orllewin sydd â'r gwerthoedd uchaf o fewn yr Ardal Chwilio, sy'n gostwng yn gyffredinol i gyfeiriad y de neu'r gorllewin.

## 5.4 Cwestiwn 4a. Pa opsiwn isod sy’n disgrifio orau eich teimladau tuag at y PC newydd arfaethedig?




*Ffigur 3: Sut roedd yr ymatebwyr yn teimlo am y PC newydd arfaethedig*

O'r **966** o bobl a ymatebodd i'r holiadur; Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol / optimistaidd am y cynnig gyda **51%** yn nodi eu bod yn teimlo’n gadarnhaol /optimistaidd iawn (36%, 345 o’r ymatebwyr) neu’n gadarnhaol / optimistaidd i raddau (15%, 146 o’r ymatebwyr). Nododd **6%** eu bod yn teimlo’n niwtral (5%, 51 o’r ymatebwyr) neu nad oeddent yn gwybod (2%,16 o’r ymatebwyr), a nododd **42%** eu bod yn teimlo'n negyddol / pryderus iawn (29%, 284 o’r ymatebwyr) neu’n negyddol / pryderus i raddau (13%, 124 o’r ymatebwyr).

## 5.5 Cwestiwn 4b. Nodwch ragor o fanylion ynghylch eich ateb / eglurwch pam yr ydych yn teimlo fel hyn

Mae'r holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u crynhoi a'u gosod o dan brif themâu. Mae'r themâu wedi’u trefnu o'r rhai a grybwyllir fwyaf aml i’r lleiaf aml.

### 5.5.1 Cadarnhaol / optimistaidd

Roedd y rhai a oedd yn teimlo'n **gadarnhaol / optimistaidd iawn ac yn gadarnhaol / optimistaidd i raddau** am y PC newydd arfaethedig yn teimlo felly am y rhesymau a ganlyn:

## Byddai'n diogelu  ac yn gwarchod y dirwedd

- **Awydd cryf i warchod** - Teimla llawer yn gryf fod angen gwarchod y dirwedd leol *"hardd" a "rhyfeddol"* yn well ac maent yn croesawu unrhyw gyfleoedd i'w diogelu.
- **Statws PC yw'r opsiwn gorau -** o ran statws PC *"mae'n ymddangos mai dyma'r peth iawn i'w wneud"* a *"Gall ond fod yn beth da"* gan y byddai'n darparu'r haen ychwanegol hon o amddiffyniad a *"sicrhau bod yr ardal mor brydferth yn y blynyddoedd i ddod ag y mae heddiw"*.
- **Gwarchod ardaloedd gwledig** - Mae'n bwysig diogelu ardaloedd gwledig, a'r ffordd wledig o fyw a sicrhau bod cefn gwlad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- **Mwynhad -** Mae'n *"ardal anhygoel"* sy'n haeddu cael ei gwarchod "*fel y gall pobl ei mwynhau … am genedlaethau i ddod".*
- **Gwarchod rhag datblygu digroeso -** Pryderon y bydd *"gormod o ddatblygu anawdurdodedig"* yn yr ardal hon. Y gobaith yw y byddai nifer cyfyngedig o ddatblygiadau tai newydd yn cael eu hadeiladu ac y byddai'r ardal yn cael ei gwarchod rhag diwydiannu gan ddatblygiadau ffermydd gwynt.

## Hwb economaidd i'r ardal

- **Mae angen buddsoddiad** - Mynegwyd teimladau cryf bod angen hwb ar ogledd-ddwyrain Cymru, oherwydd bod y rhan hon o Gymru yn aml *"yn cael ei anghofio"* a'i *"anwybyddu'n llwyr".*
- **Denu buddsoddiad i'r ardal leol** - Y gobaith yw y byddai PC newydd yn denu mwy o ymwelwyr a mwy o fuddsoddiad i'r ardal. Y gobaith yw y byddai dod â mwy o arian i mewn hefyd yn helpu i ddatblygu seilwaith yn y trefi hyn, yn cynhyrchu mwy, ac o fudd i fusnesau a swyddi lleol presennol.
- **Trwsio'r orddibyniaeth ar ffermio yn yr ardal** - Mae angen *"economi fwy eang"* nad yw'n dibynnu'n ormodol ar ffermio. Mae llawer yn credu y byddai PC newydd yn caniatáu ar gyfer cyfleoedd economaidd drwy weithgareddau hamdden ac yn cynnig cyfle i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal.

## Cadw a gwella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth

- **Hybu bywyd gwyllt a bioamrywiaeth** - Byddai PC newydd yn *"wych ar gyfer yr ardal a bywyd gwyllt"* gan y byddai'n helpu i ddiogelu'r ardal a'i hecoleg naturiol, ac yn helpu i'w gwella.
- **Bywyd gwyllt mewn gerddi** - Cyfeiriad at y ffaith bod yr ardal yn *"llawn anifeiliaid anhygoel"* a bod *"cymaint o fywyd gwyllt yng nghyffiniau gerddi pobl"* gan gynnwys tylluanod brych, moch daear, ac amrywiaeth o adar.
- **Adar hela -** Mae angen i berchnogion tir sy'n magu adar hela i'w saethu warchod bywyd gwyllt yn well.
- **Cynefin pwysig** - Mae'r ardal yn *"gynefin hanfodol"* ar gyfer gwahanol rywogaethau o fflora a ffawna.
- **Yr argyfwng ecolegol a bioamrywiaeth** - Gallai PC helpu i fynd i'r afael â rhai o achosion yr argyfwng ecolegol a bioamrywiaeth a welwyd ledled y DU, yn yr ardal hon, a'u gwrthdroi.

## Dod â chydnabyddiaeth i'r ardal

- **Mae'n haeddu statws PC** - Teimla llawer bod yr ardal yn *"deilwng"* o statws PC a'i fod yn *"hen bryd iddi gael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu"* ar ôl iddi gael ei *"thanbrisio fel ardal hamdden a thwristiaeth a rhywle y gellir profi'r awyr agored" ers tro byd*. Mae llawer o bobl sy'n ymweld ar hyn o bryd yn ei disgrifio fel *"perl sydd heb ei ddarganfod"* ac yn rhywle *"sydd â chymaint i'w gynnig"*.
- **Codi proffil** - Byddai statws PC yn *"codi proffil yr ardal"*, yn arwain at fwy o dwristiaeth, ac yn rhoi mwy o reswm i bobl aros yma yn hytrach na dim ond teithio'n syth drwodd i Barc Cenedlaethol Eryri. Byddai'n helpu i "*roi cymunedau gwledig ar y map"*.

## Rhagor o adnoddau

- **Byddai'n haws sicrhau adnoddau** - Gallai PC ei gwneud yn haws i sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal yr ardal a galluogi'r ceidwaid i osod rheoliadau yn ôl yr angen. Er enghraifft, byddai arferion ffermio fel dŵr ffo cemegol i lynnoedd ac afonydd yn cael eu rheoleiddio'n well.
- **Mwy o gyllid** - Gallai ryddhau cyllid ychwanegol y gellir ei ddefnyddio i ddarparu mwy o gyfleusterau i ymwelwyr a thrigolion, a chynnal a chadw llwybrau ceffylau ar gyfer marchogaeth a beicio mynydd.
- **Byddai cyllid yn fwy sicr nag ydyw ar gyfer AHNE** - Byddai cyllid yn fwy sicr na'r system AHNE a byddai mwy ohono ar gael ar gyfer rheoli PC a fyddai'n rhoi mwy o sefydlogrwydd hirdymor i reolaeth yr ardal.
- **Arallgyfeirio ffermydd** - Gallai PC helpu ffermydd i ddatblygu ac arallgyfeirio yn sylweddol a darparu grantiau ac adnoddau i gynnal y dirwedd i bawb ei mwynhau – yn drigolion ac yn ymwelwyr.

## Gwarchod diwylliant a threftadaeth

- **Pensaernïaeth** - Cadw a diogelu pensaernïaeth leol ac adeiladau hanesyddol. Byddai PC yn helpu i reoleiddio safonau adeiladu.
- **Dyffryn Ceiriog** - Diogelu amgylchedd hanesyddol y dyffryn y mae ei dirwedd yn *"gyfoethog"* a chanddo *"dreftadaeth naturiol"*.
- **Ffordd o fyw** - Mae angen gwarchod traddodiadau a ffyrdd o fyw lleol.
- **Y Gymraeg** - Cadw'r Gymraeg.

## Cynyddu mynediad a chyfranogiad yn yr awyr agored

- **Mynediad i gefn gwlad** - Cydnabyddiaeth bod gan yr ardal ardaloedd *"gwych"* o gefn gwlad a bod angen gwneud mwy i'w gwneud yn *"hygyrch i bawb"*.
- **Buddion iechyd** - Mae'n bwysig darparu mannau ar gyfer hamdden a fydd yn helpu i alluogi pobl i wneud mwy o ymarfer corff a lleihau'r argyfwng gordewdra yng Nghymru.

## Gwella'r amgylchedd a chynaliadwyedd

- **Manteision o ran y newid yn yr hinsawdd** - Mynegwyd yr angen brys i wneud rhywbeth am y newid yn yr hinsawdd; yr effaith gadarnhaol y byddai PC yn ei chael ar yr amgylchedd; a'r manteision a allai ddod yn sgil hynny gyda mwy o allu i gydlynu ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.

- **Diogelu -** Dymuniad i weld mesurau diogelu yn eu lle fel bod yr ardal yn cael ei rheoli'n gynaliadwy o ran natur, yr amgylchedd, twristiaeth ac amaethyddiaeth.
- **Ffermio cynaliadwy -** Cyfle i ddatblygu ac annog arferion ffermio mwy cynaliadwy ac *"ystyriol o'r hinsawdd"* .
- **Awyr dywyllach -** Y gobaith yw y bydd yn arwain at warchod awyr dywyllach a mwy o gyfyngiadau ar oleuadau i helpu i leihau llygredd golau.
- **Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy -** Mae ganddo'r potensial i ddod ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn fyw mewn maes ffocws sy'n gwneud synnwyr o safbwynt cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gyda fframwaith llywodraethu wedi'i deilwra a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

### Hyrwyddo a gwella harddwch naturiol

- **Arddangos harddwch yr ardal mewn ffordd gadarnhaol -** Mae llawer yn croesawu unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo'r tirweddau, rhannu'r amgylchedd a *"rhoi mwy o sylw i'r ardal hardd yr ydym yn byw ynddi"*. Teimladau cryf o falchder, a synnwyr bod hon yn ardal o harddwch naturiol sydd wedi'i *"thanbrisio"* .
- **Cefnogaeth i Barc Cenedlaethol newydd** - Disgrifiwyd y cynnig fel *"prosiect gwych!"*, un a fydd yn *"gwella, yn diogelu ac yn tynnu sylw at y rhan harddaf o Gymru!".*

### Hunaniaeth gref

- **Hunaniaeth a chymeriad** - Byddai'n helpu i roi *"hunaniaeth gref"*, *"cadw cymeriad'"* yr ardal a bod yn gyfle i *"greu hunaniaeth naturiol ar draws tirwedd hanesyddol yr ardal nad yw'n canolbwyntio ar ddiwydiannau'r gorffennol"*.

## 5.5.2 Negyddol / pryderus

Roedd y rhai a deimlai'n **negyddol / pryderus i raddau ac yn negyddol / pryderus iawn** tuag at y PC newydd arfaethedig yn teimlo felly am y rhesymau a ganlyn:

### Effaith negyddol ar yr amgylchedd, da byw a bywyd gwyllt

- **Gormod o fynediad** - Pryderon y byddai gormod o bobl yn cael mynediad i gefn gwlad gan *"ddifetha gwylltineb"* yr ardal a chreu pob math o broblemau i ffermwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gadael gatiau ar agor, a mwy o gŵn nad ydynt ar dennyn yn mynd i mewn i gaeau ac yn aflonyddu a/neu'n ymosod ar ddefaid ac anifeiliaid eraill. Hefyd, pryderon y byddai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn arwain at erydu llwybrau troed.
- **Sbwriel** - Mae ymwelwyr yn gadael sbwriel ac mae pobl leol yn cael eu hunain yn clirio ar eu hôl yn aml. Pryderon y bydd y broblem hon yn gwaethygu gyda Pharc Cenedlaethol.

### Mwy o gyfyngiadau (ee ar ddefnydd tir, cynllunio)

- **Cyfyngiadau cynllunio** - Pryderon ynghylch cynnydd mewn cyfyngiadau cynllunio.
- **Effaith ar brosiectau ynni adnewyddadwy** - Pryderon y byddai PC yn rhwystro unrhyw brosiectau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol na fyddai'n helpu Cymru i weithio tuag at gyflawni sero net erbyn 2030.

- **Cyfyngiadau ar ffyrdd o fyw** - Pryderon ynghylch cyfyngiadau cynyddol ar ffyrdd pobl o fyw.

### Gorboblogi oherwydd twristiaid

- **Mae gormod o dwristiaid ar hyn o bryd** - Ddim eisiau denu mwy o ymwelwyr i'r ardal gan fod ofnau eisoes bod gormod o dwristiaid yn ymweld.
- **Effaith ar reoli traffig** - Pryderon y byddai'r cynnydd mewn twristiaeth yn yr ardal yn cael effaith negyddol ar y *"system rheoli traffig sydd eisoes o dan bwysau".*
- **Yr effaith ar fannau problemus** - Pryderon ynghylch rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar fannau problemus fel Moel Famau, Loggerheads, a Rhaeadr Bwlch yr Oernant.

### Diffyg seilwaith

- **Anallu i ymdopi** - Pryderon ynghylch cynnydd yn y pwysau gan ymwelwyr os nad oes seilwaith digonol ee ffyrdd a pharcio annigonol, a diffyg toiledau cyhoeddus.

### Cynnydd ym mhrisiau tai

- **Anfforddiadwy i bobl leol** - Pryderon y bydd prisiau tai yn mynd yn ddrytach gan arwain at sefyllfa lle bydd pobl leol, yn enwedig pobl ifanc, yn methu â'u fforddio ac yn methu â pharhau i fyw'n lleol.

### Y gost

- **Cost na ellir ei chyfiawnhau** - Pryderon bod y cynnig yn *"wastraff arian"* gyda llawer yn cwestiynu a ellir cyfiawnhau'r gost hon yn ystod cyfnod ariannol mor anodd yng Nghymru.

### Yr effaith ar bobl leol sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal

- **Dim manteision** - Pryderon na fyddai gwneud yr ardal hon yn Barc Cenedlaethol o fudd i'r trigolion a'r cymunedau.
- **Dim cyfleoedd gwaith newydd** - Pryderon y mai dim ond gwaith rhan-amser â chyflog is a ddaw yn sgil twristiaeth, oni bai eich bod yn berchen ar eiddo neu fusnes. Felly, i'r trigolyn cyffredin, ni fydd PC yn dod â llawer o fudd i'r economi leol.

### Dim angen amdano

- **Yn gwrthwynebu PC** - Mae llawer o'r farn nad oes angen cael PC ac yn credu y byddai'n dod â beichiau yn unig.

### Diffyg gwybodaeth am y manteision

- **Mae angen mwy o wybodaeth** - Pryderon nad yw'r manteision a'r anfanteision, a'r rhesymau pam mae angen PC wedi'u hegluro. Ceisiadau am ragor o drafodaethau ac ymgysylltu â'r cyhoedd oherwydd, ar hyn o bryd, *"mae'n ymddangos bod hyn yn rhywbeth y mae'r llywodraeth yn ei wneud ar ei phen ei hun heb hysbysu'r cyhoedd".*

### Mwy o fiwrocratiaeth

- **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** - Cwestiynau ynghylch pam mae angen lefel bellach o fiwrocratiaeth ar yr ardal hon o ystyried ei bod eisoes yn SoDdGA.
- **Yn gwrthwynebu rhagor o fiwrocratiaeth a rheolaeth gan y wladwriaeth** - Teimladau cryf yn gwrthod mwy o haenau o fiwrocratiaeth a rheolaeth gan y wladwriaeth sy'n "ymddangos yn arwydd o'n hoes ni". Roedd rhai yn poeni ei fod *"yn teimlo fel biwrocratiaeth er mwyn biwrocratiaeth"* a chafwyd ceisiadau i adael pobl yn llonydd.

### Mwy o reoli a rheolaeth

- **Mwy o reoliadau gan y llywodraeth** - Mynegwyd pryder y byddai rhagor o reoliadau gan Lywodraeth Cymru.
- **Pwerau dros gynghorau lleol** - Pryderon ynghylch y pŵer a fyddai gan awdurdod PC dros y cynghorau lleol.

### Yn hepgor rhai ardaloedd

- **Pryderon ynghylch ffiniau** - Pryderon *"nad yw'r ffiniau yn gwneud synnwyr o gwbl"* ac *"mae'n eithrio ardaloedd y dylid eu cynnwys"*. Cafwyd rhai pryderon ynghylch pam nad yw ardal Llandrillo wedi'i chynnwys.

### Colli unigedd a llonyddwch

- **Gormod o ymwelwyr** - Mae llawer o bobl leol yn *"caru heddwch a thawelwch"* ac felly mae pryderon y byddai rhoi statws PC i'r ardal yn dod â mewnlifiad aruthrol o ymwelwyr newydd a fyddai, yn ei dro, yn dileu harddwch a llonyddwch yr ardal.

### Erydu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig

- **Gostyngiad yn nifer y teuluoedd lleol** - Pryderon y byddai gostyngiad yn nifer y teuluoedd lleol yn arwain at gau ysgolion ac erydu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ymhellach. Pryderon y byddai'r defnydd o'r Gymraeg, sy'n gyffredin ar hyn o bryd, yn lleihau wrth i dai gael eu prynu gan bobl o rannau eraill o'r DU.

### Ni fyddai'n fuddiol o gwbl i Fynydd Helygain gael ei ddosbarthu'n Barc Cenedlaethol

- **Effaith negyddol ar Fynydd Helygain** - Pryderon ynghylch yr effaith negyddol y byddai'r PC arfaethedig yn ei chael ar Fynydd Helygain. Cafwyd nifer o geisiadau i *"adael llonydd i Fynydd Helygain".*

### 5.5.3 Niwtral neu ddim yn gwybod

Roedd y rhai a deimlai'n **niwtral neu ddim yn gwybod** sut yr oeddent yn teimlo tuag at y PC newydd arfaethedig yn teimlo fel hyn am y rhesymau a ganlyn:

### Angen rhagor o wybodaeth


- **Ynglŷn â'r cynnig cyffredinol** - Mynegwyd ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig a nodwyd nad oes digon o wybodaeth wedi cael ei rhannu.

- **Ynglŷn â’r effaith -** Pryderon y disgwylir i bobl gael barn heb weld sut y byddai PC yn effeithio arnynt yn gyntaf.

### Manteision ac anfanteision

- **Y budd i bobl leol ac ymwelwyr** - Teimladau cryf fod yn rhaid i'r ardal weithio i'r rhai sy’n byw ac yn gweithio ynddi, yn ogystal ag i’r rhai sydd am ymweld i hamddena.

## 5.6 Cwestiwn 5a: Pa ran neu rannau o'r ardal sy'n cael ei/eu hystyried y mae gennych ddiddordeb ynddi/ynddynt ac ymateb yn ei chylch?




*Ffigur 4: Yr ardaloedd yr oedd gan ymatebwyr ddiddordeb mewn ymateb yn eu cylch*

Ar gyfer y cwestiwn hwn, roedd y **966** o ymatebwyr i'r holiadur yn gallu ticio cynifer o atebion ag yr oedd yn berthnasol iddynt.

*Nododd **463** fod ganddynt ddiddordeb mewn ymateb am yr ardal o fewn yr AHNE bresennol, roedd gan **157** ddiddordeb yn Nhwyni Gronant, roedd gan **294** ddiddordeb ym Mynydd Helygain, **297** yn Nyffryn Clwyd, **150** ym Mynydd yr Hob y Gogledd, **184** ym Mhwllglas a'r Dyffryn yn Rhuthun, **259** yn Nyffryn Ceiriog, **247** yn Nyffryn Tanat, **232** yn Nyffryn a Bryniau Llanfyllin, **245** yn Llyn Efyrnwy, **244** yn Nyffrynnoedd Efyrnwy a Banwy, a dewisodd **134** Arall fel ateb.*

Cyfeiriodd y rhai a ddewisodd *Arall* fel ateb ac a nododd ragor o fanylion at yr ardaloedd a ganlyn fwyaf; Mynyddoedd y Berwyn, Mynydd Mynyllod, Llansilin, Llandrillo a Phantasaph.

## 5.7 Cwestiwn 5b: Beth sy'n arbennig i chi am y lle hwn / lleoedd hyn?

Mae'r holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u crynhoi, eu rhannu'n ardaloedd lleoliad, a'u gosod mewn prif themâu. O fewn pob ateb ynghylch ardal, mae'r themâu wedi'u trefnu o'r rhai a grybwyllir fwyaf aml i'r lleiaf aml.

### 5.7.1 Y prif themâu a grybwyllwyd ar draws pob un o'r 11 ardal a restrir:

#### Y dirwedd

- **Sylwadau cadarnhaol am y dirwedd** - *"Harddwch naturiol anhygoel"* y dirwedd *"amrywiol"* ac *"unigryw"* . Cyfeiriad at y *"dirwedd ffermio syfrdanol"*, y *"clytwaith o goed a gwrychoedd, afonydd, rhosydd, ucheldiroedd ac ardaloedd ffermio cynhyrchiol".*
- **Nid yw'r dirwedd o ansawdd digonol** - Pryderon nad oes gan yr ardal ansawdd a gwerth tirwedd arbennig y Parciau Cenedlaethol eraill. Awgrymodd rhai, hyd yn oed, fod gan rannau eraill o Ganolbarth Cymru (nad ydynt wedi'u dynodi eto) fwy i'w gynnig o ran y dirwedd, harddwch naturiol, llonyddwch, ymdeimlad o wylltineb a lle, bioamrywiaeth (Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig a SoDdGAau), a chyfleoedd hamdden.

#### Bywyd gwyllt

- **Tegeirianau ac adar ysglyfaethus** - Mae'r *"tegeirianau gwyllt"* a'r ffaith bod *"llawer o adar ysglyfaethus"* yn gwneud yr ardaloedd hyn yn arbennig.
- **Ardaloedd pwysig i fywyd gwyllt** - Mae'r ardaloedd hyn i gyd yn bwysig ar gyfer bywyd gwyllt, rhywogaethau prin (gan gynnwys adar, pryfed, a phlanhigion), a chynefinoedd, y mae angen eu diogelu i gyd.
- **Angen gwarchod ardaloedd** - Dymuniad i weld pob un o'r ardaloedd hyn yn cael ei gwarchod ar gyfer y dyfodol a bod bioamrywiaeth yn cael ei hybu.

#### Diwylliant a threftadaeth

- **Llawer iawn i'w rannu** - Dylid datgelu dyfnder ac ehangder hanes a diwylliant yr ardaloedd hyn a'u harddangos i bobl leol a thwristiaid.
- **Hanes Cymru** - Hanes Cymreig o ran Oes y Derwyddion, yr Oes Geltaidd, yr Oes Efydd a'r Oes Haearn.
- **Diwylliant Cymreig** - Y diwylliant Cymreig lleol, y Gymraeg, ac enwau lleoedd. Nododd llawer eu bod *"falch o fod o Gymru"*.
- **Tir fferm hanesyddol** - Ardal hanesyddol â thir fferm sydd â *"thraddodiadau amaethyddol balch"* sy'n bodoli ochr yn ochr â bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwydiannol gyfoethog.

#### Twristiaeth

- **Diffyg twristiaid** - Disgrifir y ffaith bod diffyg pobl a thwristiaeth dorfol fel rhywbeth arbennig, yn enwedig o ran yr heddwch a ddaw yn sgil hynny.

## 5.7.2 Y prif themâu fesul ardal benodol

*Tabl 3.Yn ogystal â'r prif themâu hyn a grybwyllwyd ar draws pob un o'r 11 ardal a restrir, dyma'r prif themâu fesul ardal:*

| Ardal | Y themâu fesul ardal |
|---|---|
| **O fewn yr AHNE bresennol** | **Y dirwedd**<br>• **Ardaloedd deniadol** - ardaloedd *"hardd" ac sydd "heb eu difetha"* , nad ydynt wedi'u gorddatblygu. Dywed rhai fod Moel Famau a'r AHNE yr un mor arwyddocaol â'r Wyddfa.<br>• **Cysylltu cymunedau** - Cyfeirir at Fryniau Clwyd fel *"edau werdd fendigedig sy'n rhedeg drwy ein cefn gwlad gan gysylltu ein cymunedau gwledig"*.<br>• **Golygfeydd** - Tirwedd naturiol *"arbennig iawn"*, *"syfrdanol"* ac *"amrywiol"* a golygfeydd *"gwych"* .<br>• **Nodweddion arbennig** - Y bryniau tonnog, rhosydd, rhostiroedd, coedydd, glaswelltir amaethyddol, afonydd, a nentydd. |
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **Amrywiol** - Mae'r bywyd gwyllt amrywiol yn bresennol yn yr holl leoedd a grybwyllir yn yr AHNE, gan gynnwys gylfinirod. |
| | **Diwylliant a threftadaeth**<br>• **Tirnodau, adeiladau, a henebion hanesyddol** - Mae'r tirnodau hanesyddol niferus yn Nyffryn Dyfrdwy yn dangos treftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol gyfoethog yr ardal ee, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Traphont Ddŵr Pontcysyllte, bryngaerau'r Oes Haearn a'r Oes Efydd. Y dwysedd uchel o adeiladau a henebion rhestredig: Cylchoedd Moel Ty-Uchaf, Siambr Gladdu Tan-y-coed, Cylch Cerrig Tyfos, a Lloc / Anheddiad Mynydd Mynyllod. Mae gwarchod yr amgylchedd a'r dirwedd o amgylch y safleoedd hyn a safleoedd eraill yn bwysig yn genedlaethol gan ei fod yn diogelu ein treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br>• **Owain Glyndŵr** - Arwyddocâd hanesyddol megis y cysylltiad ag Owain Glyndŵr. |
| | **Cartref**<br>• **Ymlyniad cryf** - Teimladau cryfion mai *"dyma'n cartref ni"*, nododd llawer y cawsant eu magu yma.<br>• **Cysylltiadau ffermio cryf** - Mae hwn yn gartref i lawer o ffermydd a busnesau amaethyddol. |

| | |
|---|---|
| | **Y gymuned leol**<br>• **Pobl leol** - Y bobl sy'n byw yma. Y cymunedau *"cydlynol"* a *"bywiog"* a'r *"bobl leol gyfeillgar"*.<br>• **Y ffordd o fyw** - Y traddodiadau lleol a'r arferion ffermio lleol. |
| | **Heddwch a llonyddwch**<br>• **Diolchgarwch** - Gwerthfawrogiad i elfennau *"unigedd"*, *"hynod heddychlon"* a *"thawel"* yr ardaloedd hyn. Teimlai llawer *"ymdeimlad o lonyddwch"*, *"ynysiad"* a *"heddwch a thawelwch"*. |
| | **Cerdded a llwybrau troed**<br>• **Mynediad** - Mae lle a rhyddid i gerdded ar hyd y flwyddyn ac mae'r *"llwybrau mewn cyflwr da"*. |
| | **Gweithle**<br>• **Y diwydiant awyr agored a ffermwyr** - Y gweithwyr mewn diwydiannau amrywiol sy'n gweithio yma, gan gynnwys yn y diwydiant awyr agored a ffermwyr. |
| | **Gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored**<br>• **Hybiau** - Mae lleoedd fel Llangollen yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored. |
| | **Beicio**<br>• **Rhwydweithiau beicio** - Y rhwydweithiau beicio a'r posibiliadau ar eu cyfer. |
| | **Mynediad**<br>• **Moel Famau** - Mae'r ardal *"wedi'i rheoli mewn ffordd ystyriol i ganiatáu mynediad i bawb"*.<br>• **Mynediad addas** - Mynediad awyr agored ar gyfer cerdded, rhedeg, dringo creigiau, beicio mynydd a chaiacio. |
| **Twyni Gronant** | **Y dirwedd**<br>• **Nodweddion cryf** - Y dirwedd *"nodweddiadol"* a *"nodweddion amgylcheddol"* Twyni Gronant.<br>• **Yn hapus gyda'r posibilrwydd o gael ei chynnwys yn y PC** - Croesawu'r posibilrwydd o gynnwys system dwyni a blaendraeth Gronant / Talacre, gan gynnwys y tafod graean yn y Parlwr Du gan mai dyma'r system twyni naturiol olaf ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac mae'n bwysig iawn o ran y bywyd gwyllt yno. Ystyrir ei bod yn *"dirwedd unigryw"* o fewn y PC arfaethedig ac yn darparu cyswllt â'r amgylchedd morol. |
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **Cytref Môr-wenoliaid Bach** - Mae gan ardal Twyni Gronant lawer i'w gynnig gyda'i gwarchodfa natur. Mae'n gartref i'r unig nythfa o fôr-wennoliaid bach yng Nghymru ac mae'n gynefin pwysig i fywyd gwyllt gan gynnwys adar drwy gydol y flwyddyn. |
| | **Heddwch a llonyddwch** |

| | |
|---|---|
| | • **Diolchgarwch -** Tawelwch Twyni Gronant yn y gaeaf. |
| **Mynydd Helygain** | **Y dirwedd**<br>• **Beicio mynydd** - Mae beicwyr mynydd yn ymhyfrydu yn y rhostiroedd gwyllt yn y de a thirwedd ddiwydiannol Mynydd Helygain yn y gogledd.<br>• **Y dirwedd unigryw -** Tirwedd hanesyddol a grëwyd yn rhannol gan fwyngloddio metelifferaidd / chert a chwarela calchfaen. Gall llawer o'r gymuned olrhain eu gwreiddiau yn ôl i fwynwyr plwm a gweithwyr chwarel. Mae Helygain yn gymysgedd o dreftadaeth ddiwydiannol, cynefin SoDdGA, a defaid maes, ac mae ganddo hanes ffermio hir. Mae'r dirwedd hefyd yn unigryw o ran y bywyd gwyllt sydd yno a'i rhostiroedd agored.<br>• **Fflora** - Amrywiaeth *"ffantastig"* o fflora. Mae angen gwarchod y dail a'r blodau prin sydd ond i'w cael ar Fynydd Helygain. O ganlyniad i'r gweithgareddau mwyngloddio, mae'r dirwedd bellach yn cynnal llawer o rywogaethau planhigion prin. Mae Comin Helygain a Glaswelltiroedd Treffynnon yn SoDdGA ac mae Mynydd Helygain yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n cynnal yr ardaloedd mwyaf o laswelltir calaminaidd sy'n gallu goddef metelau trwm yng Nghymru.<br>• **SoDdGA** - *"Lle arbennig",* sy'n *"deilwng"* o'i statws.<br>• **Golygfeydd** - Golygfeydd *"anhygoel"* a *"gwych"* . *O wylltineb* "syfrdanol" *y lle yn y gaeaf i'r golygfeydd "o safon fyd-eang" ar draws Fryniau Clwyd yn yr Haf.*<br>• **"Perl cudd"** - Mae llawer eisiau ei gadw felly. |
| | **Bywyd gwyllt a da byw**<br>• **Rhyngweithio cadarnhaol** - Mae'n fynydd gweithredol lle mae'r gymuned leol yn deall sut i ryngweithio â'r ffermwyr a da byw, trigolion, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Cafwyd nifer o bryderon y bydd nifer anghymesur o ymwelwyr yn cynhyrfu'r cytgord hwn a'r cydbwysedd ac y byddai hyn ond yn dadwneud yr union bethau a gerir yn lleol.<br>• **Ffawna** - Yr amrywiaeth *"ffantastig"* o ffawna.<br>• **Madfallod dwr cribog** - Mae angen gwarchod madfallod cribog oherwydd byddai nifer gynyddol o dwristiaid ar y mynydd yn achosi difrod i'w cynefin naturiol. |
| | **Diwylliant a threftadaeth**<br>• **Hanes pwysig** - Hanes pwysig y mynydd yn mynd yn ôl i'r Oes Haearn a'i rôl a'i hanes hir o gyflenwi plwm i weddill y DU yn y gorffennol. |
| | **Y gymuned leol**<br>• **Ymdeimlad cryf o gymuned** - Mae yna ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ardal, yn enwedig ymhlith perchnogion tir sy'n helpu ei gilydd gyda ffermio a marchogaeth. Mae'r bobl sy'n byw ar Fynydd Helygain |

| | |
|---|---|
| | yn *"gwerthfawrogi ac yn parchu'r"* dirwedd, *"yn deall sut mae'n gweithio"* ac yn "*ymfalchïo mewn bod yn rhan o gymuned fach, wledig"*.<br>• **Ardal unigryw** - "unigrywiaeth" cymunedau'r pentrefi. |
| | **Heddwch a llonyddwch**<br>• **Diolchgarwch** - Mae llawer yn "*mwynhau llonyddwch"* yr ardal, a'r ffaith ei bod yn *"dawel"* ac yn *"heddychlon"*. Mae trigolion Mynydd Helygain yn *"dwlu"* ar y mynydd oherwydd ei *"heddwch, rhyddid a llonyddwch mewn byd prysur a gwyllt".* |
| | **Cerdded a llwybrau troed**<br>• **Amrywiaeth o deithiau cerdded** - Teithiau cerdded *"rhyfeddol"* o amgylch y warchodfa natur.<br>• **Mynediad** - Ardal gyda "*rhyddid llwyr i gerdded unrhyw le gydag ychydig iawn o reoliadau".* |
| **Dyffryn Clwyd** | **Y dirwedd**<br>• **Gwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru** - Mae'r gwarchodfeydd lleol yn cynnwys Graig Wyllt, sydd wedi'i gysgodi gan goetir hynafol sy'n dod yn fyw gyda lliw'r gwanwyn a'r golygfeydd *"gwych"* ar draws Dyffryn Clwyd.<br>• **Teithiau cerdded** - Mae llawer yn mwynhau teithiau cerdded teuluol yn nhirwedd Dyffryn Clwyd.<br>• **Ymdeimlad o berthyn** - Mae llawer wedi cael eu magu yma.<br>• **Bywyd gwyllt a fflora** - Y bywyd gwyllt a'r fflora ar y dirwedd. |
| | **Gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored**<br>• **Beicio** - Digonedd o lwybrau beicio. |
| | **Busnesau a chyfleusterau lleol**<br>• **Caffis** - Digonedd o gaffis bach. |
| **Mynydd Hope** | **Y dirwedd**<br>• **Golygfeydd** - Mae Mynydd yr Hob *"yn cynnig golygfeydd gwych"* ochr yn ochr â Waun y Llyn gan gynnwys Castell Caergwrle gyda'i *"olygfeydd godidog dros gefn gwlad cyfagos, sy'n dangos cyferbyniad rhwng yr iseldiroedd i'r dwyrain a'r bryniau i'r gorllewin"*.<br>• **Y dirwedd naturiol a hanesyddol** - Y dirwedd wledig a phentrefi bach hanesyddol.<br>• **Amwynder pwysig** - Mae'r coridor tir sydd wedi'i gynnwys i fyny Dyffryn Nant y Ffrith o Gymau i'r AHNE presennol yn amwynder lleol pwysig.<br>• **Y ffin** - Wedi synnu nad yw'r ffin yn cynnwys y dyffryn coediog i lawr i'r Bers a'i ddiddordeb hanesyddol. |
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **Bywyd gwyllt** - Llawer o gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig. |
| | **Diwylliant a threftadaeth** |

| | |
|---|---|
| | • **Diddordeb hanesyddol** - Llawer o leoedd o ddiddordeb hanesyddol.<br>• **Caergwrle** - Pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth yng Nghaergwrle ee, mae stori'r castell yn taflu goleuni ar ddigwyddiadau tyngedfennol sy'n gosod y cefndir ar gyfer y Gymru fodern. Mae'r cyfeiriad at harddwch y parc yn y gorffennol yn bwysig iawn gan ei fod wedi'i osod yn erbyn cefndir Mynydd yr Hob a llyn 35 erw. |
| | **Awyr agored**<br>• **Awyr agored** - Yr *"awyr rhyfeddol o glir yn y nos"*. |
| **Pwllglas a'r Fro yn Rhuthun** | **Y dirwedd**<br>• **Rhuthun** - Mae'r dirwedd, hanes, a'r dreftadaeth bensaernïol yn bwysig i apêl Rhuthun a'r Clwydi. Cyfeiriad at y ffaith mai prin yw'r trefi sy'n harddach na Rhuthun yn unman arall yn y DU, ac fe'i cyfoethogir gan ei lleoliad uchel yn edrych dros y Fro, ei phorfa ffrwythlon, a'r coed derw hynafol.<br>• **Pwllglass** – Nodweddion calchfaen pwysig, gan gynnwys y palmant o amgylch Cerrig Eyarth, a'r ceunant a dorrwyd gan Afon Clwyd. |
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **Pwllglas -** Y bywyd gwyllt.<br>• **Rhuthun** - Ardal gadwraeth fawr. Mae'r coed a'r gwrychoedd toreithiog yn hybu toreth o fywyd gwyllt, yn famaliaid mawr ac adar bach. Mae'n ymddangos bod adar wedi ffynnu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Bellach gellir gweld barcutiaid coch yn hedfan yn osgeiddig dros y Fro a'r Bryniau. |
| | **Diwylliant a threftadaeth**<br>• **Hanes pwysig** - Mae treftadaeth ddiddorol Rhuthun yn bwysig yng nghyd-destun hanes Cymru, o gyfnod Glyndŵr i'r oes ddiwydiannol. Mae gwaddol canoloesol Rhuthun yn bwysig ac, fel y lle y dechreuodd gwrthryfel Owain Glyndŵr yn 1400, mae ei berthnasedd hanesyddol yn amlwg.<br>• **Deunyddiau -** Bydd y Llyfrgell a'r Swyddfa Cofnodion, yn ogystal â Nantclwyd y Dre, yn darparu deunydd i unrhyw un sydd â diddordeb mewn archwilio treftadaeth a diwylliant yr ardal hon.<br>• **Canolfan ddiwylliannol** - Cyfeirir at Ruthun, y fel *"canolfan ddiwylliannol"* gyda'i chanolfan celf a chrefft. |
| **Dyffryn Ceiriog** | **Y dirwedd**<br>• **Harddwch ac amrywiaeth** - Cyfeirir ato fel *"cwm eithriadol o hardd"*, sydd â thirwedd *"ragorol"* ac *"amrywiol"* , sydd â *"chymeriad arbennig ei hun"*. Mae'n cyfuno cynefinoedd unigryw gyda thirweddau ffermio traddodiadol, sydd eu hunain yn cynnwys olion defnydd tir genedlaethau a fu. Mae llawer yn *"mwynhau archwilio"* yr ardal *"unigryw"* hon, sydd wedi'i *"thanbrisio'n fawr"* .<br>• **Y coed** - Y casgliad arbennig o goed hynafol sydd i'w gweld yn y dirwedd. |

| | |
|---|---|
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **Amrywiaeth o rywogaethau** - Mae'n *"gartref i rywogaethau amrywiol"* ac amrywiaeth o gynefinoedd naturiol o fewn y dyffryn sydd angen eu gwarchod. Bywyd gwyllt a'r ffaith bod y niferoedd cymharol isel o bobl yn hwb i fywyd gwyllt ac yn darparu lloches i drigolion mudol a pharhaol sy'n helpu i boblogi ardaloedd y tu hwnt i Ddyffryn Ceiriog.<br>• **Rôl ffermwyr** - Mae teuluoedd wedi ffermio yn yr ardal ers dros 70 mlynedd ac yn datgan bod eu ffermydd llaeth a defaid *"yn llawn bywyd gwyllt".* Y prif reswm a roddwyd yw eu bod wedi gallu rheoli eu ffermydd yn eu ffordd eu hunain heb gyfyngiadau. |
| | **Diwylliant a threftadaeth**<br>• **"Diwylliant a hanes rhyfeddol"** - Y cysylltiadau ag Owain Glyndŵr, y beirdd Huw Morris a John Ceiriog Hughes, y chwareli llechi a gwenithfaen, Tramffordd Dyffryn Glyn, camlas Llangollen, castell, traphont ddŵr, a thwnnel y Waun. Wedi'i ddisgrifio fel *"canolfan dreftadaeth wych" â chanddi "gyfoeth o dreftadaeth ddiwylliannol Gymreig".*<br>• **Mae ei ddiwylliant "yr un mor bwysig â'i dopograffeg a'i fioleg"** - Wedi'u croesi â llwybrau cynhanesyddol, carneddau claddu o'r Oes Efydd, bryngaerau o'r Oes Haearn sydd heb eu cofnodi, a henebion eraill, mae tystiolaeth glir o berthynas hanesyddol yr ardal â phobl. Nid yw'r berthynas hon â phobl erioed wedi lleihau, sy'n dyst i'w leoliad fel safle i genhedloedd rhyfelgar fynegi eu gwahaniaethau, megis ym mrwydr Crogen yn 1165, neu fel y dirwedd sydd wedi ysbrydoli beirdd pwysig gan gynnwys Huw Morus (Eos Ceiriog), a Robert Ellis (Cynddelw). Mae Dyffryn Ceiriog hefyd wedi bod yn bwysig oherwydd y gwlanenni a gynhyrchwyd yma, ei chwareli llechi (a'r tramffyrdd cysylltiedig), ffermio, ei gymunedau, a phobl gyffredin, y mae llawer ohonynt yn ystyried mai'r Gymraeg yw eu hiaith gyntaf. Mae ymdeimlad cryf o gymuned yn dal i fodoli yn Nyffryn Ceiriog, a balchder mawr yn ei ddiwylliant gororau – diwylliant a gryfhawyd gan ei agosrwydd i genedl arall a'r angen anochel i fynd ati i gynnal ei rinweddau arbennig yng ngoleuni llu o rymoedd newid. |
| | **Heddwch a llonyddwch**<br>• **Ardal dawel -** Ardal *"dawel"* sy'n adnabyddus am ei *"hunigedd, llonyddwch a heddwch"* a fyddai'n elwa ar y warchodaeth y byddai dynodiad PC yn ei rhoi. |
| | **Gweithgareddau yn yr awyr agored**<br>• **Gweithgareddau yn yr awyr agored** - Mae llawer o lwybrau cerdded, beicio a merlota. |
| **Dyffryn Tanat** | **Y dirwedd**<br>• **Y bryniau** - Mae'r rhain yn *"wych"* gyda'u pocedi o goetiroedd hynafol. |
| | **Diwylliant a threftadaeth** |

| | |
|---|---|
| | • **Cysylltiadau teuluol hirsefydlog** - Mae cysylltiadau teuluol y rhai sydd wedi byw ac yn gweithio yn Nyffryn Tanat yn dyddio'n ôl i 1540.<br>• **Cyfoeth o hanes diwylliannol** - Mae cyfoeth o hanes diwylliannol gan gynnwys Castell Sycharth sydd *“erioed wedi derbyn y gydnabyddiaeth y mae’n ei haeddu yn hanes Cymru mewn gwirionedd”,* a Llwyn Bryndinas. Mae'r holl lwybrau a'r rhwydwaith o gaeau bach sy'n weddill yn rhan o dirwedd hynafol. |
| **Llyn Efyrnwy** | **Y dirwedd**<br>• **Y dirwedd -** Yn cynnig “tirwedd anhygoel”, sy'n gyfartal ag unrhyw ardal arall yn y DU. |
| | **Bywyd gwyllt / anifeiliaid**<br>• **Bywyd gwyllt -** Bodolaeth bele'r coed. |
| | **Diwylliant a threftadaeth**<br>• **Treftadaeth ddiddorol** - Y dreftadaeth ddiddorol, sy'n bwysig o fewn cyd-destun hanes Cymru, o gyfnod Glyndŵr i'r oes ddiwydiannol.<br>• **Hanes diwylliannol pwerus** - Mae’r hanes diwylliannol pwerus a arweiniodd at greu’r dyffryn yn ychwanegu at bwysigrwydd cynnwys a chydnabod yr ardal hon a’i chymuned. |
| | **Gweithgareddau yn yr awyr agored / gweithgareddau hamdden**<br>• **Cyfleoedd di-ri** - Mae digonedd o gyfleoedd gwych i gerdded, heicio a beicio o fewn agweddau deheuol y PC arfaethedig, ac mae Llyn Efyrnwy a’r Bala yn lleoedd arbennig lle mae pob math o weithgareddau, gan gynnwys chwaraeon dŵr, yn cael eu cynnig a’u cefnogi. |
| **Dyffrynnoedd Efyrnwy a Banwy** | **Y dirwedd**<br>• **Golygfeydd** - Mae’r golygfeydd yn Nyffrynnoedd Efyrnwy a Banwy yn cynnig *“ysbrydoliaeth ddiddiwedd”*. Disgrifir bod iddynt eu harddwch *“unigryw”* a *“thyner digyffelyb”* na ellir ei weld yn unman arall. |

*Tabl 4.Y prif themâu fesul meysydd 'eraill' a awgrymwyd:*

| **Meysydd eraill a awgrymwyd** | |
|---|---|
| **Mynyddoedd y Berwyn** | **Bywyd gwyllt/ anifeiliaid**<br>• **Bodaod tinwyn** - Mae Mynyddoedd y Berwyn yn safle magu pwysig i fodaod tinwyn yn y gwanwyn.<br>• **Rhywogaethau sydd mewn perygl** - Mae Mynyddoedd y Berwyn yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sydd mewn perygl sy'n symud rhwng yr ardaloedd. Mae'r ddwy ardal ucheldirol yn cynnwys gorgorsydd a chyforgorsydd sy'n agored i niwed gan nitradau ac sy'n cynnwys ystod amrywiol o fwsoglau megis mathau o figwyn. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn darparu ecosystem ar gyfer gylfinirod sy'n nythu (mae'r ardal gwarchod ar gyfer gylfinirod yn cwmpasu'r ardaloedd o amgylch y dyffryn) ac mae niferoedd sylweddol o adar eraill yn bresennol mewn niferoedd sylweddol fel llwyd y berth, y gwalch glas, y gornchwiglen, yr ehedydd, y barcud coch a'r bwncath. Mae yna hefyd amrywiaeth eang o bryfed y mae'r tir yn eu cynnal fel glöyn byw y wal, sy'n prinhau. |
| | **Cerdded**<br>• **Cerdded** - Mae'n *"lle gwych i gerdded"*. |
| **Llansilin** | **Y dirwedd**<br>• **Y dirwedd** - Disgrifir ei fod yn *"un o'r lleoedd harddaf yn y DU"*. |
| | **Y gymuned leol**<br>• **Y gymuned leol** - Cymuned pentref *"anhygoel o gryf"* a *"gwych"* . |
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **Bywyd gwyllt** - Mae'n gartref i amrywiaeth o adar. |
| **Mynydd Mynyllod** | **Y dirwedd**<br>• **Golygfeydd -** Mae'r golygfeydd yn *"hardd"* a *"godidog"* .<br>• **Y dirwedd amrywiol** - Mae'r dirwedd yn *"arbennig", darluniadol" a "garw"* ac yn *"wyllt gyda mynyddoedd, afonydd a choedwigoedd".* |
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **Adar mewn perygl** - Nifer y barcutiaid, y bwncathod, y bodaod tinwyn, gweilch glas, cogau, a llawer o adar eraill sydd mewn perygl.<br>• **Ardal adfer y gylfinir** - Mae rhan sylweddol o'r ardal wedi'i gorchuddio â mawn a bryoffytau, ac mae wedi'i dynodi gan Lywodraeth Cymru fel ardal adfer y gylfinir. |
| | **Cerdded a llwybrau**<br>• **Cerdded** - *"Ardal syfrdanol"* ar gyfer cerdded a hybu llesiant. |

| | |
|---|---|
| | • **Llwybrau ceffyl a llwybrau troed** - Mae llawer iawn o lwybrau ceffylau a llwybrau troed yn yr ardal. |
| **Llandrillo** | **Y dirwedd**<br>• **Harddwch golygfaol** - Mae gan yr ardal "dirweddau syfrdanol" sydd â "harddwch naturiol" – o'r bryniau tonnog, y coedwigoedd, yr afonydd a'r ffurfiannau daearegol unigryw sydd i gyd yn *"cyfrannu at ei harddwch golygfaol".* |
| | **Bywyd gwyllt**<br>• **"Digonedd o fywyd gwyllt"** - Mae'n gartref i wahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid sydd i gyd yn cyfrannu tuag at ymdrechion i hybu bioamrywiaeth a chadwraeth yn y rhanbarth. |
| | **Diwylliant a threftadaeth**<br>• **Arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol -** Mae gan y rhanbarth arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol y gellir ei gadw a'i rannu ag ymwelwyr. |
| | **Gweithgareddau yn yr awyr agored / gweithgareddau hamdden**<br>• **Digonedd o gyfleoedd** - Mae'r cyfleoedd ar gyfer heicio, arsylwi bywyd gwyllt, a gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored, yn ei wneud yn gyrchfan ddeniadol i unrhyw un sy'n ymddiddori ym myd natur. |
| **Pantasaph** | **Y dirwedd**<br>• **Y dirwedd** - Mynegwyd cariad at y dirwedd a'r golygfeydd. |
| | **Diwylliant a threftadaeth**<br>• **Crefydd -** Cafwyd ceisiadau i gynnwys Pantasaph oherwydd ei fod yn *"bentrefan unigryw"* gyda hanes helaeth fel rhywle â hanes o bererindod crefyddol. |
| | **Cerdded / llwybrau troed**<br>• **Cerdded** - *"Ardal hardd"* gyda *"llawer o deithiau cerdded bendigedig"*. |

## 5.9 Cwestiwn 5c: Ydych chi'n teimlo bod angen cadw a gwella'r lle hwn/lleoedd hyn?

Mae'r holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u crynhoi, eu rhannu'n ardaloedd lleoliad, a'u gosod mewn prif themâu. O fewn pob ateb ynghylch ardal, mae'r themâu wedi'u trefnu o'r rhai a grybwyllir fwyaf aml i'r lleiaf aml.

Roedd y rhai a nododd **bod** angen gwarchod a gwella'r lle hwn / lleoedd hyn yn teimlo fel hyn am y rhesymau a ganlyn:

### 5.9.1 Y prif themâu a grybwyllwyd ar draws pob un o'r 11 ardal a restrir:

#### Gwarchod bywyd gwyllt a'r amgylchedd

- **Blaenoriaeth bwysig** - Mae'n bwysig canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol, cydnerthedd yn wyneb y newid yn yr hinsawdd, a sicrhau nad yw natur a bioamrywiaeth ar eu colled i dwristiaid, ymwelwyr, a thwf.
- **Cadwraeth** - Mae angen gwarchod bywyd gwyllt drwy annog ffermwyr a pherchnogion tir lleol i gymryd rhan mewn cadwraeth.

#### Gwarchod y dirwedd

- **Cadwraeth** - Mae cadwraeth tir yn bwysig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

#### Dylid gadael pethau fel ag y maent

- **Dim newid** - Nodwyd teimladau cryf mai'r ffordd orau o amddiffyn ardaloedd yw *"drwy adael llonydd iddyn nhw!".* Mae llawer yn teimlo eu bod yn *"gofalu am hyn yn barod".*

#### Diogelu treftadaeth a diwylliant

- **Cynnal a gwarchod** - Mae'n bwysig cynnal treftadaeth yr ardaloedd hyn a diogelu'r strwythurau presennol sydd o arwyddocâd hanesyddol.

#### Gwell mynediad

- **Gwell mynediad** - Mae'n bwysig darparu llwybrau cerdded *"sy'n hygyrch i bawb".*

#### Bygythiad datblygu

- **Datblygu anghydnaws** - Mae'n bwysig amddiffyn ardaloedd ymhellach rhag *"datblygu anghydnaws".*
- **Cynaladwyedd** - Mae angen canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy.

#### Ffermio dwys

- **Plaladdwyr a chwynladdwyr** - Codwyd pryderon am ddefnydd ac effaith plaladdwyr a chwynladdwyr ar y tir.
- **Dulliau gwyrddach** - Mae'n bwysig gwarchod rhag effeithiau niweidiol amaethyddiaeth a chynorthwyo ffermwyr i fabwysiadu dulliau gwyrddach.

### Cadw a gwella er lles pobl leol

- **Yr effaith ar bobl leol** - Mae'n bwysig peidio â gwneud gwelliannau i hybu twristiaeth os yw hynny ar draul trigolion ac yn eu rhoi dan anfantais.
- **Barn leol** - Nodwyd teimladau cryf mai'r ffordd orau o gadw a gwella yw drwy gefnogi trigolion yr ardaloedd a gwneud yn siŵr nad yw eu barnau'n cael ei hanwybyddu.

### Rheoli meysydd parcio

- **Plismona** - Mae angen plismona parcio chyfyngu ar barcio pan gyrhaeddir y capasiti.
- **Cyfleusterau a gwasanaethau** - Mae angen creu mannau parcio addas. Mae ymwelwyr dydd yn anos i'w rheoli ond gallai darparu cyfleusterau parcio gwell sydd i ffwrdd o brif nodweddion yr ardal ond wedi'u cysylltu â nhw gan wasanaeth bws fod o gymorth.

### Cynllunio o dan reolaeth

- **Cynllunio ac adeiladu -** Mae'n bwysig sicrhau prosesau cynllunio ac adeiladu gofalus er mwyn annog twristiaeth sy'n ystyriol o gymunedau lleol yn yr un ardaloedd hefyd.

## 5.9.2 Y prif themâu fesul ardal benodol

*Tabl 5.Yn ogystal â'r prif themâu hyn a grybwyllwyd ar draws pob un o'r 11 ardal a restrir, dyma'r prif themâu fesul ardal:*

| Ardal | Y themâu fesul ardal |
|---|---|
| **O fewn yr AHNE presennol** | **Gwarchod bywyd gwyllt**<br>• **Gwarchod bywyd gwyllt** - Mae poblogrwydd cynyddol Moel Famau ymhlith twristiaid yn golygu ei bod hyd yn oed yn bwysicach gwarchod bywyd gwyllt. |
| | **Gwarchod y dirwedd**<br>• **Mwynhad -** Mae'n bwysig gwarchod y dirwedd er mwyn sicrhau y gellir ei mwynhau nawr ac am flynyddoedd i ddod.<br>• **Rhannu cyfrifoldeb** - Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod y dirwedd ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br>• **Estyn yr AHNE** - Cafwyd sylwadau cadarnhaol estyn yr AHNE er mwyn atal y cynigion tyrbinau gwynt rhag dinistrio'r dirwedd.<br>• **Mwy o adnoddau** – Byddai'r ardal estynedig yn elwa ar gael rhagor o adnoddau i warchod a gwella'r ardal a rheoli safleoedd prysur yn well.<br>• **Gweundiroedd grug** - Maent yn cynnal nifer o anifeiliaid a phlanhigion prin gan gynnwys y grugieir duon, bodaod tinwyn ac adar eraill yr ucheldir. Dros yr 50 mlynedd diwethaf mae mwy na hanner o rostiroedd y byd wedi diflannu. Mae tri chwarter o'r grug sydd ar ôl yn y byd yn y DU, sy'n golygu bod y 3,000 erw o weundir grug yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy o bwysigrwydd rhyngwladol o ran cadwraeth. Gan gynnwys y rhostir glaswelltog, yr AHNE hon yw'r ardal fwyaf o gynefin bywyd gwyllt yng Nghymru sydd heb ei datblygu. |
| | **Dylid ei gadael fel ag y mae**<br>• **Dim newid** - Nodwyd teimladau cryfion fod hyn *"eisoes wedi'i gwarchod yn ddigonol"* ac wedi'i gynnwys yn dda gan yr AHNE. |


| | |
|---|---|
| | **Rheoli meysydd parcio**<br>• **Parcio ceir** - Mewn llawer o bentrefi, nid oes rhagor o gapasiti ganddynt ar gyfer parcio – maent yn methu ymdopi â rhagor o geir ac mae hynny'n achosi dicter. |
| **Mynydd Helygain** | **Gwarchod y dirwedd**<br>• **Siafftiau mwyngloddio** - Mae siafftiau mwyngloddio yn agor yn aml ar y mynydd gan beri risg diogelwch i ymwelwyr.<br>• **Effaith colli ceidwad mynydd** - Mae colli'r ceidwad mynydd wedi cael effaith negyddol. Mae yna broblemau gyda gyrru oddi ar y ffordd a beiciau modur sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac *"wedi bod yn bla"* ar yr ardal ac wedi achosi difrod i'r glaswelltir. Ers y pandemig, mae'n ymddangos bod nifer y bobl sy'n cerdded cŵn ar y mynydd wedi cynyddu'n gyflym hefyd - bu mwy o adroddiadau am gŵn yn ymosod ar ddefaid ac mae'n ymddangos bod mwy o broblem gyda baw cŵn. Mae rhai yn credu y bydd ei gynnwys yn y PC yn debygol o atal y gweithgareddau anghyfreithlon hyn a darparu amddiffyniad drwy'r cynllun ceidwaid.<br>• **SoDdGA** - Mae'r mynydd eisoes wedi'i warchod gan statws SoDdGA. |
| | **Dylid ei adael fel ag y mae**<br>• **Dim newid** - Teimlai llawer fod angen cadw Mynydd Helygain fel ag y mae, gan ddatgan *"mae'n berffaith yn union fel ag y mae"* a *"does dim angen newid unrhyw beth"*. *"Mae angen ei gadw drwy adael llonydd iddo a pheidio ag ymyrryd"*. |
| | **Diogelu treftadaeth a diwylliant**<br>• **Unigrywiaeth** - Mae gan Fynydd Helygain "fio unigryw" a threftadaeth hanesyddol / diwydiannol sy'n gofyn am ymdrech i'w gadw a'i wella.<br>• **Mynydd gweithio** - Mae'n fynydd gweithio gyda chwareli a ffermwyr defaid, sy'n rhan fawr o'i dreftadaeth. |
| **Gogledd Dyffryn Clwyd** | **Gwarchod y bywyd gwyllt a'r amgylchedd**<br>• **Coridorau bywyd gwyllt** - Mae uchelgais i annog creu coridorau bywyd gwyllt ar draws Dyffryn Clwyd er mwyn helpu rhai o'r rhywogaethau sydd wedi bod yn prinhau i adfer. Pe bai PC yn cael ei greu, gallai hwyluso'r broses o ymgysylltu'n ehangach ag |

| | |
|---|---|
| | ystod eang o randdeiliaid, yn enwedig o faes amaethyddiaeth, sydd â rhan allweddol i'w chwarae. |
| | **Bygythiad o ddatblygu**<br>• **Ffermydd gwynt** - Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi'r ardal hon ar gyfer mwy o ffermydd gwynt. Codwyd pryderon bod ffermydd gwynt yn dinistrio strwythur yr amgylchedd lleol ac yn amharu ar gydbwysedd y pridd. Mae angen cael ynni cynaliadwy ond drwy gynhyrfu'r ardaloedd sy'n cynnig y cyfleoedd mwyaf o ran dal a storio carbon mae hyn yn dinistrio cyfle i gefnogi ymdrechion i sicrhau cynaliadwyedd yn wyneb yn newid yn yr hinsawdd. Mae'r tirweddau mawn, ucheldirol hyn yn gwarchod prydferthwch Dyffryn Clwyd. |
| **Mynydd yr Hôb** | **Y dirwedd**<br>• **Golygfeydd** - Mae Mynydd yr Hob yn rhan bwysig o Fryniau Clwyd ac mae angen gwarchod y golygfeydd o'r bryniau o Fynydd yr Hob a thros Wastadedd Swydd Gaer – ac yn yr un modd lethrau deheuol Mynydd Hope a'r pentrefi gwledig (gan gynnwys Llanfynydd). |
| **Dyffryn Ceiriog** | **Gwarchod bywyd gwyllt a'r amgylchedd**<br>• **Rhywogaethau sy'n prinhau** - Mae'n ymddangos bod rhai rhywogaethau bywyd gwyllt yn prinhau, fel y ffwlpart, y draenog, a'r gylfinir. Mae tystiolaeth y bu dirywiad yng nghynefin yr ucheldir (a'r colledion cysylltiedig o ran rhywogaethau) y gellir ei briodoli i'r newidiadau yn yr hinsawdd. Mae'r afon lân (o safbwynt ffosffadau) o dan fygythiad gan ddatblygu ac mae'r boblogaeth o bysgod yn lleihau oherwydd nad yw'n hawdd profi am lygryddion. Cyn archwilio cynnig fel PC mae angen mynd i'r afael â'r rhesymau dros y dirywiad mewn anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn yr afon. Rhaid sicrhau bod cefnogi ffermio organig, gan bwysleisio gwerth yr amgylchedd mewn ffermio drwy dalu am ofal yr amgylchedd a'r buddion y mae'n eu dwyn i'r boblogaeth gyfan yn dod yn gyntaf. Er enghraifft, mae pryfed mudol wedi prinhau'n sylweddol, yn bennaf o ganlyniad i golli cynefinoedd, gan arwain at golli'r anifeiliaid hynny sy'n bwydo ar infertebratau a cholli amrywiaeth planhigion ac iechyd y pridd.<br>• **Bywyd gwyllt amrywiol** - Lloches i fywyd gwyllt. Mae'r bywyd gwyllt sydd ar drothwy'r dyffryn yn amrywio o hebogiaid tramor i frithyllod yn Nyffryn Ceiriog, sydd angen eu |

| | |
|---|---|
| | diogelu er mwyn gwarchod harddwch naturiol Cymru a chyflawni rhannau o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. |
| | **Gwarchod y dirwedd**<br>• **Ceisiadau am warchod** - Mynegwyd cariad tuag at y tirweddau i lawr Dyffryn Ceiriog a'r awydd i'w gweld yn cael eu gwarchod.<br>• **Cerbydau oddi ar y ffordd** - Cafwyd ceisiadau i helpu i geisio rheoli'r gyrwyr oddi ar y ffordd sy'n dinistrio'r dirwedd hardd. |
| | **Diogelu treftadaeth a diwylliant**<br>• **Hanes cyfoethog** - Hanes *"cyfoethog"* y mae'r trigolion *"yn hynod falch ohono"* ac eisiau ei gadw. Mae angen dathlu a chadw gwreiddiau'r dyffryn yn y diwydiant cloddio llechi a thramffyrdd ynghyd ag ymdrechion hanesyddol y dyffryn i frwydro yn erbyn y gorlifo arfaethedig o Warrington, sy'n amlygu uniondeb diwylliant y dyffryn. |
| | **Gwell mynediad**<br>• **Llwybrau troed anhygyrch** - Mae llawer o'r llwybrau troed sydd wedi'u marcio ar y map OS yn anhygyrch. Byddai llwybrau ag arwyddbyst amlwg gyda chamfeydd diogel a giatiau sydd heb eu cadwyno yn osgoi treulio'r naill ochr i'r llwybr ac yn rhoi hyder i'r cerddwr nad yw'n yn tresmasu. |
| **Dyffryn Tanat** | **Bygythiad o ddatblygu**<br>• **Bygythiadau cyson** - Mae Dyffryn Tanat o dan fygythiad yn gyson gan gynlluniau nad ydynt yn dwyn *"unrhyw fuddion"* i'r ardal. Codwyd pryderon a nododd, oni bai bod yr ardaloedd hyn yn cael eu gwarchod, byddant yn dod yn dirweddau diwydiannol a bydd y dirwedd, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth yn cael eu difetha am byth. |
| | **Ffermio dwys**<br>• **Arferion ffermio** - Codwyd natur heriol arferion ffermio mewn ardaloedd fel Dyffryn Tanat. Wrth i'r gwrteithiau redeg oddi ar y priddoedd mae'r afonydd yn dod yn llawn o faethynnau. Mae hyn yn hybu twf rhywogaethau sy'n hoff o faethynnau sydd wedyn yn gorlethu'r rhywogaethau gwannach sy'n defnyddio priddoedd sy'n brin o faethynnau. Mae hyn yn cael effaith ar gydbwysedd y fflora yn y rhanbarthau hyn. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil a monitro. |

| | |
|---|---|
| **Dyffryn a Bryniau Llanfyllin** | **Gwell mynediad**<br>• **Llwybrau OS a llwybrau beicio** - Gellid gwella nifer o’r llwybrau OS sy'n croesi'r ardal hon, yn ogystal â nifer o lwybrau beicio a ddefnyddir yn helaeth, drwy gael statws PC. Gallai hyn fod o fudd i economi trefi bach fel Llanfyllin.<br>• **Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC)** - Mae angen cynnal a chadw'r rhwydwaith HTC presennol yn yr ardal hon y briodol a gosod arwyddbyst priodol ar ei hyd. |

## 5.10 Cwestiwn 6: Gyda'r hyn yr ydych yn ei wybod ar hyn o bryd, a allwch ragweld unrhyw fanteision posibl yn deillio o'r PC newydd arfaethedig hwn?




*Ffigur 5*: *Y buddion posibl y rhagwelir y byddant yn deillio o'r PC newydd arfaethedig hwn*

O'r **966** o bobl a ymatebodd i'r holiadur, nododd **46%** ( 441 o'r ymatebwyr) ohonynt *Gallaf* fel ateb, hynny yw eu bod yn gallu rhagweld y bydd buddion posibl yn deillio o'r PC newydd arfaethedig hwn, nododd **33%** (317 o'r ymatebwyr) *Na allaf* fel ateb, hynny yw nad oeddent yn gallu rhagweld unrhyw fuddion, a nododd **7%** (66 o'r ymatebwyr) }*Efallai* y byddai buddion, nododd **15%** (142 o'r ymatebwyr) yr ateb *ansicr ar hyn o bryd – angen mwy o wybodaeth i benderfynu*.

## 5.10 Cwestiwn 6 yn parhau: Disgrifiwch unrhyw fuddion posibl

Mae'r holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u crynhoi a'u rhoi o dan brif themâu. Mae'r themâu wedi'u trefnu o'r rhai a grybwyllir fwyaf aml i'r lleiaf aml.

### 5.10.1 Gallaf

Roedd y rhai a nododd 'Gallaf' fel ateb, hynny yw y byddent yn gallu rhagweld y bydd buddion posibl yn deillio o'r PC newydd arfaethedig wedi gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

## Gwarchod a chadwraeth yr ardal

- **Mawndiroedd a datblygu ffermio** - Byddai modd gwella'r warchodaeth, gwarchod mawndiroedd dwfn yn well a rheoli datblygiadau ffermio yn well.

## Mwy o fuddsoddiad yn yr economi

- **Busnesau** - Byddai tafarndai a siopau lleol yn elwa ar ymwelwyr.
- **Cyflogaeth** - Byddai arian lleol yn cael ei gadw'n lleol drwy fwy o gyflogaeth.
- **Buddion amgylcheddol** - Byddai mwy o swyddi yn gysylltiedig â diogelu a datblygu natur a diwylliant. Hefyd, byddai cynnydd posibl mewn incwm drwy eco-dwristiaeth.

## Cadwraeth bywyd gwyllt

- **Man diogel** - Disgrifir ei bod yn *"hafan ddiogel barhaol i fywyd gwyllt".*
- **Fflora a ffawna** - Byddai modd meithrin fflora a ffawna yn briodol.
- **Rhywogaethau cynhenid** - Byddai modd hybu rhywogaethau cynhenid.
- **Rhywogaethau a warchodir** - Mae'n bosibl y bydd mwy o arian ar gael i gynnal rhywogaethau a warchodir.

## Mwy o gyllid ar gael

- **Mwy o gyllid a diogelwch** - Mwy o gyllid i reoli ymwelwyr, gwella parcio, a helpu i gadw treftadaeth lleoedd fel Mynydd Helygain ac addysgu pobl am y dreftadaeth honno. Bydd hefyd yn golygu sicrwydd cyllid hirdymor i'r ardal.

## Twristiaeth

**Mwy o dwristiaeth a thwristiaeth well** - Er mwyn goroesi, mae angen mwy o ymwelwyr ar drefi, a'r gobaith yw y bydd PC yn denu mwy o dwristiaid.

## Rheoliadau a chyfyngiadau llymach

- **Datblygiadau tai** - Gellid cael rheolaethau priodol ar adeiladau tai er mwyn sicrhau bod ansawdd yr adeiladwaith yn well, a dylid tynhau prosesau cynllunio o ran dylunio datblygiadau a'u heffaith ar y dirwedd.
- **Ffermydd gwynt** - Gellid diogelu cymunedau rhag datblygiadau fferm wynt. **Ffermio a hela** - Gall rheoleiddio ffermio a hela ar dirweddau fod yn ddinistriol iawn. Gallai ceidwaid PC helpu i fonitro'r agweddau hyn.

## Cydnabyddiaeth

- **Pwysigrwydd yr ardal** - Gellid hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr ardal o ran ei thirwedd, ei threftadaeth a'i bywyd gwyllt *"cyfoethog"* .
- **Lleddfu'r pwysau ar safleoedd** - Gallai cydnabyddiaeth ehangach drwy gael statws PC helpu i leddfu'r pwysau presennol ar safleoedd a PCau eraill megis PC Eryri, drwy godi ymwybyddiaeth o leoedd eraill i ymweld â nhw.

## Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig

- **Diddordeb** - Mae'r diddordeb yn y Gymraeg a diwylliant Cymreig ar gynnydd.

### Cynaliadwyedd

- **Arallgyfeirio ffermydd** - Gellid gweithio gyda buddiannau ffermio er mwyn eu helpu i arallgyfeirio eu bywoliaeth er mwyn hybu cynaliadwyedd.
- **Y newid yn yr hinsawdd -** Dylai helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur, gan gyflawni'r amcanion 30 x 30 a chefnogi ffermwyr i gyflawni amcanion cynaliadwyedd.

### Gwella mynediad a llwybrau cyhoeddus

- **Llwybrau troed a llwybrau ceffylau -** Byddai modd cynnal a chadw llwybrau troed yn well ac, yn arbennig, llwybrau ceffylau, a fydd yn helpu i wella'r ardal awyr agored fel y gellir ei defnyddio'n fwy*.*

### Llywodraethiant cydgysylltiedig effeithiol

- **Corff unigol** - Gallai'r gwaith o gynnal a chadw'r ardal gael ei reoli gan un corff â chylch gorchwyl cul a fyddai'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ardal.
- **Dull unedig** - Byddai ymagwedd unedig tuag at gynnal yr hyn fydd y PC newydd.

### Gwarchod treftadaeth leol

- **Ymwybyddiaeth** - Mwy o ymwybyddiaeth o dreftadaeth.
- **Gwarchodaeth** - Gwarchodaeth o'i hanes, ei thraddodiadau, a'i hen adeiladau.

### Gwella iechyd (meddyliol a chorfforol)

- **Mannau gwyrdd** - Byddai'r PC yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl gan alluogi pobl i gael *"antur, dihangfa, a phleser".* Mae defnydd cynyddol o fannau gwyrdd yn arwain at wella iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Iechyd gwell drwy ymarfer corff, aer glân, a threulio amser ym myd natur.

### Cyfle am addysg

- **Pynciau addysgol** - Byddai'n gyfle i addysgu am fywyd gwyllt a phlanhigion prin a rhoi gwell dealltwriaeth o'r AHNE i ymwelwyr a'u haddysgu amdani.
- **Hyfforddiant** - Byddai posibiliadau addysgol a hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr newydd a'r cyhoedd.

### Cyfleoedd hamdden

- **Cydnabod a datblygu** - Gallai cydnabod a datblygu potensial y gweithgareddau hamdden awyr agored yn yr ardal arwain, yn eu tro, at greu busnesau lleol sy'n fwy priodol er mwyn denu ymwelwyr a fyddai'n helpu i ariannu'r PC.
- **Gwella mynediad** - Gwella mynediad a chyfleusterau hamdden i bawb.

### Cynnydd yng ngwerth eiddo

- **Prisiau tai** - Cynnydd posibl yng ngwerth tai.

### 5.10.2 Na allaf

Roedd y rhai a nododd **Na allaf** fel ateb, hynny yw na fyddent yn gallu rhagweld y bydd buddion posibl yn deillio o'r PC newydd arfaethedig wedi gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

#### Rheolau a rheoliadau

- **Mwy ohonynt** - Byddai’n golygu y câi rhagor o reolau a rheoliadau eu rhoi ar waith.
- **Cyfyngiadau ar gynllunio** - Byddai’n gwneud popeth sy’n ymwneud â chynllunio yn anos. Cyfyngiadau ar dir a pherchnogion tai.

#### Ni fyddai unrhyw fudd i bobl leol

- **Câi pobl leol eu gwthio allan** - Codwyd pryderon y byddai pobl leol yn cael eu gwthio allan o'r ardal. Cafwyd pryderon y byddai PC ond o fudd i bobl sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar, nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau, a fyddai'n gwerthu eu tai i wneud elw mawr. Ni fyddai llawer o bobl leol yn gallu eu fforddio – prin y gall teuluoedd lleol fforddio prynu tai mewn ardaloedd fel Llangynog a Dyffryn Tanat fel ag y mae. Nodwyd teimladau cryf bod angen i'r ardal ddatblygu ochr yn ochr â chadwraeth ac y dylid cadw swyddi a thai yn yr ardal i bobl leol.
- **Tarfu ar fywydau** - Byddai trigolion yn profi mwy o droseddu ac yn cael mwy o drafferth gyda pharcio.
- **Busnesau lleol** - Dim ond achosi mwy o ddifrod byddai hyn, a phrin byddai’r buddion i fusnesau lleol.
- **Mwy o dwristiaid** - *“Ni fyddai unrhyw fuddion i drigolion”* o ganlyniad i *“fwy o dwristiaid diofal”*, a byddai llai o arian yn cael ei wario ar bethau angenrheidiol oherwydd y byddai’r PC yn cael blaenoriaeth ar draul materion lleol.

#### Diogelwch anifeiliaid mewn perygl

- **Defaid** - Byddai defaid sy'n crwydro mewn perygl o bobl sy'n goryrru ar hyd y ffyrdd. Hefyd, codwyd pryderon y byddai mwy o gŵn yn lladd defaid a mwy o bobl yn gadael gatiau caeau ar agor.

#### Mwy o draffig

- **Ansawdd y ffyrdd** - Codwyd pryderon y byddai'n rhaid ymgymryd â chynllun gwella wyneb ffyrdd ar raddfa fawr er mwyn ymdopi â'r cynnydd mewn traffig.

#### Rhagor o sbwriel

- **Cerddwyr** - Nodwyd pryderon y byddai rhagor o gerddwyr yn arwain at ragor o lanast a sbwriel.

### 5.10.3 Ansicr ar hyn o bryd – mae angen rhagor o wybodaeth er mwyn gallu penderfynu

Roedd y rhai a nododd **Ansicr ar hyn o bryd – mae angen rhagor o wybodaeth er mwyn gallu penderfynu** wedi gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

- **Gwybodaeth gyfyngedig -** Gwybodaeth *"amwys"* a dim digon ohoni ar hyn o bryd er mwyn i bobl allu rhoi sylwadau.
- **Buddion -** Cafwyd ceisiadau i CNC gyhoeddi buddion PC newydd.

### 5.10.4 Efallai

Roedd y rhai a nododd **Efallai** y gallent ragweld y bydd buddion posibl yn deillio o'r PC newydd arfaethedig hwn wedi gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

#### Cydnabyddiaeth

- **Codi ymwybyddiaeth** - Byddai ymwybyddiaeth o'r ardal yn cynyddu a chyda hynny mwy o gydnabyddiaeth.

#### Mae'n bosibl y byddai mwy o fuddsoddiad yn yr economi leol

- **Câi mwy o arian ei wario'n lleol** - Mae'n bosibl y byddai mwy o arian yn dod i'r ardal, gan annog gweithgareddau awyr agored ac ymwelwyr a fyddai'n fuddiol i'r economi leol.
- **Busnesau lleol** - Byddai'n hwb i fusnesau lleol fel cwmnïau twristiaeth a gwyliau, tafarndai, bwytai, a siopau a allai gynnig mwy o gyfleoedd gwaith i drigolion.

#### Mwy o gyllid / cymorth ariannol o bosib

- **Rheoli'r dirwedd** - Mwy o gymorth ariannol o bosibl i gefnogi gwaith rheoli tirwedd wedi'i dargedu er mwyn cynnal technegau rheoli tir traddodiadol, ond gallai hyn fod yn bosibl heb ddod yn PC.
- **Grantiau i ffermwyr** - Mae'n bosibl y byddai grantiau ar gael i rai ffermwyr (fel y rhai a gynigir gan PC Eryri).
- **Prosiectau / grwpiau lleol** - Cyllid posibl ar gyfer prosiectau a grwpiau lleol. Mae angen cyllid ar gyfer prosiectau hamdden ar lawr gwlad ar gyfer cerdded a beicio mynydd heb unrhyw hyrwyddo er mwyn lleihau erydu.
- **Prosiectau cadwraeth** - Mae angen cyllid ar gyfer prosiectau cadwraeth ar gyfer gwarchod a chreu cynefinoedd.
- **Ffyrdd** - Mae'n bosibl y byddai'r cyngor yn rhoi wyneb newydd ar ffyrdd yn y pentrefi lleol.
- **Rhagor o staff** - Os byddai'n cael ei ariannu, byddai mwy o staff ar gyfer rheoli ee, mwy o geidwaid.

#### Gwarchod y dirwedd

- **Cael ei gwarchod yn well** - Byddai'r dirwedd / yr amgylcheddol yn cael eu gwarchod yn well gan y byddai PC yn amddiffyn yr ardal rhag buddiannau eraill.
- **Coed** - Byddai coed yn cael eu gwarchod yn well – coed hynafol a choed hynod.
- **Datblygu yn y dyfodol** - Llai o ddatblygu. Byddai'n lleihau nifer y datblygiadau sydd ar y gweill ac yn debygol o atal unrhyw ddatblygiadau sylweddol, a byddai hynny'n lleihau'r effeithiau rywfaint. Nodwyd rhai pryderon ynglŷn ag a fyddai cyfyngiadau cynllunio, fel cael to llechi ar ysguboriau neu beidio â chaniatáu paneli solar –gallai pethau waethygu.

- **Ynni adnewyddadwy -** Codwyd pryderon na ddylai buddion ardal newydd y PC arfaethedig ddod ar draul lleihau'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw a nodwyd fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer ynni solar a gwynt.
- **Cerbydau oddi ar y ffordd -** Dylid gwahardd beiciau modur pedwar wrth bedwar gan gynnwys gwahardd beiciau cwad ar gyfer rheoli digwyddiadau saethu.
- **Gwersylla gwyllt** - Gallai fod modd rheoli gwersylla gwyllt yn well.


## Bioamrywiaeth a bywyd gwyllt

- **Gwelliannau o ran bioamrywiaeth a bywyd gwyllt** - Os bydd modd gwarchod bioamrywiaeth a bywyd gwyllt a bod modd gwella'r dulliau o warchod.
- **Mynd i'r afael â llygredd dŵr** - Mae'n bosibl y gellid rheoleiddio'n fwy cadarn er mwyn mynd i'r afael â llygredd dŵr er mwyn gwneud dŵr croyw a dŵr môr yn lanach i fywyd gwyllt a phobl.
- **Dim saethu -** Gorfodi pobl i beidio â saethu grugieir a ffesantod er budd bywyd gwyllt, cadwraeth, perygl tân, a rheoli llifogydd.

## Gwella mynediad

- **Gwella mynediad -** Gwella mynediad i gefn gwlad. Gellid gwella teithio llesol yn yr ardal gyda llwybrau cerdded, llwybrau beicio a llwybrau ceffylau pellter hirach a gwell yn cysylltu trefi a phentrefi yn y siroedd. Hefyd gellid gwella mynediad i afonydd a llynnoedd ar gyfer pysgota a chaiacio.
- **Mwy o fynediad** - Gellid cynnig PC fel cymhelliant i gynyddu trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad i gefn gwlad i bobl sydd â symudedd cyfyngedig.

## 5.11 Cwestiwn 7: Gyda'r hyn yr ydych yn ei wybod ar hyn o bryd, a oes gennych unrhyw bryderon neu faterion rydych yn teimlo sy’n bwysig cael eu hystyried?




*Ffigur 6: Pryderon neu faterion a ragwelwyd y mae angen rhoi sylw iddynt hystyried*

O'r **966** o bobl a ymatebodd i'r holiadur, nododd **64%** (622 o’r ymatebwyr) ohonynt *Oes* fel ateb, hynny yw bod ganddynt bryderon neu faterion yr oeddent yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi sylw iddynt, nododd **14%** (138 o’r ymatebwyr) *Nac oes* fel ateb, hynny yw nad oedd ganddynt unrhyw bryderon neu faterion yr oeddent yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi sylw iddynt, a nododd **21%** (206 o’r ymatebwyr) yr ateb *Ansicr ar hyn o bryd - mae angen mwy o wybodaeth er mwyn gallu penderfynu*.

## 5.11 Cwestiwn 7 yn parhau: Disgrifiwch unrhyw bryderon neu faterion

Mae'r holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u crynhoi a'u rhoi o dan brif themâu. Mae'r themâu wedi’u trefnu o'r rhai a grybwyllir fwyaf aml i’r lleiaf aml.

### 5.11.1 Oes

Roedd y rhai a nododd **Oes** fel ateb, hynny yw bod ganddynt bryderon neu faterion yr oeddent yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi sylw iddynt wedi gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

### Rhagor o gyfyngiadau a biwrocratiaeth

- **Cynllunio** - Byddai hyd yn oed yn anos cael penderfyniadau cynllunio.
- **Byddai'n cyfyngu ar brosiectau ynni adnewyddadwy** – Gyda'r angen cynyddol am ynni adnewyddadwy, er na fyddai llawer yn hapus i weld ffermydd gwynt mawr yn y PC arfaethedig, ni fyddent am i'r broses gynllunio fod mor gyfyngol fel na ellid defnyddio tyrbinau gwynt bach a phaneli solar.
- **Saethu anifeiliaid hela -** Codwyd pryderon ynghylch cyfyngu ar saethu anifeiliaid hela.

### Tai

- **Prisiau tai -** Codwyd pryderon am y cynnydd ym mhrisiau tai yn yr ardal.
- **Ail gartrefi -** Codwyd pryderon ynghylch effaith ail gartrefi a chartrefi gwyliau o ran eu bod yn prisio pobl leol rhag ymuno â'r farchnad eiddo preswyl ac yn gwthio'r gymuned leol allan.

### Rhagor o dwristiaeth

- **Gormod o dwristiaeth** - Byddai hyrwyddo'r ardal ymhellach yn arwain at ormod o dwristiaid. Codwyd pryderon ynghylch sut y byddai twristiaeth a niferoedd yr ymwelwyr yn cael eu rheoli.
- **Dinistr** - Codwyd pryderon y gallai gorddefnyddio ardaloedd arwain at eu dinistrio.

### Costau

- **Costau uchel** - Codwyd pryderon am y swm sylweddol o arian y byddai'n ei gostio i'w greu. O gostau brandio a chostau arwyddion yn yr ardaloedd i'r gost leol; y cynnydd yn y costau o fyw yn yr ardal a biliau uwch. Nodwyd teimladau cryf o ran ei fod yn *"wastraff o arian trethdalwyr"*.
- **Byddai'n well gwario arian yn rhywle arall** - Codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai arian y wladwriaeth yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth brosiectau a chyfleusterau pwysicach.

### Niwed i'r amgylchedd a natur / bywyd gwyllt

- **Difrod pellach** - Gallai'r ardal ddod mor orlawn o dwristiaid nes y byddai hynny'n tarfu ar y bywyd gwyllt a'r cynefinoedd lleol ac yn eu dinistrio.

### Parcio

- **Problemau parcio** - Codwyd pryderon ynghylch parcio *"anystyriol"* oherwydd bod mannau parcio'n brin, a mannau problemus fel Moel Fammau sydd eisoes â cheir wedi'u parcio ym mhobman. Nodwyd bod pobl parcio'u ceir ar y mynydd, ar ochrau lonydd ac ar draws gatiau.

### Cyfleusterau / seilwaith

- **Diffyg cyfleusterau / seilwaith** - Nodwyd bod diffyg biniau a thoiledau cyhoeddus yn y pentrefi. Nodwyd nad oedd y seilwaith yn ddigonol yn cyffredinol i gynnal cynnydd mewn twristiaeth.

### Sbwriel / tipio anghyfreithlon

- **Problemau cynyddol o ran sbwriel** - Nodwyd bod pobl yn taflu sbwriel allan o ffenestri ceir ac yn gadael mwy a mwy o lanast ar ôl.

### Llywodraethiant / rheoli a rheolaeth

- **Rhagor o lywodraethiant** - Cafwyd ceisiadau am *"lai o Lywodraethiant … nid MWY ohono*".
- **Rheoli a rheolaeth genedlaethol** - Codwyd pryderon ynghylch rheoli a rheolaeth genedlaethol. Byddai'n well gan lawer bod rheoli a rheolaeth yn digwydd ar lefel *"leol yn hytrach na chenedlaethol".*

### Mynediad

- **Tir ffermio** - Codwyd pryderon bod gan ffermwyr ddigon o broblemau yn barod gyda thwristiaid a phobl yn cerdded dros eu tir ac yn gadael giatiau ar agor. Codwyd pryderon y byddai PC yn golygu y byddai mwy o bobl yn ymweld â'r ardal nad ydynt yn deall ffermio ac y byddent yn gwaethygu'r problemau hyn.

### Anifeiliaid / da byw mewn perygl

- **Cerddwyr cŵn** - Roedd ffermwyr (defaid yn benodol) yn bryderus y byddai mwy o broblemau gyda cherddwyr cŵn, a chyda cŵn *"yn tarfu ar anifeiliaid"* ac yn lladd defaid.

### Y ffiniau

- **Dylid osgoi hollti pentrefi** - Ni ddylid hollti pentrefi ar hyd ei ffin gan y byddai hyn yn trechu'r bwriad o ddilyn dull cyfannol o sefydlu'r PC newydd.

### Traffig

- **Mwy o draffig** - Codwyd pryderon am y cynnydd mewn *"ceir ychwanegol"* a *"llygryddion"* ac y byddai'r traffig yn cynyddu ar ffyrdd sydd eisoes yn rhy fach ar gyfer y lefel bresennol o draffig mewn rhai rhannau.

### Cyflwr y ffyrdd

- **Ansawdd gwael y ffyrdd** - Codwyd pryderon ynghylch y prinder ffyrdd sydd o ansawdd da. Honnodd llawer nad yw cyflwr llawer o'r ffyrdd yn yr ardaloedd ac o'u cwmpas yn addas (ee tyllau yn y ffyrdd, ffyrdd un trac) ar gyfer y cynnydd anochel mewn traffig yn sgil creu PC newydd.

### Llwybrau troed

- **Difrod** - Codwyd pryderon bod y beiciau mynydd a'r beiciau mwd yn corddi'r glaswellt, yn newid y dirwedd, ac yn gwneud niwed i lwybrau troed.

- **Erydu** - Codwyd pryderon am y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar y bryniau a fyddai'n arwain at erydu pellach.

### Mae angen rhagor o wybodaeth

- **Yr effeithiau** - Cafwyd cwestiynau ynghylch yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ffermwyr, trigolion a chyfleoedd cyflogaeth. Codwyd pryderon nad yw pobl yn gwybod unrhyw beth ac nad ydynt wedi cael unrhyw esboniad am yr hyn a allai ddigwydd.

### Y Gymraeg a diwylliant Cymreig

- **Erydu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig** - Nodwyd y gellid gweld gostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn yr ardal gan arwain at leihau'r niferoedd sy'n mynd trwy addysg Gymraeg.

### Colli llonyddwch

- **Sŵn** - Sŵn beiciau modur yn tarfu ar dawelwch cymunedau mwy anghysbell.

### Biwrocratiaeth

- **Rhagor o fiwrocratiaeth** – Codwyd pryderon am y cynnydd mewn biwrocratiaeth ac anawsterau cyfathrebu os oes PC mawr yn rhychwantu 5 awdurdod lleol.

### Adnoddau a gwasanaethau

- **Rhagor o bwysau** - Codwyd pryderon y gallai'r pwysau gan ymwelwyr fod yn ormod a bod yr adnoddau i ddelio â hynny'n brin. Nodwyd y byddai cynyddu nifer y bobl yn yr ardal yn rhoi pwysau ar wasanaethau fel y gwasanaeth gofal iechyd. Cafwyd ceisiadau i wella gwasanaethau ac yna denu mwy o bobl.

### Swyddi

- **Twristiaeth** - Codwyd pryderon bod yr unig swyddi sydd ar gael yn lleol yn ymwneud â thwristiaeth.

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddu

- **Cynnydd** - Codwyd pryderon ynghylch cynnydd mewn fandaliaeth a throseddau gwledig.

### Cynnwys Mynydd Helygain yn y PC newydd

- **Anallu i ymdopi** - Credai llawer nad yw'n ardal a fyddai'n ymdopi â dod yn *"adnabyddus yn genedlaethol".*

### Adfer natur / mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

- **Dim digon o ffocws** - Codwyd pryderon am yr argyfwng natur a bioamrywiaeth a'r ffaith nad oes digon o ffocws ar hyn.

### Ymwelwyr tymor byr

- **Teithwyr dydd** - Codwyd pryderon ynghylch y ffaith, drwy fod yn agos i Lerpwl, Manceinion a Birmingham, fod yr ardal o dan bwysau cyson gan ymwelwyr dydd sy'n defnyddio'r cyfleusterau rhad ac am ddim gan beidio â chyfrannu o reidrwydd at yr economi leol.
- **Galw heibio** - Mae llawer yn y DU yn ystyried bod gogledd-ddwyrain Cymru yn llain cymudwyr i basio drwyddo yn hytrach nag aros ynddo.

### Yr effaith ar bobl leol

- **Effaith negyddol** - Codwyd pryderon y gallai'r sector twristiaeth elwa ond gallai hyn fod ar draul cymunedau sydd eisoes o dan bwysau.
- **Cyflogaeth** - Codwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oes cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol neu fod y cyfleoedd hynny'n brin.
- **Cymuned ffermio** - Gellid cael effaith negyddol ar yr economi wledig yn enwedig y gymuned ffermio.

### Cerbydau oddi ar y ffordd anghyfreithlon

- **Cerbydau modur** - Mae beiciau mynydd a beiciau modur yn broblem.
- **Atal mynediad** - Mae'n bwysig atal mynediad i gerbydau oddi ar y ffordd.

### 5.11.2 Nac oes

Roedd y rhai a nododd **Nac oes** fel ateb, hynny yw nad oedd ganddynt bryderon neu faterion yr oeddent yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi sylw iddynt, wedi mynegi eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch y PC newydd. Nododd llawer, *"mae'n syniad gwych"* a *"does dim pryder o ran y PC ynddo'i hun".*

### 5.11.3 Ansicr ar hyn o bryd – mae angen rhagor o wybodaeth.

Roedd y rhai a nododd **Ansicr ar hyn o bryd - mae angen rhagor o wybodaeth** fel ateb wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y pynciau canlynol:

- **Seilwaith** - Cafwyd cwestiynau ynghylch a all y seilwaith ffyrdd ymdopi â'r cynnydd mewn traffig y byddai PC newydd yn ei gyflwyno i'r ardal.
- **Gwarchod a rheoli'r dirwedd** - Cafwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y bydd dynodiad PC yn arwain at amddiffyn a rheoli'r dirwedd yn well ar lawr gwlad, neu a fyddai'n ddynodiad papur na fyddai'n gwneud fawr o wahaniaeth ymarferol.
- **Cynllunio** - Bu ansicrwydd ynghylch a fyddai statws PC yn cael effaith andwyol ar gynllunio. Nid oedd llawer o'r farn bod angen i awdurdod PC gymryd rheolaeth gynllunio oddi ar yr awdurdodau cynllunio presennol.
- **Mynediad** - Cafwyd cwestiynau ynghylch a fyddai mynediad i'r lleoedd presennol y gall pobl gerdded iddynt yn cael ei gadw neu a fyddai mynediad yn cael ei wrthod yn y mannau hyn pe bai PC newydd yn cael ei greu.

- **Clwydi / giatiau** - Cafwyd cwestiynau ynghylch a fyddai clwydi a gatiau moch yn cael eu cynnal gan y PC.
- **Yr effaith ar bobl leol** - Cafwyd cwestiynau ynghylch a fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar y teuluoedd a'r cymunedau sydd eisoes yn byw ac yn gweithio yn yr ardal, ac os felly, sut. Yn benodol, a fyddai hyn yn effeithio ar eu cartrefi a'u hadeiladau.
- **Cyfyngiadau** - Cafwyd cwestiynau ynghylch pa gyfyngiadau fyddai'n cael eu gosod ar berchnogion tir.

## 5.12 Cwestiwn 8: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?

Manteisiodd y rhan fwyaf o'r **966** o ymatebwyr ar y cyfle hwn i bwysleisio'r prif bwyntiau yr oeddent yn awyddus i'w cyfleu unwaith eto. Unwaith eto, mae'r pwyntiau a'r sylwadau hyn wedi'u crynhoi o dan brif themâu a'u trefnu o'r rhai a grybwyllir fwyaf aml i'r lleiaf aml.

### Ceisiadau am gynnwys, neu am beidio â chynnwys ardaloedd o fewn y ffin

- **Yr ardaloedd i'w cynnwys -** Cafwyd ceisiadau i ystyried ardaloedd eraill megis Rhuthun a Pharc Gwepra.
- **Ardaloedd na ddylid eu cynnwys -** Cafwyd pryderon ynghylch estyn y dynodiad i'r de i Bowys.

### Cefnogaeth i'r PC newydd arfaethedig

- **Sylwadau cadarnhaol** - Roedd llawer o'r farn bod y cynnig yn *"cyffrous"* ac yn *"syniad gwych".*

### Yn erbyn y PC newydd arfaethedig

- **Gwrthwynebiad cryf** - Manteisiodd llawer ar y cyfle i fynegi teimladau cryf yn erbyn y cynnig ar gyfer y PC newydd gan ddweud, *"peidiwch â'i wneud"*, *"ailystyriwch y prosiect cyfeiliornus hwn"* a *"pheidiwch â difetha ein hardal ni!".*
- **Gwrthwynebiad lleol** - Cafwyd llawer o safbwyntiau gwrthgyferbyniol gan bobl leol yn gofyn am beidio â chymeradwyo'r PC newydd gan nad yw trigolion ei eisiau.
- **Mwy o bethau negyddol na chadarnhaol** - Nododd llawer mai'r cwbl sydd angen ei wneud yw gweld sut mae PC Eryri a PCau eraill wedi dioddef i weld pam nad oes angen PC.
- **Dim digon o dir cyhoeddus** - Nid oes gan yr ardal ddigon o dir cyhoeddus i gyfiawnhau PC.
- **Diffyg seilwaith** - Manteisiodd llawer ar hyn fel cyfle arall i amlygu eu pryderon am y diffyg seilwaith yn yr ardal hon gan gynnwys cyfleusterau hamdden, llety, gofal iechyd, a ffyrdd i ymdopi â'r PC newydd arfaethedig.

### Pryderon am gostau

- **Costau uchel** - Manteisiodd llawer ar hyn fel cyfle i bwysleisio'u pryderon ynghylch faint y byddai'r cynnig ar gyfer PC newydd yn ei gostio i'w sefydlu a'i redeg.
- **Gwell gwario arian yn rhywle arall** - Dylai'r blaenoriaethau ar gyfer gwario arian yn yr hinsawdd bresennol gael eu hystyried yn ofalus ac yn ddemocrataidd. Awgrymodd y gellid gwario'r arian yn well yn rhywle arall.

### Pryderon am yr effaith ar y bobl leol

- **Ystyriaeth** - Gofynnwyd yn daer a ellid *"ystyried trigolion lleol sy'n byw yn yr ardal"* a gofynnwyd a ellid sicrhau bod y bobl leol yn cael eu hystyried yn briodol, yr ymgynghorir â hwy yn briodol, a bod sylw priodol yn cael ei roi i'w llais bob amser. Gofynnodd rhai hyd yn oed i'r cynnig gael ei ailystyried yn llwyr oherwydd *"ei fod yn golygu marwolaeth ein cymunedau gwledig traddodiadol"*.
- **Trigolion Mynydd Helygain** - Manteisiodd llawer o'r trigolion ar hwn fel cyfle arall i dynnu sylw at eu pryderon ynghylch cynnwys Mynydd Helygain yn y PC. Teimlai

llawer y byddai'n niweidiol i gymuned Mynydd Helygain gan ei bod yn ymddangos bod rhai aelodau o'r cyhoedd eisoes yn dinistrio Mynydd Helygain gyda beiciau, beiciau modur a cherbydau eraill, a dim ond gwaethygu fyddai hyn.

- **Mynediad** - Byddai’r parciau lleol yn dod yn anhygyrch i blant lleol oherwydd bod rhagor o ymwelwyr. Tresmasu ar dir preifat.
- **Ffermwyr** - Manteisiodd llawer ar hwn fel cyfle arall i dynnu sylw at eu pryderon ynghylch y posibilrwydd o gynnydd mewn ymosodiadau gan gŵn yn yn ystod y tymor wyna.

### Ceisiadau am ragor o wybodaeth

- **Manteision ac anfanteision** - Cafwyd pryderon nad yw CNC wedi gwneud y buddion yn glir. Cafwyd ceisiadau i fod yn *“drylwyr iawn”* a *“chlir”* ynghylch manteision ac anfanteision dynodi ardal yn PC ar gyfer y rhai sy'n byw ynddi, y rhai sydd â diddordeb personol ynddi, a bywyd gwyllt.
- **Llawer mwy o gyhoeddusrwydd a gwybodaeth** - Cafwyd pryderon am yr *“wybodaeth annigonol”* bresennol. Pwysleisiwyd y ffaith bod angen rhagor o gyhoeddusrwydd a gwybodaeth er mwyn hwyluso trafodaethau cyhoeddus, y mae'n rhaid i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau eu hystyried. Ni all y trafodaethau fod yn flwch ticio i ddweud y cawsant eu cynnal pan fydd y penderfyniad eisoes wedi’i wneud.
- **Wedi'i rannu ag aelwydydd** - Mae angen darparu rhagor o wybodaeth er mwyn i bobl allu gwneud dewisiadau gwybodus, ac mae angen rhoi’r cyfle i bob aelwyd ym Mhowys i gael yr wybodaeth yn y lle cyntaf.
- **Effeithiau dynodiad** - Mae'n hanfodol bod gonestrwydd ynghylch effeithiau’r dynodiad hwn – *“dim gwyngalchu gan ddweud wrth bob grŵp y bydd popeth yn iawn a bod y cyfan yn dda ac yn gadarnhaol”.* Mae angen i’r ffynonellau ariannu hirdymor fod yn glir, mae angen gwneud y cyfyngiadau ychwanegol a fyddai’n cael eu gosod ar bobl yn glir, ac ni ddylid gorbwysleisio’r buddion posibl ac mae angen eu cyfleu mewn ffordd gytbwys. Cafwyd ceisiadau am ragor o wybodaeth am yr hyn y byddai PC newydd yn ei olygu ar lawr gwlad; sut y gallai'r ardal newid os bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen? Beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol i bobl sy'n byw yn yr ardal arfaethedig? Beth fyddai’r berthynas rhwng Awdurdod Parc newydd a’r cynghorau sir lleol? Beth fyddai’r effeithiau uniongyrchol ee cyfyngiadau cynllunio? Ffyrdd prysurach? Cyfyngiadau ar adeiladu tai? Trafnidiaeth gyhoeddus leol yn erbyn annog mwy o geir i'r ardal?
- **Wedi'i rannu ag ysgolion** - Cafwyd ceisiadau am ddarparu rhagor o wybodaeth i ysgolion a datblygu dealltwriaeth ynddynt.

### Ymgysylltu ac ymgynghori

- **Canlyniad wedi’i bennu ymlaen llaw** - Codwyd pryderon bod y cynnig wedi'i gyfleu fel *“bargen wedi'i chwblhau”* yr oedd Llywodraeth Cymru yn benderfynol o fwrw ymlaen â hi ac ond yn fodlon newid y ffiniau ychydig.
- **Sicrhau tryloywder ac ymgysylltu’n llawn** - Cafwyd ceisiadau am dryloywder llawn yn y broses, gan gynnwys meysydd o ansicrwydd. Cyfathrebu da a deialog lawn ar draws yr holl randdeiliaid. Mae cynnwys popeth yn hanfodol os yw'r prosiect i'w dderbyn a'i weithredu. Hoffai llawer gael mwy o ‘hwb’ gan CNC i gysylltu ac

ymgysylltu â grwpiau Facebook lleol. Pwysleisiwyd y ffaith bod yna lawer o grwpiau lleol (pentrefi / chwaraeon / gweithgareddau) a fyddai'n barod i gynnig mewnbwn i'r ymgynghoriad.

- **Penderfyniad yn seiliedig ar adborth** - Mae llawer yn gobeithio y bydd yr holl sylwadau'n cael eu hystyried ac y bydd y casgliad yn seiliedig ar ymatebion dilys a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Roedd llawer hefyd yn edrych ymlaen at chwarae rhan lawn yn yr ymgynghoriad yn 2024 ac yn awyddus i ymgysylltu ymhellach wrth i gynlluniau fynd rhagddynt.
- **Y penderfyniad terfynol** - Rhaid gwneud y penderfyniad hwn yn onest, a rhaid sicrhau mai gwerth y dirwedd a'i bywyd gwyllt yw'r ystyriaeth bennaf. Mae llawer o drigolion mewn cymunedau gwledig yn wrthwynebus iawn i newid a'r hyn y maent yn ystyried ei fod yn ymyrraeth gan bobl mewn dinasoedd. Mae eraill yn gobeithio na fydd y rhai sy'n gyfrifol am y penderfyniad yn caniatáu i'r *"lleisiau ystyfnig"* hynny ddiystyru anghenion yr amgylchedd a'r hinsawdd am genedlaethau i ddod. Rhaid gwneud penderfyniadau strategol, a meddwl i'r tymor hwy a dylid sicrhau mai ymrwymiad i les cyffredin yn y dyfodol sydd drechaf.

### Cais i adael yr ardal fel ag y mae

- **Cyni** - Cafwyd ceisiadau cryf i adael pethau fel ag y maent o ystyried yr adeg hon o gyni.
- **AHNE** - Roedd llawer wedi defnyddio hwn fel cyfle i dynnu sylw unwaith eto i'r ffaith eu bod o'r farn bod yr AHNE bresennol eisoes yn gweithio'n dda a chafwyd ceisiadau i'r ardal gael ei gadael fel ag y mae unwaith eto.

### Pwysigrwydd gwarchod bywyd gwyllt

- **Amddiffyn y fadfall ddŵr gribog** - Manteisiodd llawer o'r trigolion ar hwn fel cyfle arall i dynnu sylw at eu hawydd i amddiffyn y fadfall ddŵr gribog. Mae'r boblogaeth wedi gostwng yn sylweddol yn chwarel Pen yr Henblas. Ar un adeg roedd gan y safle hwn un o'r poblogaethau uchaf o'r madfallod hyn. Cafwyd ymholiadau ynghylch a fyddai CNC yn ystyried mesurau gwarchod ychwanegol er mwyn cynyddu cynefinoedd megis cyfyngu mynediad i'r chwarel cyn i'r rhywogaeth ddiflannu'n gyfan gwbl. Codwyd pryderon bod rhaid i'r cynnydd sylweddol mewn ymwelwyr fod wedi cael effaith andwyol.
- **Cynllun bioamrywiaeth** - Cafwyd cwestiynau ynghylch a oes cynllun cynhwysfawr ar gyfer bioamrywiaeth ar draws yr holl ardal arfaethedig ac a fyddai un yn cael ei ddatblygu.
- **Yr effaith negyddol yn sgil rhagor o dwristiaeth** - Credai llawer ei bod yn *"sefyllfa gythreulig",* gan y byddai statws PC yn sicrhau bod bywyd gwyllt yn cael ei warchod yn well, ond gallai'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr fod yn niweidiol i'r bywyd gwyllt, *"yn enwedig y poblogaethau o adar sy'n magu".* Nid denu mwy o bobl i mewn yw'r ateb ar gyfer bioamrywiaeth nac ar gyfer diogelu'r amgylchedd ychwaith. Mae hyn i gyd yn hawdd iawn i'w weld yn y PCau presennol gyda'r amgylcheddau diraddiedig a'r anawsterau i fywyd gwyllt ar dirweddau a ddefnyddir yn helaeth. Codwyd pryderon y byddai PC newydd yn dinistrio'r bywyd gwyllt sy'n nythu ac yn byw ar y bryniau.
- **Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr** - Byddai angen gwarchod ardaloedd ac ecosystemau sydd eisoes yn fregus rhag y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ac mae

angen i ni eisoes ehangu'r ardaloedd hyn i roi unrhyw obaith y bydd ein bioamrywiaeth yn goroesi i'r dyfodol. Rwy’n gobeithio y caiff y gwahanfeydd dŵr eu hystyried wrth ddynodi’r ffiniau ac y bydd y pwysau gan y cyhoedd sy’n dymuno cael mynediad i’r PC yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth ardaloedd o fioamrywiaeth uchel ac y bydd yr holl sefydliadau amrywiol sydd ag arbenigedd ym meysydd bioamrywiaeth yn ymwneud â’r trafodaethau ynghylch sut i reoli hyn.

- **Dylid gwarchod Ardal Bwysig y Gylfinir** - Manteisiodd llawer o’r trigolion ar hwn fel cyfle arall i dynnu sylw at eu hawydd i amddiffyn ardaloedd y gylfinir. Cafwyd llawer o geisiadau i helpu i wrthdroi dirywiad y gylfinir a llawer o rai eraill. Mae llawer o Ddyffryn Dyfrdwy Uchaf a Mynydd Mynyllod o fewn ‘Ardal Bwysig y Gylfinir 5’ (ICA5) ar gyfer y gylfinir. Mae’n ardal fwydo bwysig i sawl rhywogaeth o adar sy’n dibynnu ar infertebratau’r pridd (ee y gigfran, y drudwen, y wylan benddu, y wennol a chnocell y coed) sydd oll wedi prinhau’n genedlaethol – arwydd tebyg i’r ffordd y rheolir priddoedd. Mae sawl rhywogaeth arall â blaenoriaeth yn defnyddio’r ardal fel yr hebog griffon, y cudyll coch, yr ehedydd, y dylluan gorniog, gwalch y pysgod, yr ysgyfarnog, yr eog, a’r llysywen bendoll, gydag Ardal Cadwraeth Arbennig Dyfrdwy a Llyn Tegid yn ruban drwyddi draw.
- **Cyfleoedd i wylltio** - Mae cyfleoedd yn Nyffryn Ceiriog i adfer gwrychoedd a choed coll, plannu ardaloedd gyda choed helyg, a chyflwyno afancod i atal llifogydd mewn pentrefi a threfi. Mae cyfle hefyd i greu ardaloedd gwyllt i wella ardaloedd sy'n cael eu gorddefnyddio a'u goramaethu – yn enwedig mannau magu ffesantod.
- **Rhoi sylw i fioamrywiaeth a’r newid yn yr hinsawdd** - Credai llawer bod pwysigrwydd ystyried bioamrywiaeth a'r hinsawdd yn y dynodiad yn ganolog i lwyddiant y prosiect hwn.

### Pwysigrwydd gwarchod y dirwedd

- **Cais am warchodaeth** - Cafwyd ceisiadau i ardaloedd o harddwch gael eu gwarchod a sicrhau y gofalir amdanynt, yn benodol yr ardal hon *“a ddylai gael y warchodaeth a’r sicrwydd y byddai dynodiad PC yn eu darparu”.* Nododd llawer, *“Unwaith maen nhw wedi mynd, maen nhw wedi mynd”* a nodwyd, pe bai’r PC yn mynd yn ei flaen, y dylid sicrhau ei fod yn dwyn cynifer o fuddion â phosibl i'r amgylchedd. Pwysleisiwyd y ffaith *“bod angen i’r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig yn bennaf ar warchod y byd naturiol, nid ar fanteisio arno.”*
- **Gwarchod rhag datblygu** - Cafwyd ceisiadau i'r dirwedd gael ei gwarchod rhag tyrbinau gwynt a pheilonau.

### Pryderon am y cynnydd mewn sbwriel

- **Twristiaid yn taflu sbwriel** - Mae pobl yn gadael sbwriel yn anystyriol ac yn taflu sbwriel allan o ffenestri eu ceir gan olygu mai’r trigolion sy’n gorfod glanhau.

### Pryderon am gynnydd mewn biwrocratiaeth

- **Biwrocratiaeth** - Cafwyd ceisiadau i beidio â chael mwy o fiwrocratiaeth.

### Pryderon am ddiffyg seilwaith

- **Problemau parcio** - Diffyg mannau parcio.
- **Diffyg cyfleusterau** - Toiledau, biniau, biniau baw ci.

- **Ffyrdd anaddas** - Nid yw’r lonydd cul bach yn addas ar gyfer mwy o gerbydau.

Yn ein cwestiwn olaf, (cwestiwn 9) gofynnwyd sut yr hoffai pobl fod yn rhan o'n gwaith yn y dyfodol i ddatblygu'r cynnig ar gyfer y prosiect. Mae dros 300 o bobl wedi cofrestru i dderbyn diweddariadau e-bost. Os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i’r cyfeiriad hwn;
**rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**Diolch i bawb a gwblhaodd yr holiadur.**

# 6. Themâu a nodwyd o’r ymatebion i'n holiadur ymgysylltu

## 6.1 Cyflwyniad

Roedd yr ymatebion i’r holiadur yn cynnwys miloedd o sylwadau yn mynegi ystod eang o safbwyntiau a barnau. Rydym wedi’u trefnu o dan y themâu a ddangosir yn y tabl isod. Yn yr adran hon rydym wedi nodi ein hystyriaeth gychwynnol o'r themâu mwyaf cyffredin a nodwyd. Mae themâu cysylltiedig wedi’u grwpio fel y gallwn fynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd pan fo'n briodol. Mae’r weithdrefn asesu yn mynd rhagddi ac, ynghyd â thrafodaethau â rhanddeiliaid, bydd yn parhau i lywio’r asesiad tan 2025.

*Tabl 6.Y themâu a grybwyllwyd amlaf*

| Safle amlder | Themâu |
|---|---|
| 1 | Y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, llonyddwch |
| 2 | Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd |
| 3 | Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith |
| 4 | Yr angen am newid, rheoli a rheolaethau, costau, cyllid, biwrocratiaeth |
| 5 | Pobl a chymunedau lleol, yr economi leol |
| 6 | Mynediad, gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored |
| 7 | Tai |
| 8 | Diwylliant a threftadaeth |
| 9 | Goblygiadau cynllunio |
| 10 | Ymholiadau ynghylch ffiniau |
| 11 | Angen rhagor o wybodaeth |

Rydym yn ymwybodol nad yw nifer o ystyriaethau a allai fod yn berthnasol yn ymddangos yn y rhestr hon, megis goblygiadau posibl PC o ran iechyd meddwl a chorfforol. Cafwyd sylwadau hefyd nad oeddent yn uniongyrchol berthnasol i'r asesiad, megis y terfyn cyflymder 20mya, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a phryderon am wasanaethau cyhoeddus nad ydynt o fewn cylch gorchwyl PC. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i helpu i lywio trafodaethau yn y dyfodol yn well cyn ymgynghoriad a gynhelir yn ystod hydref 2024.

## 6.2 Y Themâu a grybwyllwyd amlaf

### Thema 1: Tirwedd, cydnabyddiaeth a chadwraeth yr ardal, a llonyddwch

Gyda'i gilydd, tirwedd, cydnabyddiaeth, a chadwraeth yr ardal, a llonyddwch oedd y thema fwyaf cyffredin a godwyd Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn yr adran hon yn gadarnhaol ac ystyriwyd bod y PC arfaethedig yn gyfle. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai PC gael effeithiau negyddol ar y dirwedd neu fod â phwerau annigonol i ddelio â'r problemau.

Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod yr ardal yn haeddu cydnabyddiaeth, a bod ei thirwedd, ei threftadaeth a'i hecoleg eithriadol yn haeddu cael eu gwarchod. Dylai statws PC gynyddu cydnabyddiaeth gogledd-ddwyrain Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol. Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn ymweld â'r tri PC presennol yng Nghymru bob blwyddyn, gan wario tuag £1 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau. Mae bron tri chwarter o boblogaeth Cymru yn ymweld â PC bob blwyddyn. Mae'r sectorau hamdden a thwristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol (ARUP 2013).

Y cymhelliad mwyaf poblogaidd i ymwelwyr o'r DU a arhosodd yng Nghymru yn 2019 oedd mwynhau tirwedd naturiol y wlad (79%), i fyny o 67% yn 2016 (McAllister *ac eraill* 2019). Nododd yr astudiaeth fod amgylchedd naturiol a golygfeydd Cymru yn un o'r prif gymelliadau ar gyfer dewis dod i Gymru am wyliau. Ystyriwyd ei bod hynny'n gryfder arbennig ac yn rhywbeth a oedd yn ei osod ar wahân fel cyrchfan gwyliau. Daeth llawer (74%) i ymlacio o straen bywyd ac i gael ymdeimlad o dawelwch. Mae Mynegai Brandiau Cenedl Anholt-Ipsos (IPSOS 2022) yn nodi harddwch naturiol fel sbardun allweddol cryf i ymwelwyr â llawer o wledydd.

Byddai PC yn gallu mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a darparu cyfleoedd i gadw a gwella'r dirwedd. Mae PCau yn ddynodiadau tirwedd statudol sy'n berthnasol yng Nghymru ac sydd wedi'u gwarchod o dan ddeddfwriaeth ac mewn polisïau cynllunio cenedlaethol.
Y dibenion statudol ar gyfer dynodi Parciau Cenedlaethol yw:

- Cadw a gwella'u prydferthwch naturiol, eu bywyd gwyllt a'u treftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd allu deall a mwynhau eu nodweddion arbennig.

Mae gan yr holl gyrff cyhoeddus 'ddyletswydd statudol i ystyried dibenion PCau wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â thir mewn unrhyw Barc Cenedlaethol neu sy'n effeithio arno.'
Mae'r ddyletswydd hon i roi sylw i'r dibenion wedi'i nodi yn adran 11A(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Roedd llawer yn pryderu y byddai PC yn ceisio hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid ar draul cadwraeth a llonyddwch. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn glir, pan fo gwrthdaro rhwng y diben cyntaf a'r ail ddiben, yna rhoddir mwy o bwys ar y cyntaf. Felly, mae'n rhaid i gadwraeth harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol gael blaenoriaeth bob amser dros hyrwyddo'r ardal er mwyn ei deall a'i mwynhau. Gelwir hyn yn Egwyddor Sandford ac mae wedi'i gynnwys yn adran 11A (fel y'i diwygiwyd) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Teimlai rhai bod cyfleoedd i reoli'r dirwedd yn well ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, amgylchedd cynaliadwy, ac i wella llesiant corfforol a meddyliol. Teimlai llawer bod angen gwell cyfleoedd hamdden ochr yn ochr â diogelu cymunedau a diwylliant traddodiadol.

Cydnabyddir y dylai PCau lywio'r ffyrdd o ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn eu hardaloedd (Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 2023). Gwerthfawr a chydnerth: Mae Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol 2018 yn annog tirweddau dynodedig er mwyn arwain ymdrechion i geisio a phrofi atebion newydd i heriau amgylcheddol a gwledig, gan gynnwys gweithio gydag ardaloedd nad oes ganddynt ddynodiad statudol.

Mae 'Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru' (ARUP 2013) yn cydnabod hynny *"Y tu hwnt i'r effeithiau economaidd, mae'r Parciau Cenedlaethol yn cyfrannu at ansawdd bywyd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r Parciau Cenedlaethol yn adnodd hamdden. Mae PCau wedi cael eu disgrifio fel 'ffatrïoedd llesiant'. Mae'r tri PC yng Nghymru yn darparu mynediad i fannau agored, sy'n ei gwneud yn bosibl cynnal ystod eang o weithgareddau sy'n fuddiol i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol unigolion".*

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod PC baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli (A66(1) Deddf yr Amgylchedd 1995), sy'n nodi'r weledigaeth, yr amcanion, a nodweddion arbennig yr ardal sydd i'w cadw a'u gwella. Mae'r cynlluniau rheoli yn nodi cynigion ar gyfer meysydd yn cynnwys rheoli tir mewn ffordd gynaliadwy, mynediad a hamdden, cymunedau a bywyd gwyllt a threftadaeth, yn aml gydag enghreifftiau o astudiaethau achos o brosiectau yn eu hardal. Mae PC Eryri wedi llunio'u cynllun rheoli statudol mewn partneriaeth (PC Eryri 2020)

Mae llonyddwch ac awyr dywyll yn nodweddion arbennig y nodwyd y dylid eu gwarchod mewn llawer o BCau a Thirweddau Cenedlaethol (AHNE). Mae Bannau Brycheiniog a rhan o PC Eryri yn Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol ac yn hyrwyddo astro-dwristiaeth, safleoedd darganfod awyr dywyll, a lleihau llygredd golau.

Mae PCau hefyd yn gallu denu cyllid i gefnogi prosiectau sy'n ymwneud ag adfer natur, addasu i'r hinsawdd, cymunedau a thwristiaeth gynaliadwy. Mae partneriaeth Tirweddau

Cymru (2024) yn darparu gwybodaeth am waith sy'n cael ei wneud yn y Tirweddau Dynodedig (PCau a Thirweddau Cenedlaethol (AHNE)) yng Nghymru.

### Thema 2: Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd

Mae amaethyddiaeth, rheoli tir, a'r amgylchedd naturiol yn sail i rinweddau arbennig yr ardal ac yn helpu i gefnogi cymunedau a busnesau gwledig. Roedd llawer yn ystyried bod y PC arfaethedig yn gyfle o dan y thema hon, ond codwyd pryderon gan y sector amaethyddol ynghylch yr effaith bosibl y byddai PC yn ei chael, a'r ansicrwydd ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o ran hyfywedd busnesau ffermio yn y dyfodol.

Bydd cynyddu maint yr AHNE yn creu parth clustogi ecolegol gwell, gan leihau bygythiadau o ddatblygu a darnio cynefinoedd, a chaniatáu i ecosystemau a bioamrywiaeth ffynnu. Mae cyfle i ganolbwyntio ar gadwraeth, adfer natur, a chryfderau'r ardal o ran bioamrywiaeth, gan gydnabod yr argyfwng bioamrywiaeth drwy reoli'r amgylchedd naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), (CNC 2020) yn darparu gwybodaeth fanwl a all helpu i nodi cryfderau a chyfleoedd ar gyfer adferiad byd natur. Mae SoNaRR yn cael ei ddiweddaru yn 2025.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai PC gael effeithiau negyddol ar natur a bioamrywiaeth neu fod â phwerau annigonol i ymdrin â'r problemau.

Byddai PC yn gallu mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a darparu cyfleoedd i wella natur a bioamrywiaeth. Mae ffocws y PCau yn newid, yn dilyn argymhellion COP15 (Scurlock 2023) a'r argymhellion o Archwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru i Fioamrywiaeth (Llywodraeth Cymru 2022), i ganolbwyntio ar ddiogelu 30% o'r tir a 30% o'r môr erbyn 2030, gan ddatgloi potensial Tirweddau Dynodedig i gyflawni mwy dros natur. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu eglurhad pellach ar dargedau bioamrywiaeth drwy ei hymgynghoriad o'r enw Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru 2024). Yn y dyfodol, caiff PCau eu cefnogi i ddatblygu cynlluniau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer cadwraeth natur a bydd angen i gynlluniau rheoli diweddaredig adlewyrchu hyn. Enghraifft o hyn yw Cynllun Gweithredu Adfer Natur PC Bannau Brycheiniog (PC Bannau Brycheiniog 2019). Byddai angen i PC newydd ddarparu cyfleoedd i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac adfer natur fel ei brif flaenoriaethau cyflawni.

Mae'r IUCN yn darparu adnodd defnyddiol ar atebion sy'n seiliedig ar natur (IUCN 2020). Ymhlith y cyfleoedd ar gyfer atebion seiliedig ar natur mae adfer afonydd a gwlyptiroedd, adfer ac ehangu coetiroedd a gwrychoedd, adfer mawndiroedd, a gwelliannau i safleoedd gwarchodedig. Mae rhywfaint o dystiolaeth y gall cyfundrefnau pori helaeth fod yn fuddiol i adferiad byd natur ac nad ydynt o reidrwydd yn negyddol o ran gwytnwch hinsawdd (Chandler 2024). Mae ein PCau presennol yn cynnal prosiectau enghreifftiol i gefnogi adferiad byd natur a chydnerthedd hinsawdd yn eu hardaloedd, gan gynnwys prosiect Mawndiroedd ac Ucheldiroedd PC Bannau Brycheiniog (PC Bannau Brycheiniog 2024) a Phartneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon (PDTMD 2024).

Byddai PC newydd felly yn cyflwyno cyfleoedd ychwanegol i Awdurdod PC arwain prosiectau a mentrau enghreifftiol i wella adferiad natur a bioamrywiaeth. Byddent o bosibl

yn cyrchu cyllid ychwanegol neu'n helpu i gydlynu mentrau sy'n darparu cyfleoedd refeniw ychwanegol i ffermwyr a rheolwyr tir, o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) neu fel arall.

Mynegwyd pryderon penodol ynghylch yr ansicrwydd ynghylch dyfodol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Yn dilyn ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi yn y Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Ffermio yng Nghymru ar 14 Mai 2024 y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gyflwyno yn 2026. Roedd y datganiad yn cydnabod bod dyfodol llwyddiannus i ffermio yng Nghymru yn ymwneud â chynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, gofalu am ein hamgylchedd, a chynnal cymunedau gwledig wrth fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Cydnabuwyd bod rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddarparu'r lefel gywir o gymorth i gefnogi cydnerthedd busnesau.

### Thema 3: Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith

Daeth y rhyngwyneb rhwng yr economi ymwelwyr a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a'r system drafnidiaeth, seilwaith ffyrdd, a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i'r amlwg fel y drydedd thema a grybwyllwyd amlaf.

Mae cyfleoedd presennol ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr Ardal Chwilio yn cynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Parc Gwledig Loggerheads, Gronant, Moel Famau, Pistyll Rhaeadr, a Llyn Efyrnwy sydd, er ei fod o fudd i'r economi ymwelwyr lleol, yn arwain at bwysau sy'n deillio o ddefnyddio ceir a pharcio.

Mewn rhai rhannau o'r Ardal Chwilio, megis Glynceiriog a Phowys, mae diffyg cynnal a chadw ac arwyddbyst ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi creu tensiwn rhwng ffermwyr ac ymwelwyr.

Amlygwyd effaith gweithgareddau anghyfreithlon oddi ar y ffordd ar yr amgylchedd a ffermio fel pryder, yn enwedig yn ardaloedd ACA y Berwyn a De Mynyddoedd Clwyd, a Mynydd Helygain.

Ar hyn o bryd mae'r Ardal Chwilio yn ffinio ag ardaloedd trefol mawr ac mae'n cynnwys ardaloedd amdrefol, gwledig ac ardaloedd sy'n brin eu poblogaeth.  Nodwyd y gallai sefydlu PC newydd ychwanegu at y cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a'r buddion i'r economi leol, ond mynegwyd pryderon ynghylch gallu'r ardal i gynnwys mwy o ddefnydd o geir ac ymdopi â phwysau ymwelwyr. Yn benodol, tynnwyd sylw at natur a chymeriad y rhwydwaith ffyrdd ym Mhowys, sy'n gul a heb lwybr troed / llwybr beicio, fel rhwydwaith sy'n anaddas ar gyfer traffig ychwanegol.

Mae'r ddeddfwriaeth (adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol roi sylw i ddibenion PCau. Mae hyn yn cynnig cyfle i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill er mwyn mynd i'r afael â materion yn strategol. Er enghraifft, mae Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru wedi cydnabod yr angen i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd ar gyfer Gogledd Cymru ystyried y PC newydd arfaethedig a chefnogi gostyngiad yn y defnydd o geir pe bai cynnydd mewn twristiaeth.

Yn wahanol i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol mae gan Awdurdodau PC ddiben i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y PC. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chydbwyllgorau corfforaethol sy'n bennaf gyfrifol am y rhwydweithiau ffyrdd a thrafnidiaeth. Mae gan Awdurdodau PCau a phroses y cynllun rheoli rôl i'w chwarae o ran cydlynu ffyrdd o reoli ymwelwyr a gwella cyfleoedd teithio llesol a chynaliadwy. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o ddatblygu atebion â ffocws i feysydd pwysau presennol, gan ddwyn buddion i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae PCau yn darparu dull integredig o reoli hamdden a mynediad. Mae enghreifftiau o fentrau PC yn cynnwys:

- Gwasanaeth bws Sherpa`r Wyddfa
- Gwasanaeth bws gwennol y Pâl ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Trawsnewid Cludiant y Cairngorms

Mae gwasanaeth wardeniaid APC yn Eryri, gan weithio gyda staff ystadau, ffermwyr lleol, a pherchnogion tir, yn darparu dull penodol o reoli'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau caniataol a `Gwlad Agored'. Maent yn codi camfeydd, gatiau a chyfeirbwyntiau yn ail-wynebu llwybrau ac yn cyflawni gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Maent hefyd yn wasanaeth pwysig i ymwelwyr, gan roi cyngor i gerddwyr a dringwyr. Mae gan Awdurdodau'r PCau bwerau i wneud gorchmynion rheoli traffig er mwyn cyfyngu ar y defnydd o gerbydau ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd er mwyn diogelu'r PC.

Yn ogystal â chyllid o Grantiau PC, gall Awdurdodau'r PCau sefydlu partneriaethau i gael gafael ar gyllid ychwanegol, ee Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau.

## Thema 4: Yr Angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, biwrocratiaeth, costau a chyllid

Y pynciau hyn sy'n ffurfio'r bedwaredd thema a grybwyllwyd amlaf. Cyfeiriodd y rhai a oedd yn teimlo'n gadarnhaol neu'n optimistaidd am y cynnig at gynnydd posibl mewn mewnfuddsoddiad a chyllid ychwanegol. Iddynt hwy, roedd y rheolaeth ychwanegol yn agor y posibilrwydd o gyfleoedd cyflogaeth lleol posibl, neu roeddent o'r farn bod y rheolaethau a ragwelir yn ddymunol o ran atal datblygu amhriodol.

Roedd y rhai a oedd yn negyddol neu'n bryderus ynghylch y cynnig yn teimlo bod y costau sy'n gysylltiedig â chreu corff cyhoeddus newydd yn anfforddiadwy, yn enwedig ar hyn o bryd. Roeddent hefyd yn gweld bod rheolaethau a ragwelir yn gyfyngol neu'n ymyrryd, a bod rheolaeth yn ddiangen o fiwrocrataidd.

Yn rhai o'r sylwadau mynegwyd yr awydd i gael llai o ymyrraeth, ac ystyriwyd mai ystyr cyffredinol hyn oedd cyfuniad o lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, a llywodraeth leol ac weithiau sefydliadau eraill. Fodd bynnag roedd hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r awydd a fynegwyd yn gyffredin am gael gwasanaethau cyhoeddus gwell, buddsoddiad mewn seilwaith, a chymorth drwy gymhorthdaliadau.

**Yr angen i newid, rheoli a chael rheolaethau a biwrocratiaeth:**

O dan yr Ardal Chwilio nid yw AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ynghyd ag ardaloedd cyfagos ychwanegol o werth tirwedd uchel, o dan unrhyw ddynodiad neu reolaeth tirwedd gydlynol ar hyn o bryd.  Rydym wedi comisiynu dadansoddiad o'r nodweddion arbennig yn yr ardal hon sy'n dwyn buddion i'r cymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Rydym hefyd wedi nodi sawl grym dynamig sy'n achosi newid. Ymhlith y rhain mae twristiaeth, y newid yn yr hinsawdd, datblygu adeiledig, amaethyddiaeth a rheoli tir. Mae materion sydd eisoes yn effeithio ar yr ardal a nodwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Roedd pwysau ymwelwyr, prisiau tai cynyddol, pryderon ynghylch natur a chadwraeth, a materion mynediad a thresmasu yn amlwg yn eu plith. Credai rhai o’r ymatebwyr y byddai'r rhain yn gwaethygu gyda dynodiad PC, ac roedd eraill yn obeithiol y byddai newid yn arwain at well cydgysylltu a rheolaeth. Diben yr asesiad y mae CNC yn ei gynnal ar hyn o bryd yw deall hyn yn well, a pha fodel rheoli allai fod fwyaf effeithiol o ran galluogi gwelliannau.

Y prif opsiynau sy’n cael eu hasesu o ran eu gallu i reoli grymoedd newid yn yr ardal yw:

1. Gwneud dim, dim newid.
2. Modelau anstatudol- ee Parc Rhanbarthol y Cymoedd / Parc Rhanbarthol De'r Penwynion.
3. Bwrdd Cadwraeth AHNEau.
4. PC.

Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd adroddiadau sy’n crynhoi’r asesiad a’r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gael ar ein gwefan a fydd yn dangos gwybodaeth am y prosiect cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir yn hwyrach yn 2024.

**Costau a chyllid:**

Cafwyd ceisiadau i egluro'r costau a'r trefniadau ariannu ar gyfer PC newydd.

Mae'r 3 PC presennol yng Nghymru yn derbyn 75% o'u cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant PC. Darperir y 25% sy’n weddill gan ardoll ar awdurdodau lleol cyfansoddol, ac adlewyrchir y gost yn eu setliad cyllideb cyffredinol gan Lywodraeth Cymru (Senedd Cymru 2000).

Gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol dynnu arian ychwanegol i lawr yn gysylltiedig â chyflawni eu cynlluniau rheoli.

Gyda'i gilydd mae'r rhain o bosibl yn darparu adnoddau ychwanegol a hirdymor fel y gellir canolbwyntio ar gyflawni o fewn ardal PC newydd arfaethedig.

Bydd gwaith ar raddfa PC newydd arfaethedig, a ffurf a swyddogaeth ei drefniadau llywodraethiant, yn parhau drwy gydol y broses ddynodi. Bydd hyn yn llywio gofynion ariannu yn y dyfodol a phenderfyniadau dilynol Llywodraeth Cymru.

Ar yr adeg honno caiff yr awdurdodau lleol gyfle i wneud penderfyniad gwybodus a dod i farn ynghylch a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dynodiad arfaethedig ond yn teimlo mai nid nawr oedd yr amser iawn oherwydd yr argyfwng costau byw presennol. Mae'n demtasiwn, er nad yw o reidrwydd yn uniongyrchol gymaradwy, i nodi y cafodd pob un o'r tri PC presennol yng Nghymru eu sefydlu yn ystod cyni Prydain ar ôl y rhyfel.

Teimlai eraill y byddai'n well gwario'r arian ar y GIG neu wasanaethau cyhoeddus eraill sydd â blaenoriaeth. Heb gymryd rhan mewn dadl ar bwysigrwydd cymharol wahanol wasanaethau cyhoeddus, mae'n ddyletswydd o leiaf ar Cyfoeth Naturiol Cymru i dynnu sylw at rôl hanfodol yr amgylchedd naturiol o ran cynnal economi a chymdeithas lewyrchus a'u galluogi i fodoli o gwbl. Mae hyn yn ffaith sydd wedi ennill cydnabyddiaeth ehangach yn araf bach oherwydd yr argyfyngau hinsawdd a natur sy'n datblygu. Byddai tirwedd a reolir yn effeithiol, a allai ysgogi cyllid ychwanegol, cydgysylltu rhanddeiliaid, a mynd i'r afael yn ystyrlon â materion hollbwysig megis adfer natur, y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a cholli bioamrywiaeth, wrth hefyd gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol, cydlyniant cymdeithasol, a chynnal treftadaeth ddiwylliannol, o bosibl yn darparu gwerth eithriadol am arian.

Fodd bynnag, cyfrifoldeb ein llywodraeth a etholwyd yn ddemocrataidd yw penderfyniadau o'r fath. Bydd penderfyniadau dyrannu cyllideb a blaenoriaethu yn cael eu gwneud ar y lefel wleidyddol briodol o ystyried y ffeithiau a'r dystiolaeth ar ôl i weithdrefn asesu CNC gael ei chwblhau.

### Thema 5: Pobl a chymunedau lleol, yr economi leol

Mae'r Ardal Chwilio yn cynnwys ystod amrywiol o dirweddau cyflenwol a chyferbyniol gan gynnwys tirweddau arfordirol, ucheldirol, iseldirol, a gwledig anghysbell. Yn yr un modd, mae'n lle sydd â chymunedau cydlynol a phatrymau anheddu nodedig.

Roedd yr ymateb i'r cyfnod ymgysylltu yn dangos ymdeimlad cryf o hunaniaeth, cymuned, a chymeriad, a chysylltiad rhwng pobl a lle a fynegir gan y cysyniad o Fro yng Nghymru.

Roedd hyn yn gyson ar draws y rhai a oedd â phersbectif cadarnhaol ar PC newydd, y rhai a oedd â phryderon, a'r rhai a oedd yn niwtral ar y pryd.

Roedd y rhai a oedd â safbwynt cefnogol yn ystyried bod PC yn fecanwaith cadarnhaol a allai godi proffil yr ardal, denu buddsoddiad, a thrwy hynny gefnogi'r economi leol. Gallai'r cyfleoedd hamdden a mynediad gwell o bosibl ddarparu cyfleoedd iechyd gan helpu, ee i fynd i'r afael â'r argyfwng gordewdra.

Cododd y rhai a oedd â phersbectif negyddol bryderon y byddai PC newydd yn arwain at bwysau ymwelwyr / twristiaeth ychwanegol a allai effeithio ar y gwasanaethau a'r seilwaith lleol ac arwain at waith â chyflog isel a thymhorol sy'n ymwneud â thwristiaeth yn bennaf. Codwyd pryderon ynghylch y cyflenwad tai a fforddiadwyedd yn y dyfodol ac effeithiau negyddol hynny ar allu pobl leol, y genhedlaeth iau yn arbennig, i aros yn eu cymunedau

a’r effaith negyddol ddilynol ar y Gymraeg a fyddai’n deillio o hynny. Mynegwyd pryderon hefyd y byddai PC newydd yn cyflwyno cyfyngiadau cynllunio ychwanegol gan gyfyngu ar weithgarwch economaidd yn y dyfodol.

Gallai hyn, yn ei dro, gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol gydag effaith andwyol ar yr ymdeimlad o le a’r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae’r ardal o dan ddylanwad amrywiaeth o sbardunau polisi allweddol gan gynnwys amaethyddiaeth, polisïau tai (cyflenwad a fforddiadwyedd), darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith. Byddai angen mynd i'r afael â'r rhain ni waeth a sefydlir PC newydd ai peidio.

Mae'r prif wahaniaeth y byddai dynodiad PC yn ei wneud yn ymwneud â'r cyfle i dynnu adnoddau ychwanegol i lawr er mwyn mynd i'r afael â materion a chyfleoedd mewn ffordd integredig wedi'i llywio gan gynllun rheoli PC.

Yn ogystal, mae PCau yn dirweddau diwylliannol gyda phoblogaeth breswyl ac mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (o dan adran 62(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) i fwrw ymlaen â dibenion PC i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y PC gan integreiddio amcanion cymdeithasol ac economaidd gyda chadwraeth a rheolaeth nodweddion arbennig ardaloedd dynodedig. Wrth wneud hynny mae angen iddynt weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyrff cyhoeddus eraill.

Rydym yn cydnabod yr angen i gasglu a mynegi’n glir y manteision a’r anfanteision posibl a fyddai’n deillio o ddynodi PC newydd a byddwn yn comisiynu tystiolaeth i helpu i lywio’r gwaith o ymgysylltu, ymgynghori a gwneud penderfyniadau yn gliriach yn y dyfodol.

### Thema 6: Mynediad a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored

Mynediad a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored oedd y chweched thema a grybwyllwyd amlaf. Teimlai llawer y gallai PC fod yn gadarnhaol o ran darparu cyfleoedd i bobl brofi harddwch naturiol a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a fyddai’n fuddiol i iechyd a llesiant. Roedd llawer o’r farn bod angen mwy o addysg neu addysg ychwanegol ar dwristiaeth gyfrifol a gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â chynnydd mewn llwybrau a chyfleusterau a gwelliannau i arwyddion a chynnal a chadw'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

Roedd rhai o’r ymatebwyr yn pryderu y gallai PC gael effeithiau negyddol drwy esgor ar fewnlifiad o bobl a fyddai’n erydu’r llonyddwch a’r gwylltineb ac na fyddai pwerau digonol ar gael i ymdrin â phroblemau fel tresmasu, tarfu ar dda byw, a difrod i safleoedd a chynefinoedd bregus.

Byddai PC yn gallu mynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch mynediad a gweithgareddau hamdden a darparu cyfleoedd i wella mynediad a gweithgareddau hamdden.

Ail ddiben y PCau yw hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu nodweddion arbennig. Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn diffinio bod rhaid i Barc Cenedlaethol fod yn ‘ardal helaeth o wlad yng Nghymru’.

Harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored yw'r meini prawf dynodi y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ardal gael ei dynodi'n PC. Wrth ystyried cyfleoedd a ddarperir ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored, gellir ystyried i ba raddau y mae'n bosibl hyrwyddo cyfleoedd er mwyn i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig ardal (Adran (2(A)(b)) NPAC 1949).

Nid oes diffiniad cyfreithiol o’r hyn y mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored yn ei olygu yn y cyd-destun hwn ac eithrio:

- bod rhaid iddynt fod yn gemau awyr agored ac nid yn gemau wedi'u trefnu
- bod rhaid bod yn ystyriol i'r tir
- ei fod yn darparu profiad hamdden hynod well

Nid yw cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored wedi’u cyfyngu i’r ddarpariaeth bresennol: gellir ystyried potensial ardal i gynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn y dyfodol.

Er y rhoddir ystyriaeth i faint o weithgareddau hamdden yn yr awyr agored a gynigir, dylai ansawdd y profiad hwnnw fod yn well na'r hyn a geir fel arfer yng nghefn gwlad ehangach.

Dylai’r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden sydd i'w hystyried fod yn gyson â chadwraeth a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, gan gynnwys nodi'r effeithiau ar dawelwch y ffactor harddwch naturiol. Felly mae'n debygol mai gweithgareddau hamdden tawel yn yr awyr agored sydd fwyaf priodol.

Mae PCau yn darparu canolfannau i ymwelwyr, canllawiau, llyfrau, rheolaeth safleoedd, cynnal hawliau tramwy ac yn gweithredu gwasanaethau ceidwaid amser llawn (ARUP 2013).

Drwy eu cynllun rheoli a’u cynlluniau gweithredu cysylltiedig, gall PCau ddarparu ffocws ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â mynediad a gweithgareddau hamdden i hybu dealltwriaeth a mwynhad o'r ardal. Mae PC Arfordir Penfro wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Hamdden Cynaliadwy a Rheoli Ymwelwyr (NP Arfordir Penfro 2020) i fynd i’r afael â’r mater hwn.

Mae PCau yn darparu addysg a chyngor ar fynediad, trafnidiaeth, ac ymddygiad cyfrifol ee gyda chŵn. Mae PC y Cairngorms yn yr Alban yn darparu gwybodaeth ar ei wefan am ymweld â chŵn a mynediad i bawb (Ymweld â Cairngorms / PC y Cairngorms 2024). Mae PCau yn llunio strategaethau hamdden (PC Eryri 2024) ac yn gweithio ar reoli ymwelwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus (PC Arfordir Penfro 2024).

Gall y PCau ddenu cyllid, mewn partneriaeth â chyrff eraill fel CNC, a Chymdeithas y Cerddwyr i wella mynediad a gweithgareddau hamdden yn eu hardaloedd. Gall hyn gynnwys gosod llwybrau newydd, atgyweirio llwybrau a chamfeydd, a gwella arwyddion.

Mae PC Bannau Brycheiniog yn cynnal prosiect ar erydiad llwybrau ucheldirol ac yn cefnogi ‘Muddy Care’, y Cwmni Buddiant Cymunedol, drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (PC Bannau Brycheiniog 2024).

### Thema 7: Prisiau tai ac ail gartrefi

Costau tai a chyffredinolrwydd ail gartrefi oedd y  seithfed thema a grybwyllwyd amlaf.

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr ar y thema hon yn negyddol neu’n bryderus ynghylch y posibilrwydd o Barc Cenedlaethau newydd ac yn teimlo y byddai prisiau tai yn codi pe bai Parc yn cael ei sefydlu. Teimlai rhai y byddai'r farchnad ail gartrefi a ‘prynu i osod’ yn tyfu pe byddai PC yn cael ei ddynodi, ac y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn prisiau.

Soniodd y rhai a nododd eu bod yn gadarnhaol neu'n optimistaidd am y PC arfaethedig am dai yn llai aml. Pan wnaethant hynny, roeddent yn cyfeirio at y posibilrwydd y byddai awdurdod Parciau Cenedlaethol yn atal datblygu annymunol. Roedd lleiafrif o'r farn bod cynnydd mewn prisiau tai yn ddymunol.

Y cwestiwn y byddwn yn mynd i'r afael ag ef yw; sut y gallai PC newydd ddylanwadu ar brisiau tai a'r farchnad ail gartrefi?

Roedd pris tŷ cyfartalog ar gyfer y pum awdurdod lleol y gallai’r cynnig ar gyfer PC newydd gael arnynt tua £226,000 yn 2023, £8,000 yn is na’r cyfartaledd yng Nghymru (£234,086) a £62,000 yn is na’r cyfartaledd yn y DU (£288,000). Oherwydd cyfraddau llog cynyddol, gostyngodd prisiau tai yn 2023 fel y gwnaethant ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Yn Sir Ddinbych a Phowys gwelwyd gostyngiadau digid dwbl sylweddol (Principality 2024).


Mae’r sefyllfa dai o fewn yr Ardal Chwilio yn nodweddiadol o batrwm y DU sy’n atgyfnerthu’r ffaith bod prisiau’n cael eu dylanwadu’n bennaf gan rymoedd economaidd sy’n ehangach o lawer na  ffactorau lleol.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, dyfynnwyd yn aml y gall PCau roi ‘Hwb o hyd at 25% i brisiau tai’. Ymddengys mai ffynhonnell y ffigwr hwn yw adroddiad arbennig gan fynegai prisiau tai Nationwide. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir mai harddwch naturiol, cyfleoedd awyr agored, a ffordd o fyw gwledig yw'r prif ddylanwadau yn hytrach na'r PCau eu hunain, er ei fod yn awgrymu y byddai rheolaethau ar ddatblygu hefyd yn ‘cyfrannu at y darlun hwn’. Ond eto, mae ffactorau macroeconomaidd yn cael mwy o ddylanwad na dylanwadau lleol. Hyd yn oed o fewn Eryri, roedd pris tŷ cyfartalog a oedd ‘wedi'i hybu’ i bob golwg yn £184,000 yn 2022, sef £110,000 yn is na’r cyfartaledd yn y DU ar gyfer yr un flwyddyn (Nationwide 2024).

Er bod dylanwadau macroeconomaidd megis cyflogau, cyfraddau llog, ac ymddygiadau bancio yn dominyddu’r darlun, gallai mynychder ail gartrefi fel cyfran o’r stoc dai sydd ar gael gael dylanwad mwy arwyddocaol mewn ardaloedd lle mae’r gyfran yn anarferol o uchel.

Nid yw'r data ar ail gartrefi yn glir oherwydd eu bod wedi'u diffinio'n wael fel categori a gallant gynnwys unrhyw beth rhwng cartrefi gwyliau i lety milwrol a llety myfyrwyr neu eiddo gwag. Fodd bynnag, mae’r cyfanswm yng Nghymru wedi aros ychydig yn llai na 25,000 o eiddo dros y chwe blynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru 2023). Mae gennym ddiddordeb penodol mewn cartrefi gwyliau a fyddai fel arall yn addas ar gyfer preswylfa barhaol (hy heb gynnwys cyfeiriadau rhieni a llety myfyrwyr neu lety dros dro fel glampio a charafanio). Credir bod y ffigur perthnasol yma yn nes at 10,000 o eiddo yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2024). Yn y naill achos a’r llall, mae hyn yn cynrychioli rhwng 1.7% a 0.7% o’r 1.43 miliwn o gartrefi yng Nghymru.

Mae map a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru (gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021) yn dangos y mannau sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau. Mae'r SYG hefyd wedi gosod ffiniau PC dros y data hwn. Mae Ffigur 8 yn dangos bod gan ogledd-orllewin Cymru gyfraddau uchel o gartrefi gwyliau. O fewn Eryri, y parth arfordirol rhwng Porthmadog ac Aberdyfi yw'r uchaf. Fodd bynnag, mae cydberthynas wan rhwng y ‘mannau sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau’ a'r PCau, hyd yn oed yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'r cyfraddau uchaf oll i'w cael y tu allan i'r PC.




*Ffigur 7: Mannau sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau – Lleoliad ail gyfeiriadau a ddefnyddir fel cartref gwyliau (yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, Cymru a Lloegr) (SYG 2024)*

Mae cydberthynas gref rhwng y mannau sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau ag ardaloedd gwledig hardd ac yn arbennig cyrchfannau gwyliau *arfordirol*. Ar y llaw arall, nid oes gan ardaloedd mewndirol, (gan gynnwys PCau fel Bannau Brycheiniog, y Peak District a Dartmoor) gyfraddau uwch o berchenogaeth cartrefi gwyliau na’r lefel gefndir ar y raddfa hon (rhwng 0.2% a 3% o anheddau, Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024)

Mae ail gartrefi yn y mannau hyn sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau wedi’u cysylltu ag effeithiau cymdeithasol a diwylliannol negyddol eraill, megis erydu’r Gymraeg. Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill i gyd wedi cydnabod pryderon ynghylch ail gartrefi. Roedd cyllideb y DU ym mis Mawrth 2024 yn dileu cymhellion treth ar gyfer gosodiadau tymor byr o blaid cytundebau rhentu hirdymor ac yn annog yn ariannol ryddhau ail eiddo ar werth (Llyfrgell yr Arglwyddi 2024).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyfres o gamau gweithredu i fynd i’r afael ag argaeledd tai yng Nghymru megis y ‘dull tair elfen’, y ‘Cynllun Tai Cymunedol Cymraeg’, a newidiadau rheoleiddiol megis cynnydd yn ffi’r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi a rheolau treth leol ar gyfer gosodiadau gwyliau (Llywodraeth Cymru 2024). Mae PC Eryri yn ymgynghori ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal y parc. Byddai hyn, o’i weithredu, yn golygu y byddai angen ar y rhai sy’n dymuno newid eiddo preswyl i naill ai ail gartrefi neu osod tymor byr gael caniatâd cynllunio i wneud hynny (PC Eryri 2024).

I gloi, mae fforddiadwyedd tai ym mhob rhan o’r DU yn bennaf yn ddibynnol ar ddylanwadau economaidd cenedlaethol ac i raddau llai, ddylanwadau rhanbarthol. Mae prisiau yn ardal yr astudiaeth yn gyffredinol yn nodweddiadol o'r patrwm hwn ond yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU a Chymru. Roeddent hefyd yn gostwng yn 2023 yn unol â'r duedd genedlaethol. Mae ail gartrefi yn cyfrif am rhwng 0.2% a 3% o'r stoc dai yn yr ardal ac ychydig iawn o ddylanwad sydd ganddynt ar fforddiadwyedd tai. Gall hyn fod yn wahanol mewn rhai ardaloedd sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau ond ni nododd data cyfrifiad 2021 unrhyw fannau â nifer fawr o gartrefi gwyliau yn ardal yr astudiaeth. Mae’r mannau sydd â’r nifer fwyaf o gartrefi gwyliau wedi'u lleoli'n bennaf mewn cyrchfannau gwyliau arfordirol sydd wedi'u hen sefydlu ac nid oes cydberthynas dda rhyngddynt a PCau, yn enwedig i ffwrdd o'r arfordir.

Serch hynny, yn y crynodiadau isel a geir yn yr ardal, mae'n bosibl y gallai ail gartrefi gael effeithiau cymdeithasol neu ddiwylliannol negyddol eraill a fyddai'n parhau i fod yn bryder. Mae’r pryderon hyn wedi’u cydnabod ac wedi dechrau cael sylw ar lefel y DU, lefel Cymru ac ar lefel llywodraeth leol. Pe bai'n cael ei sefydlu, byddai PC newydd yn darparu mecanwaith ychwanegol, drwy weithredu Erthygl 4 i gyfyngu ymhellach ar ail gartrefi a gosodiadau gwyliau o fewn ei ffiniau.

## Thema 8: Diwylliant a threftadaeth

Diwylliant a threftadaeth oedd yr wythfed thema a grybwyllwyd amlaf. Teimlai llawer o’r ymatebwyr fod yr ardal yn bwysig oherwydd ei chymunedau a'i diwylliant Cymreig ac y gallai PC helpu i warchod iaith, treftadaeth ac arferion yr ardal. Pwysleisiwyd pwysigrwydd traddodiadau lleol, arferion ffermio, a phentrefi ac eglwysi hanesyddol. Nodwyd hanes pobl leol, treftadaeth ddiwydiannol mwyngloddio plwm a chwarela yn ogystal â bryngaerau hynafol a strwythurau brodorol fel elfennau y gallai PC helpu i'w hadfer a'u hyrwyddo. Gallai llwybrau pellter hir a llwybrau Pererinion ac atyniadau treftadaeth fod yn fuddiol i'r economi leol drwy eu hyrwyddo drwy PC.

Teimlai rhai y gellid ehangu’r ardal i gynnwys bryngaer Caer Estyn yn ogystal â Chastell Caergwrle ac eglwys Hope, gan ffurfio tirwedd gydlynol o Gaer Estyn hyd at Fynydd yr Hob. Treftadaeth ddiwylliannol arall y gellid ei chynnwys fyddai Malltrafal, Pentre Fort, a rheilffordd Llanfairlight, gan gynnwys dyffryn Meifod i gyd gyda'i eglwys hanesyddol ac adeiladau rhestredig. Gellid ystyried cynnwys parciau cofrestredig yn Neuadd Bryn Gwyn, Neuadd Wynnstay, Stad a Chapel Rhug, Neuadd Nequis, Tŵr a Neuadd Coed-llai ger Treuddyn. *(Gweler thema 10 ar newidiadau i ffiniau).*

Roedd rhai o’r ymatebwyr yn pryderu y gallai PC gael effeithiau negyddol ar y Gymraeg oherwydd y mewnlifiad o ymwelwyr a chynnydd mewn ail gartrefi.

Byddai PC yn gallu mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a darparu cyfleoedd i gadw a gwella treftadaeth ddiwylliannol.

Mae prif ddiben y PCau yn cynnwys cadw a gwella treftadaeth ddiwylliannol. Drwy'r cynllun rheoli a chynlluniau gweithredu cysylltiedig, gall PCau ddarparu ffocws ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, a hyrwyddo cyfranogiad cymunedol, addysg, dealltwriaeth a mwynhad o dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae PC Bannau Brycheiniog wedi llunio Cynllun Gweithredu Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer y parc sy’n cynnwys mesurau i hyrwyddo’r Gymraeg ac enwau lleoedd (PC Bannau Brycheiniog 2023). Mae hyrwyddiad diweddar yr enwau Cymraeg ar gyfer Eryri a Bannau Brycheiniog yn adlewyrchu tuedd gynyddol i hyrwyddo’r iaith a’r ymdeimlad o hunaniaeth a ddaw yn ei sgil.

Mae PCau yn cynnwys llawer o asedau treftadaeth o fewn eu ffiniau ac yn aml yn gorgyffwrdd â Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Gallant ddenu arian, mewn partneriaeth â chyrff eraill megis Cadw a'r Ymddiriedolaethau Archeolegol i gynnal prosiectau treftadaeth a hyrwyddo crefftau traddodiadol megis gosod cloddiau a chodi waliau sychion. Er enghraifft, mae PC Arfordir Penfro yn cynnal cynllun grant ffiniau traddodiadol (PC Arfordir Penfro 2023) ac mae PC Bannau Brycheiniog yn cynnal prosiect ‘Amserau Ffrwydrol’ sy'n canolbwyntio ar waith Powdwr Gwn Glyn-nedd (PC Bannau Brycheiniog 2023).

## Thema 9: Goblygiadau cynllunio ac ynni adnewyddadwy

Roedd y nawfed thema a grybwyllwyd fwyaf yn ymwneud â rôl y system cynllunio defnydd tir mewn PC.

Roedd rhai o’r ymatebwyr o'r farn y byddai PC yn cynnig cyfle cadarnhaol wella’r prosesau cynllunio yn yr ardal a’i gwarchod rhag datblygu anghydnaws.

Roedd ymatebwyr eraill yn bryderus y byddai PC yn cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar dir a pherchnogion tai a gofynnwyd am wybodaeth am sut y byddai gwasanaethau cynllunio yn cael eu darparu mewn PC.

Codwyd yr angen i egluro'r berthynas gyda'r gwasanaeth cynllunio presennol yn yr ardal ynghyd â'r angen i gael gwybodaeth am sut y byddai trefniadau pontio yn y dyfodol yn gweithredu.

## Awdurdod Parciau Cenedlaethol

Byddai gan ardal a ddynodwyd yn BC Awdurdod PC a hwn fyddai'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ardal y PC. Byddai'n gyfrifol am baratoi cynllun datblygu lleol, cynllun rheoli, ac am y system rheoli datblygu.

Gall PC roi polisïau a chanllawiau manwl ar waith er mwyn gwella ansawdd a dyluniad adeiladau a datblygiadau eraill. Mae integreiddio cynllun rheoli'r PC a'r cynllun datblygu lleol yn rhoi cyfle i fynd i'r afael a'r argyfyngau hinsawdd a natur gyda'i gilydd.

## Polisïau

Mae'r fframwaith polisi ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, 2023) a Chymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2024 (Llywodraeth Cymru 2021). Mae gan y PCau a'r AHNEau statws cyfartal o ran tirwedd a harddwch golygfaol a rhaid rhoi'r statws amddiffyn uchaf iddynt rhag datblygiadau amhriodol. Ni ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn PCau nac AHNEau ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol pan ellir dangos bod angen cyhoeddus tra phwysig ar ôl cynnal archwiliad trylwyr.

## Caniatâd cynllunio

Mae angen caniatâd cynllunio i adeiladu rhywbeth newydd, i wneud newid mawr i adeilad neu i newid defnydd adeilad.

O dan rai amgylchiadau, mae hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu i rai mathau o waith gael eu gwneud heb yr angen i gael caniatâd cynllunio. Nid yw'r rhain bob amser yn berthnasol mewn PCau neu AHNEau.

I gynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu trosolwg ac eglurder i randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd ynghylch goblygiadau tirwedd ddynodedig ar gynllunio rydym wedi paratoi'r Nodyn Briffio – Goblygiadau Tirweddau Dynodedig ar Gynllunio (sydd i'w weld ar wefan ein prosiect).

Mae'n bwysig nodi, er y gallai fod cyfyngiadau ychwanegol o ran hawliau datblygu a ganiateir, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y datblygiadau cysylltiedig hyn yn annerbyniol. Pan fo'r darpariaethau ychwanegol hyn mewn effaith bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cais cynllunio llawn i Awdurdod y PC ac, yn amodol ar gynnal trafodaethau priodol ac adeiladol, mae'n dal yn bosibl cyflawni canlyniad llwyddiannus ar gyfer y datblygiadau arfaethedig hynny mewn PC.

O gymharu ystadegau rhwng awdurdodau cynllunio lleol Cymru ac awdurdodau cynllunio PCau rhwng 2016-2022 gellir gweld bod y gyfradd gymeradwyo ychydig yn uwch (91.4%)

yn awdurdodau'r PCau o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn (90.1%) (Adroddiadau Gwasanaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru 2020).

**Trefniadau pontio**

Bydd goblygiadau awdurdod PC newydd arfaethedig ar y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol – yn benodol cynllunio defnydd tir – yn cael eu trafod a'u hystyried drwy gydol y broses ddynodi.

**Ynni adnewyddadwy**

Teimlai llawer o'r ymatebwyr y gallai PC fod yn gadarnhaol o ran cyfyngu ar nifer y datblygiadau ynni gwynt a ffermydd solar, ac roeddent am weld yr ardal yn cael ei gwarchod rhag y math hwn o ddatblygiad a rhag llinellau peilonau ar raddfa fawr i wella'r Grid Cenedlaethol. Teimlai eraill na ddylai PC atal y math hwn o ddatblygiad gan fod angen ynni gwyrdd, ond y dylid ei gynllunio'n ofalus.

Byddai PC yn gallu mynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy mawr a darparu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach.

Mewn PCau "mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr sydd o natur fwy cenedlaethol na lleol" (Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 2023).

Fel yr amlinellwyd uchod, ni ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn PCau ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru 2021) yn nodi'r dull polisi o ymdrin ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Ni chaniateir datblygiadau gwynt a solar ar raddfa fawr mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Nodir ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt, lle byddai datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr a'r newid cysylltiedig yn y dirwedd yn dderbyniol, mewn egwyddor. Ni chaniateir datblygiadau gwynt a solar ar raddfa fawr mewn PCau ac AHNEau (Tirweddau Cenedlaethol), felly nid yw ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt wedi'u lleoli o fewn y dynodiadau hyn. Y tu allan i'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw, ac ym mhobman ar gyfer yr holl dechnolegau eraill, ni ddylai cynigion gael effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd o amgylch (yn enwedig ar osodiad PCau ac AHNEau).

Gall PCau roi arweiniad drwy eu polisïau cynllunio ynghylch y raddfa a'r math priodol o ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd. Mae Awdurdod PC Arfordir Penfro wedi llunio Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy i'w gynllun datblygu lleol, gan gynnwys canllawiau ar sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiadau ynni solar ffotofoltäig ac ynni gwynt ar raddfa cae (PC Arfordir Penfro 2014). Gall PCau hefyd hyrwyddo cynlluniau ynni gwyrdd sensitif ar raddfa fach ac effeithlonrwydd adeiladau drwy ddenu cymorth grant i'w hardal. Enghraifft o hyn yw cynllun Archwiliadau a Grantiau Ynni Adeiladau Cymunedol PC Bannau Brycheiniog i gefnogi'r gwaith o reoli adeiladau cymunedol mewn ffordd effeithlon o ran ynni (PC Bannau Brychieiniog 2024).

## Thema 10: Ymholiadau ynghylch ffiniau

Sylwadau ynghylch newidiadau i ffiniau’r Ardal Chwilio oedd y ddegfed thema a grybwyllwyd amlaf yn yr holiadur. Roedd yr ymatebion yn cynnwys ceisiadau i estyn yr Ardal Chwilio fel ei bod yn cynnwys tirweddau sydd y tu allan i ardal yr astudiaeth ar hyn o bryd; ac eithrio ardaloedd o fewn ardal yr astudiaeth.

Gwnaethom ofyn i bobl gefnogi eu cyflwyniad gyda thystiolaeth ynghylch sut roedd yr ardal yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddi yn bodloni neu ddim yn bodloni meini prawf harddwch naturiol a hamdden (sef y meini prawf ar gyfer dynodi PC). Drwy wneud hyn, ochr yn ochr â diffinio ‘darn helaeth o dir sy'n bodloni'r meini prawf’, gwnaethom gynnal y dadansoddiad wrth bennu'r Ardal Chwilio.

Roedd sawl thema yn gysylltiedig â’r Ardal Chwilio:

- Cefnogaeth ar gyfer ardaloedd ychwanegol ar sail barn bersonol ynglŷn â’r dirwedd, y bywyd gwyllt, y dreftadaeth ddiwylliannol, a’r gwerth hamdden.
- Yr angen i warchod tirwedd rhag datblygu amhriodol.
- Gwahardd ardaloedd oherwydd pryderon ynghylch effeithiau cymdeithasol ac economaidd ar gymunedau lleol.
- Eithrio ardaloedd oherwydd pryderon am yr effeithiau ffisegol ar fywyd gwyllt, ffermio a chyrchfannau ymwelwyr.
- Dylid tynnu'r Ardal Chwilio o amgylch dalgylchoedd dŵr.

Isod, rydym yn nodi'r ardaloedd penodol a dynnodd pobl ein sylw atynt, ein hadolygiad, a’n penderfyniad ynghylch yr ardal astudiaeth a fydd yn cael ei hystyried yn ystod cam nesaf y prosiect, sef gwerthuso Darpar-ardal ar gyfer PC.

**Bydd yr ardaloedd canlynol yn mynd ymlaen i gael eu gwerthuso yn ystod cam nesaf y prosiect:**

**Mynydd Helygain**

Roedd y sylwadau a godwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys gadael Mynydd Helygain fel ag y mae, er mwyn osgoi’r posibilrwydd y gallai dynodiad PC greu diddordeb a phwysau ychwanegol arno. Codwyd pryderon ynghylch yr effeithiau y byddai mwy o ymwelwyr yn eu cael ar gymunedau, bywyd gwyllt, treftadaeth, a phori defaid. Mae prosiect y PC yn ei gwneud yn ofynnol i CNC asesu'r dymunoldeb i ddynodi. Yn ystod y cam hwn caiff manteision ac anfanteision dynodi PC newydd eu gwerthuso.

**Y tirweddau o fewn Powys**

Roedd y sylwadau a godwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys eithrio'r tirweddau ym Mhowys oherwydd pryderon ynghylch yr effeithiau ar gymunedau lleol a ffermio. Mae prosiect y PC yn ei gwneud yn ofynnol i CNC asesu'r dymunoldeb i ddynodi. Mae'r gwaith hwn wedi'i amserlennu i ddigwydd y flwyddyn nesaf. Yn ystod y cam hwn caiff manteision ac anfanteision dynodi PC newydd eu pwyso a’u mesur.

**Yr ardal i'r gogledd o Fynydd yr Hob**

Yn flaenorol lluniwyd yr Ardal Chwilio i ddilyn yn agos yr ardaloedd mwyaf cyfan o harddwch naturiol yn y dirwedd o amgylch Mynydd yr Hob ac ar hyd Dyffryn Nant y Ffrith. Mae gan yr ardal i'r gogledd o Fynydd yr Hob nifer o elfennau harddwch naturiol nodedig ond hefyd rhai ffactorau sy'n amharu ar y dirwedd:

Mae'r dyffrynnoedd afon coediog yn nodwedd weledol gref o'r dirwedd ac yn gweithredu fel rhwydwaith o gynefinoedd. Mae cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn bresennol. Mae'r llethrau sy'n ymestyn tua'r gogledd-orllewin o Fynydd yr Hob i'r Wyddgrug ar hyd yr A541 yn cynnwys parcdir Lees Wood Hall. Mae cymeriad parcdir yn arbennig o amlwg a nodedig.

Mae llinellau 400KV uwchben a thyrau peilonau yn croesi rhan o'r ardal. Mae rhai o'r pentrefi yn drefol eu ffurf ac yn amlwg yn y dirwedd. Mae'r ardaloedd datblygu hyn yn cael rhywfaint o effaith ar hynodrwydd y dirwedd a'r ansawdd golygfaol.
Mae angen cynnal asesiad pellach o'r ardal hon er mwyn barnu a ellir nodi ardal gyfan a chydlynol o dirwedd gyda harddwch naturiol.

**Dyffryn Clywedog – Y Bers**
Lluniwyd yr Ardal Chwilio yn flaenorol ac eithrio'r dyffryn bach hwn oherwydd dylanwadau datblygu (llinellau pŵer 400kv uwchben a pheilonau ac ymyl anheddiad Coedpoeth) ar dirwedd i'r gorllewin lle mae'r dyffryn yn cwrdd â'r AHNE presennol.
Mae'r dyffryn yn cynnwys elfennau o harddwch naturiol nodedig – ceunant coetir, afon a rhaeadrau, a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth; treftadaeth gwaith haearn yn y Bers a threftadaeth mwyngloddio plwm yn y Mwynglawdd; a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored – mae canolfan ymwelwyr Melin y Nant, coedlan Plas Power, a choedwig Melin y Nant yn Safleoedd Coed Cadw, ac mae Llwybr Clywedog yn dilyn y dyffryn sy'n cysylltu'r AHNE ag Ystad Erddig (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Wrecsam. Mae angen cynnal asesiad pellach o'r ardal hon.

**Parc yn y gorffennol**
Mae hwn yn hen safle chwarel tywod a graean, gyda llyn a chynefinoedd lled-naturiol sy'n esblygu. Mae'n Safle o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC Chwarel Fagl Lane) sy'n cynnwys rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth a chynefinoedd â blaenoriaeth. Mae mynediad i'r safle yn amodol, ond mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden tawel yn yr awyr agored gan gynnwys teithiau cerdded, nofio, canŵio a physgota. Tra bo'r cyfleusterau i ymwelwyr, y mannau parcio a'r adeiladau yn ymarferol ac yn elfennol mae'r safle'n cynnwys elfennau o harddwch naturiol a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored. Mae angen cynnal asesiad pellach o'r safle.

**Bryngaer Caer Estyn**
Roedd agosrwydd bryngaer Caer Estyn i Gastell Caergwrle a Mynydd yr Hob wedi arwain at yr awgrym i gynnwys yr ardal hon. Mae'n ardal fach o goetir gyda heneb gofrestredig ac mae'n dirwedd ar raddfa fwy lleol nag ardaloedd a nodir fel arfer i'w cynnwys mewn PCau. Fodd bynnag, mae yna elfennau harddwch naturiol a pheth arwyddocâd treftadaeth yma. Saif bryngaer Caer Estyn a Chastell Caergwrle gyferbyn â'i gilydd ar groesfan i'r afon. Mae rhan o Glawdd Wat yn cydgyfeirio tuag at y lleoliad hwn. Mae Ardal Gadwraeth Caergwrle yn cynnwys Castell Caergwrle, dyffryn yr afon, a'r anheddiad sy'n leinio'r afon.

Mae'r Ardal Gadwraeth yn ffinio â safle coetir bryngaer Caer Estyn.  Mae hyn yn cyfiawnhau estyn ardal yr astudiaeth dros ardal o anheddiad i gynnwys bryngaer Caer Estyn.

**Mynydd Mynyllod a Dyffryn Dyfrdwy yn Llandrillo**
Ar sail tystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu, rydym wedi adolygu'r achos dros gynnwys Mynydd Mynyllod a Dyffryn Dyfrdwy yn Llandrillo
yn yr Ardal Chwilio.

Cawsom dystiolaeth am rywogaethau a warchodir, pwysigrwydd yr ardal hon i'r gylfinir, a lleoliad nodweddion treftadaeth.

Codwyd cwestiynau am LANDMAP. Mae ymweliadau â'r safle wedi arwain at ail-werthuso'r asesiad gweledol a synhwyraidd.  Mae sawl maes agwedd wedi'u diwygio ers hynny a nifer o werthusiadau cyffredinol cymedrol wedi'u hasesu i fod yn werthusiadau cyffredinol uchel.  Mae hyn yn dangos bod gan Fynydd Mynyllod, y llethrau coediog, a llawr Dyffryn Dyfrdwy yn Llandderfel gymeriad ac ansawdd golygfaol nodedig. Gyda'i gilydd, mae'r ardaloedd hyn yn cysylltu â'r Ardal Chwilio ger Llandderfel.

Mae'r cyfuniad o'r wybodaeth ychwanegol a gafwyd ac ailwerthuso LANDMAP yn awgrymu bod mwy o elfennau o harddwch naturiol yn bresennol o fewn ardal ehangach Dyffryn Dyfrdwy nag a aseswyd yn flaenorol. Er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r ardal hon gael ei hasesu o fewn ei therfynau topograffigol rhesymegol, bydd ardal yr astudiaeth yn cynnwys llawr y dyffryn rhwng Llandderfel a Chorwen a'r llethrau a'r gefnen i'r gogledd-orllewin.

**Parcdiroedd Neuadd Bryn Gwyn a Stad Rhug**
Mae mân addasiad wedi'i wneud i ardal yr astudiaeth er mwyn cynnwys parcdir Neuadd Bryn Gwyn yn llawn. Mae gan Stad Rhug gymeriad parcdir a gwerth treftadaeth nodedig. Mae'r parcdir wedi'i gynnwys ac mae'n cydfodoli â diwygiadau a wnaed ar gyfer Mynydd Mynyllod a Dyffryn Dyfrdwy yn Llandrillo.

**Ni fydd yr ardaloedd canlynol yn mynd ymlaen i gael eu gwerthuso yn ystod cam nesaf y prosiect:**

**Mynydd Hiraethog**
Mae gan y Rhosydd berthynas ddaearyddol agos ag Eryri. Mae'r dirwedd rhwng y gweunydd ac Ardal Chwilio'r PC yn cynnwys darn mawr o dir gydag elfennau o harddwch naturiol gwasgaredig. Mae Fferm Wynt Clocaenog yn cael effaith fawr ar ganfyddiadau o ansawdd golygfaol a llonyddwch (sy'n elfennau allweddol o'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol). O'n dadansoddiad, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r llain o dir rhwng Mynydd Hiraethog a'r Ardal Chwilio yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol i raddau digonol. Felly ni fydd yr ardal hon yn mynd ymlaen i gael ei gwerthuso yn ystod cam nesaf y prosiect.

**Llyn Brenig a Choedwig Clocaenog**

Mae pocedi o gynefinoedd a threftadaeth bwysig yng nghyffiniau Llyn Brenig ac mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ar gael. Fodd bynnag, mae datblygiadau fferm wynt mawr yng Nghoedwig Clocaenog yn effeithio ar y canfyddiadau o hynodrwydd y dirwedd, yr ansawdd golygfaol, a'r llonyddwch (sy'n elfennau allweddol o'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol). Er bod yr ardal yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesu gweithgareddau hamdden, rhaid bodloni'r meini prawf asesu harddwch naturiol yn gyntaf cyn y gellir ystyried ei chynnwys o fewn PC. Felly ni fydd yr ardal hon yn mynd ymlaen i gael ei gwerthuso yn ystod cam nesaf y prosiect.

**Dyffryn Clwyd**
Mae gan ardaloedd canolig a dwyreiniol y dyffryn berthynas weledol a daearyddol gref â Bryniau Clwyd ac mae ganddynt nodweddion treftadaeth a bywyd gwyllt, aneddiadau hanesyddol, a dylanwadau modern cyfyngedig. Mae aneddiadau, ffyrdd a gweithgarwch yn dylanwadu'n fwy ar orllewin y dyffryn ac mae'r dirwedd yn llai nodedig. Felly nid ydym yn cynnig cynnwys Dyffryn Clwyd yn ei gyfanrwydd yn y cam asesu nesaf.

**Pantasaph**
Mae'r A55 yn rhwystr i gysylltu Pantasaph â'r Ardal Chwilio. Mae'r ffordd yn effeithio ar gymeriad y dirwedd, cyfanrwydd a llonyddwch, ac felly'n effeithio'n negyddol ar y canfyddiadau o harddwch naturiol. Yn y sefyllfa hon, nid yw'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol wedi'u bodloni.

**Parc Gwepra**
Mae Parc Gwepra gryn bellter o'r Ardal Chwilio bresennol. Byddai cysylltu'r ardaloedd hyn yn golygu cynnwys ardal helaeth o dirwedd nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol.

**Parcdiroedd Neuadd Nerquis, Tŵr a Neuadd Wynnstay**
Nid yw Neuadd a Thŵr Nerquis wedi'u cynnwys. Mae eu gwerth treftadaeth yn bodoli o fewn y safle gyda dylanwad cyfyngedig ar gymeriad y dirwedd ehangach. Mae'r safleoedd yn breifat ac nid ydynt yn darparu cyfleoedd ar gyfer cael mynediad cyhoeddus a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored. Er eu bod yn safleoedd o werth treftadaeth pwysig, nid yw'r meini prawf ar gyfer asesu gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored wedi'u bodloni.

Saif Neuadd Wynnstay gryn bellter o'r Ardal Chwilio bresennol. Byddai cysylltu'r ardaloedd hyn yn golygu cynnwys ardal helaeth o dirwedd nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol.

**Rhuthun**
Mae'r dref yn cynnwys Ardal Gadwraeth, tai o'r 20$^{fed}$/21$^{ain}$ ganrif, ac ardaloedd masnachol a diwydiannol. Mae'r rhannau o gefn gwlad agored yr Ardal Gadwraeth yng Nghastell Rhuthun wedi'u cynnwys yn yr Ardal Chwilio. Mae dynodiad PC yn ymwneud yn bennaf â thirweddau, ond gellir cynnwys aneddiadau ac adeiladau o dreftadaeth, cymeriad, a/neu gydberthynas gadarnhaol â thirwedd nodedig. Mae lleoliad y dref ar ymyl ardal yr astudiaeth yn galw am benderfyniad ynghylch a ddylid ei chynnwys yn llawn, neu ei

gwahardd yn llawn. Dim ond rhan fechan o'r dref sydd o werth cadwraeth adeiledig a chymeriad. Felly lluniwyd yr Ardal Chwilio i eithrio'r dref.

**Estyn yr Ardal Chwilio i gynnwys Mynyddoedd Cambria a Phumlumon**
Mae prosiect y PC yn canolbwyntio ar dirweddau o fewn a gerllaw AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae'r AHNE yn cynnwys ymyl ogleddol y Berwyn. Roedd ein gwerthusiad o harddwch naturiol a'n cysylltiad â'r AHNE yn cynnig rheswm i gynnwys ucheldir y Berwyn a'r dyffrynnoedd sy'n croestorri o fewn Ardal Chwilio'r PC, i bwynt lle mae Bryniau'r Berwyn yn gorffen a Mynyddoedd Cambria yn cychwyn. Nid ydym yn bwriadu asesu tirweddau ymhellach i'r de fel rhan o'r prosiect hwn.

**Castell Powys**
Er bod Castell Powys yn cynnwys treftadaeth bwysig a bo'r dyffrynnoedd coediog o amgylch yn nodedig am fywyd gwyllt a chymeriad golygfaol, mae'r dirwedd rhwng ymyl bresennol yr Ardal Chwilio (Dyffryn Meifod) a Chastell Powys yn ardal eang, gyda pheth amrywiaeth o ran harddwch naturiol. Ar sail ein dadansoddiad, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r llain o dir rhwng Castell Powys a'r Ardal Chwilio yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol. Felly ni fydd yr ardal hon yn mynd ymlaen i gael ei gwerthuso yn ystod cam nesaf y prosiect.

**Dylid tynnu'r Ardal Chwilio o amgylch dalgylch afon Dyfrdwy**
Lluniwyd yr Ardal Chwilio i gynnwys tirwedd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol, sy'n ymwneud â hynodrwydd tirwedd, ansawdd golygfaol, bywyd gwyllt, a threftadaeth. Byddai ardal chwilio sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd dŵr yn arwain at ardaloedd â therfynau daearyddol gwahanol iawn ac yn cynnwys tirweddau â chyflyrau amrywiol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesu harddwch naturiol. Mae Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy hefyd yn darparu mecanwaith presennol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd dŵr. Felly nid ydym yn cynnig estyn ardal yr astudiaeth i gynnwys dalgylch afon Dyfrdwy.

## Thema 11: Mae angen rhagor o wybodaeth

Roedd 109 o sylwadau yn gofyn am ragor o wybodaeth. Rhoddodd rhai o'r rhain yr argraff bod yr ymatebwyr o'r farn mai dyma fyddai'r unig gyfle i ymateb, sef mai'r ymgysylltu cynnar *oedd yr* ymgynghoriad mewn gwirionedd. Yn y cyd-destun hwn, roedd yn ddealladwy iddynt deimlo bod yr hysbysiad a'r wybodaeth ategol yn annigonol.

Roedd sylwadau eraill yn awgrymu nad oedd digon o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n sôn am awydd i ddeall y ffeithiau'n well a chael cyd-destun ar gyfer llunio barn.

Er mwyn egluro'r amserlen ymgysylltu ac ymgynghori yn well, mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif gyfleoedd ar gyfer cymryd rhan drwy gydol y broses aml-flwyddyn.

*Tabl. Cerrig milltir ymgysylltu ac ymgynghori*

| **Carreg filltir** | **Dyddiad** |
|---|---|
| CNC wedi’i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac mae tîm wedi’i gynnull. | 2022 |
| Ymgysylltu â'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. | Parhaus drwy gydol 2023 a 2024 |
| **Cyfnod ymgysylltu cyhoeddus**<br><br>(I lywio'r asesiad) | Hydref 2023 |
| Grwpiau cynghori wedi’u sefydlu gyda rhanddeiliaid allweddol. | Gwanwyn 2024 |
| Adroddiad ymgysylltu | Haf 2024 |
| **Ymgynghoriad cyhoeddus**<br><br>(I gael adborth ar gynnig CNC yn dilyn asesiad) | Hydref 2024 |
| Adroddiad ymgynghori | Gwanwyn 2025 |
| **Ymgynghoriad statudol**<br><br>(Ar gyfer ymatebion i'r cynnig terfynol) | Haf / Hydref 2025 |
| Penderfyniad Llywodraeth Cymru. | Yn gynnar yn 2026 |

Cafwyd sawl sylw yn awgrymu bod angen mwy o eglurder ynghylch beth yn union y byddai PC newydd yn ei olygu, ac mae hyn wedi’i gydnabod a'i dderbyn. Mae hyn yn anodd ei wneud cyn i awdurdod parc neu gynllun rheoli gael ei greu. Hefyd, comisiynodd Llywodraeth Cymru CNC i asesu’r achos dros greu Parc Cenedlaethol newydd, ac ni allwn ragdybio canlyniad y broses honno. Erys posibiliadau eraill ar wahân i statws PC megis dim newid, neu fath arall o ddynodi tirwedd. Teimlem felly, ym mis Hydref a mis Tachwedd 2023, nad oedd yn briodol i CNC gyflwyno’r achos o blaid neu yn erbyn opsiynau sydd eto i’w hasesu’n llawn. Fodd bynnag, mae'n hollol gywir ac yn galonogol bod llawer o bobl yn gofyn am fwy o ffeithiau a dadansoddiadau cyn llunio’u barn. Bwriad y weithdrefn asesu yw canfod y ffeithiau hynny cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024. Bydd hefyd yn ystyried adborth pellach a geir yn 2024 cyn i ymgynghoriad statudol gael ei gynnal yn

2025. Nid oedd yn rhesymegol bosibl i gymryd rhan yn gynnar iawn yn y weithdrefn asesu *a* chyflwyno'r ffeithiau a oedd yn dod i'r amlwg *o'r* weithdrefn honno cyn iddynt gael eu canfod. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn bosibl amlinellu'n well yr opsiynau eang sy'n cael eu hystyried, a'u cryfderau a gwendidau *disgwyliedig* mewn ystyr cyffredinol. Byddwn yn mynegi'n glir elfennau allweddol y weithdrefn asesu sy'n ymdrin â'r pwyntiau hyn cyn yr ymgynghoriad yn 2024.

Gobeithiwn y bydd ein gwefan wybodaeth, yr adroddiad hwn, a chrynodebau dilynol o'r gwaith asesu technegol oll yn cyfrannu at drafodaeth gynyddol wybodus yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024 ac wedi hynny.

# 7. Crynodeb

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu o saith wythnos yn 2023, gwnaethom gynnal 11 o ddigwyddiadau galw heibio ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mynychodd 619 o bobl wyneb yn wyneb, mynychodd 105 ar-lein a chawsom 966 o ymatebion i'r holiadur.  Roedd y rhain yn dangos cefnogaeth gyffredinol gyfyng i'r posibilrwydd o greu Parc Cenedlaethol newydd ond roedd gan gyfran sylweddol o'r ymatebwyr bryderon. Roedd y lleiafrif o'r ymatebwyr heb benderfynu.

Trefnwyd yr ymatebion mwyaf cyffredin o dan un ar ddeg o themâu a'u rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd amlaf. Y themâu hyn oedd:

1. Cadwraeth tirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, llonyddwch.
2. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd.
3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith.
4. Yr angen am newid, rheoli a Rheolaethau, Costau, Ariannu, Biwrocratiaeth.
5. Pobl a chymunedau lleol, yr economi leol.
6. Materion mynediad a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored.
7. Tai.
8. Diwylliant a threftadaeth.
9. Goblygiadau cynllunio.
10. Ymholiadau ynghylch ffiniau.
11. Angen rhagor o wybodaeth.

Mae'r weithdrefn asesu wedi'i chynllunio i asesu a yw PC yn briodol neu a fyddai opsiwn arall yn well. Bydd yr adroddiad hwn a chyhoeddiadau pellach yn ymchwilio'n gynyddol i hyn a'r manteision a'r anfanteision o sefydlu PC newydd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei rannu fel rhan o'r wybodaeth ymgynghori yn ystod hydref 2024.

Yn dilyn eich adborth, ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac asesiadau pellach, rydym wedi gwneud penderfyniadau ynghylch y gwahanol ardaloedd yr awgrymwyd eu cynnwys neu eu  heithrio. Bydd Mynydd Helygain, y tirweddau ym Mhowys, yr ardal i'r gogledd o Fynydd yr Hob, Dyffryn Clywedog - Y Bers, Parc yn y Gorffennol, bryngaer Caer Estyn, Mynydd


Mynyllod, a Dyffryn Dyfrdwy yn Llandrillo a Pharcdiroedd Neuadd Bryn Gwyn ac Ystad Rhug i gyd i gyd yn mynd ymlaen i gael eu gwerthuso'n fanwl. Nid yw hyn yn awgrymu y byddant o reidrwydd yn symud ymlaen ymhellach nac yn ffurfio rhan o unrhyw ffin arfaethedig (os canfyddir bod un yn briodol). Fodd bynnag, mae'n golygu y bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu hasesu'n fanwl wrth wneud y penderfyniad.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgysylltiad cynnar ac rydym yn gobeithio y byddwch hefyd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024. Mae'r adborth rydym wedi'i gael ac y byddwn yn parhau i'w geisio yn rhan bwysig o'r broses benderfynu. Byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach ac yn parhau i wrando wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

# 8. Y camau nesaf

Byddwn yn ystyried ac yn rhoi cyfrif am yr adborth a ddarparwyd wrth i ni weithio drwy gyfres o asesiadau technegol a pharatoi ein hargymhellion gwybodus. Bydd ymdrechion yn parhau i ymgysylltu â'r rhai sydd wedi ymgysylltu leiaf â'r broses hon hyd yma a chaiff ymgynghoriad cyhoeddus llawn ei gynnal ar ffin arfaethedig yn 2024.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr holl ymatebion ac unrhyw newidiadau i'r ffin yn cael eu hystyried cyn cyflwyno argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Os oes digon o dystiolaeth i ddangos bod y meini prawf statudol sy'n ymwneud â harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored wedi'u bodloni, a bod yr ardal â digon o arwyddocâd cenedlaethol fel y dylai dibenion PC fod yn berthnasol, caiff Gorchymyn Dynodi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y Gweinidogion wedyn yn ystyried hyn ac yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r Gorchymyn Dynodi. Os bydd gwrthwynebiadau gan awdurdod lleol statudol nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl cyn i Orchymyn gael ei gyflwyno, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddewis cynnal ymchwiliad cyhoeddus i ddarparu ffyrdd eraill o ganiatáu i bobl gyflwyno sylwadau llawn ar y cynnig. Os caiff ei gadarnhau, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu PC newydd.




*Ffigur 8: Amserlen Gwerthuso Cynigion PC Newydd i Gymru*

# 9. Adnoddau eraill / cadw mewn cysylltiad

Byddwn yn diweddaru gwefan ein prosiect wrth i'r cynnig fynd rhagddo: [bit.ly/CynnigParcCenedlaetholNewyddCymru](bit.ly/CynnigParcCenedlaetholNewyddCymru)

Yn ogystal, mae mewnflwch y prosiect: [rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) ar gael ar gyfer unrhyw gwestiynau pellach. Rheolir hyn gan dîm y prosiect.

# 10. Cyfeiriadau


Adroddiadau Gwasanaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru (2020) Adroddiadau perfformiad gwasanaethau cynllunio. Ar gael yn: https://www.gov.wales/planning-services-performance-reports

ARUP (2013) Gwerthfawrogi PCau Cymru. NPs Cymru. Ar gael yn: https://www.nationalparkswales.uk/__data/assets/pdf_file/0026/18674/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf

Arian Cadarnhaol (2024) Prisiau tai: pam eu bod mor uchel? Ar gael yn: https://positivemoney.org/issues/house-prices/

Chandler David L (2024) Astudiaeth yn canfod y gall tiroedd a ddefnyddir ar gyfer pori waethygu neu helpu i newid hinsawdd. Newyddion MIT. Ar gael yn: https://news.mit.edu/2024/study-finds-lands-grazing-can-worsen-help-climate-change-0315

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2024) Parciau Cenedlaethol. Ar gael yn: https://www.wlga.wales/national-parks

CNC (2024) Briefing Note-Implications of Designated Landscapes on Planning. Available at: bit.ly/NewNationalParkProposalWales

CNC (2020) Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2020. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=en

Deddf yr Amgylchedd (1995). Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/25/contents

McAllister Fiona, Blunt Adam, Catrin Davies – Beaufort Research (2019) Wales Visitor Survey 2019. Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019. Adroddiad GSR rhif 20/2021 Llywodraeth Cymru

Nationwide (2024) Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol prisiau cychwyn tai hyd at 25%. Ar gael yn: https://www.nationwidehousepriceindex.co.uk/reports/national-parks-and-areas-of-outstanding-natural-beauty-boost-house-prices-by-up-to-25-percent

IPSOS (2022) Mynegai Brandiau Cenedl Anholt-Ipsos. Ar gael yn: https://www.ipsos.com/sites/default/files/ct/news/documents/2022-11/NBI%202022%20Report%20-%20Updated%209JAN23.pdf

IUCN (2020) Safon Fyd-eang yr IUCN ar gyfer Atebion Seiliedig ar Natur. IUCN. Ar gael yn: https://www.iucn.org/our-work/nature-based-solutions

Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi (2024) Cyllideb y gwanwyn 2024: Cyhoeddiadau a dadansoddiadau allweddol – Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi. Ar gael yn: https://lordslibrary.parliament.uk/spring-budget-2024-key-announcements-and-analysis/

Llywodraeth Cymru (2023) Ail gartrefi: Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? Ar gael yn: https://www.gov.wales/second-homes-what-does-data-tell-us-html#:~:text=Data%20collected%20in%20the%20annual,to%2024%2C170%20in%202023%2D24.

Llywodraeth Cymru (2022) Bioamrywiaeth dwfn: argymhellion, Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/1/1664785835/biodiversity-deep-dive-recommendations.pdf

Llywodraeth Cymru (2023) Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr i ffermio. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2023-12/sustainable-farming-scheme-consultation-document_0.pdf

Llywodraeth Cymru (2024) Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Ar gael yn: welsh-language-communities-housing-plan-consultation-doc.pdf (gov.wales)

Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040. Ar gael yn: https://www.gov.wales/future-wales-national-plan-2040

Llywodraeth Cymru (2024) Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth i Ffermydd yn y Dyfodol - Diweddariad ar Gamau Gweithredu. Ar gael yn: https://www.gov.wales/written-statement-future-farm-support-update-actions#:~:text=Together%20we%20can%20create%20a,the%20climate%20and%20nature%20emergency.

Llywodraeth Cymru (2018) Datganiad ysgrifenedig - Gwerthfawr a Gwydn: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. Ar gael yn: https://www.gov.wales/written-statement-valued-and-resilient-welsh-governments-priorities-areas-outstanding-natural

Llywodraeth Cymru (2024) Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dull triphlyg i fynd i'r afael ag "argyfwng ail gartrefi". Ar gael yn: https://www.gov.wales/welsh-government-announces-three-pronged-approach-address-second-homes-crisis

Llywodraeth Cymru (2024) Rheolau treth newydd ar gyfer ail gartrefi. Ar gael yn: https://www.gov.wales/new-tax-rules-second-homes

Llywodraeth Cymru (2024) Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Werddach. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2024-01/environmental-principles-governance-and-biodiversity-targets-white-paper.pdf

NRW (2024) Nodyn Briffio - Goblygiadau Tirweddau Dynodedig ar Gynllunio. Ar gael yn:bit.ly/NewNationalParkProposalWales

NPau a Deddf Mynediad i Gefn Gwlad (1949) Ar gael yn:https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/12-13-14/97

Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon (2024) Ar gael yn: https://www.blackmountains.wales/

PC Bannau Brycheiniog (2019) Dyfodol gyda natur yn ganolog iddo, Cynllun Adfer Natur ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2019-2024. PC Bannau Brycheiniog. Ar gael yn: https://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/BBNPA-Nature-Recovery-A4-ENG-WEB.pdf

PC Bannau Brycheiniog (2023) Bannau Gorffennol, Presennol a Dyfodol. Cynllun Gweithredu Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer PCBB 2023-2028. Ar gael yn: https://bannau.wales/planning/heritage2/historic-environment-action-plan/

PC Bannau Brycheiniog (2024) Adeiladau Cymunedol – Archwiliadau Ynni a Grantiau. Ar gael yn: https://bannau.wales/communities/substainable-development-fund/6-energy-efficiency-fund-2021-22/

PC Bannau Brycheiniog (2023) Prosiect Amseroedd Ffrwydron. Ar gael yn: https://bannau.wales/communities/current-projects/explosive-times-the-project/

PC Bannau Brycheiniog (2024) Prosiect Gofal Mwdlyd. Ar gael yn: https://bannau.wales/communities/substainable-development-fund/case-studies/muddy-care/

PC Bannau Brycheiniog (2024) Prosiect Mawndiroedd ac Ucheldiroedd. Ar gael yn: https://bannau.wales/environment/peatlands-and-uplands/

PC Bannau Brycheiniog (2024) Cronfa Datblygu Cynaliadwy. Ar gael yn: https://bannau.wales/communities/substainable-development-fund/

PC Bannau Brycheiniog (2024) Prosiect Erydu Llwybrau'r Ucheldir. Ar gael yn: https://bannau.wales/environment/access/upland-path-erosion/

PC y Cairngorms (2024) Mynediad i Bawb. Awdurdod PC Cairngorms. Ar gael yn: https://cairngorms.co.uk/discover-explore/enjoying-the-park/access4all/

PC Eryri (2020) Cynllun Eryri Cynllun Partneriaeth PC Eryri 2020. Ar gael yn: https://cynlluneryri.org/

PC Eryri (2023) Strategaeth Hamdden PC Eryri. PC Eryri. Ar gael yn: https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2023/11/Snowdonia-National-Park-Recreation-Strategy.pdf

PC Eryri (2024) Ymgynghoriad Cyhoeddus Gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 Yn Eryri. Ar gael yn: https://planning.snowdonia.gov.wales/policy/article4/

PC Eryri (2024) Gwaith paratoi ar weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Eryri o ystyried y golau gwyrdd. Ar gael yn:https://snowdonia.gov.wales/preparatory-work-on-the-implementation-of-the-article-4-direction-in-eryri-given-the-green-light/

PC Arfordir Penfro (2024) Bysiau Arfordirol. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ar gael yn: https://www.pembrokeshirecoast.wales/plan-your-visit/travel-and-parking/coastal-buses/

PC Arfordir Penfro (2014) Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mabwysiadwyd 2011, Diweddarwyd 2014. Ar gael yn: https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2019/04/RenEngTechUpdateApril14.pdf

PC Arfordir Penfro (2020) Cynllun Gweithredu Hamdden Cynaliadwy a Rheoli Ymwelwyr 2020-2024. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ar gael yn: https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2021/12/Sustainable-Recreation-and-Visitor-Management-Action-Plan.pdf

PC Arfordir Penfro (2023) Cynllun Grant Ffiniau Traddodiadol 2023/2024. Ar gael yn: https://www.pembrokeshirecoast.wales/conservation/traditional-boundaries-grant-scheme/

Polisi Cynllunio Cymru (2023) Ar gael yn: https://gov.wales/planning-policy-wales

Principality (2024) Mynegai Prisiau Tai Cymru. Ar gael yn: https://www.principality.co.uk/en/mortgages/house-price-index

Scurlock Lorna (2023) COP15: Beth sydd wedi'i gytuno a beth mae'n ei olygu i Gymru. Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. Ar gael yn: https://research.senedd.wales/research-articles/cop15-what-s-been-agreed-and-what-it-means-for-wales/#:~:text=It%20looks%20to%20protect%2030,target%20ahead%20of%20the%20summit.


Senedd Cymru (2000) Rheoliadau Ardollau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000. Ar gael yn: https://senedd.wales/media/4v3g5aoy/bus-guide-3887331d000bc7b2000072e500000000-english.pdf

Senedd Cymru (2022) Ail gartrefi: beth sy'n digwydd yng Nghymru? Ar gael yn: https://research.senedd.wales/research-articles/second-homes-what-s-happening-in-wales/


Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Mwy nag 1 o bob 10 cyfeiriad yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau mewn rhai ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/articles/morethan1in10addressesusedasholidayhomesinsomeareasofenglandandwales/2023-06-20

# 11. Atodiadau

## 11.1 Atodiad A: Map o'r Ardal Chwilio



## 11.2 Atodiad B: Holiadur



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Prosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru

Holiadur

9 Hydref – 27 Tachwedd 2023

cyfoethnaturiol.cymru

Diolch am gwblhau a dychwelyd yr holiadur hwn.
Mae eich barn yn rhan bwysig o'r broses asesu.

**C1 A ydych yn ymateb i'r holiadur hwn fel:** Ticiwch un yn unig

- ☐ Unigolyn?
- ☐ Ar ran sefydliad? (nodwch pa un):
- ☐ Ar ran grŵp neu gymuned? (nodwch pa un):

**C2 Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?** Ticiwch bob ateb sy'n berthnasol

- ☐ Preswylydd lleol
- ☐ Ffermwr/tirfeddiannwr
- ☐ Ymwelydd/twrist
- ☐ Perchennog busnes
- ☐ Arall (nodwch):
- ☐ Cynrychiolydd sefydliad/grŵp (nodwch eich rôl):

Os ydych yn cynrychioli barn eich sefydliad neu grŵp disgrifiwch sut y casglwyd barn y bobl yr ydych yn eu cynrychioli a faint a gyfrannodd.

Unrhyw sylwadau pellach

**C3 Beth yw eich côd post?** Rhowch eich côd post yn llawn neu'r tri digid cyntaf. Hoffem gasglu faint o ymatebwyr â diddordeb sy'n byw o fewn yr Ardal Chwilio neu'r tu allan.

Côd post

**C4a Pa opsiwn isod sy'n disgrifio orau eich teimladau tuag at y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig?** Ticiwch un yn unig

- ☐ Cadarnhaol iawn/optimistaidd
- ☐ Braidd yn bositif/optimistaidd
- ☐ Niwtral
- ☐ Ychydig yn negyddol/pryderus
- ☐ Negyddol/pryderus iawn
- ☐ Ddim yn gwybod

**Q4b**
**Ymhelaethwch ar eich ateb/esboniwch pam rydych chi'n teimlo fel hyn**

**C5a** **Pa ran neu rannau o'r ardal sy'n cael ei/eu hystyried y mae gennych ddiddordeb ynddi/ynddynt ac yn ymateb yn ei chylch?** Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- ☐ O fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) presennol
- ☐ Twyni Gronant
- ☐ Gogledd Dyffryn Clwyd
- ☐ Pwllglas a'r Dyffryn yn Rhuthun
- ☐ Dyffryn Tanat
- ☐ Llyn Efyrnwy
- ☐ Mynydd Helygain
- ☐ Mynydd Yr Hôb
- ☐ Dyffryn Ceiriog
- ☐ Dyffryn a Bryniau Llanfyllin
- ☐ Dyffrynnoedd Efyrnwy a Banwy
- ☐ Arall (nodwch): ____________

**C5b** **Beth sy'n arbennig i chi am y lle hwn/lleoedd hyn?**
Er enghraifft tirwedd, bywyd gwyllt, treftadaeth a diwylliant.

____________

**C5c** **Ydych chi'n teimlo bod angen cadw a gwella'r lle hwn/lleoedd hyn?**
Er enghraifft tirwedd, bywyd gwyllt, treftadaeth a diwylliant. Os felly, sut?

____________

**C6** **Gyda'r hyn rydych chi'n ei wybod ar hyn o bryd, a allwch chi ragweld unrhyw fanteision posibl o'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig hwn?** Ticiwch un yn unig

- ☐ Gallaf
- ☐ Na allaf
- ☐ Efallai
- ☐ Ansicr ar hyn o bryd – angen mwy o wybodaeth i benderfynu

Disgrifiwch unrhyw fanteision posibl

____________

**C7** **Gyda'r hyn rydych chi'n ei wybod ar hyn o bryd, a oes gennych chi unrhyw bryderon neu faterion rydych yn teimlo sy'n bwysig cael eu hystyried?** Ticiwch un yn unig

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes
- [ ] Ansicr ar hyn o bryd – angen mwy o wybodaeth i benderfynu

Disgrifiwch unrhyw bryderon neu faterion

**C8** **A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?**

**C9** **Sut hoffech chi fod yn rhan o'n gwaith yn y dyfodol i ddatblygu'r cynnig ar gyfer y prosiect?** Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- [ ] Derbyn diweddariadau e-bost
- [ ] Mynychu digwyddiadau i gyfrannu syniadau am y prosiect
- [ ] Dydw i ddim eisiau cymryd rhan

Os ydych yn hapus i ni gysylltu â chi, ychwanegwch eich cyfeiriad e-bost (neu fanylion cyswllt eraill) yma:

**Diolch am gwblhau'r holiadur hwn**

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl atom gan ddefnyddio ein cyfeiriad Rhadbost, y cyfan sydd ei angen arnoch yw amlen.

Freepost Plus RTJJ-AAKE-HKKU, Prosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW